CRONFA DREFTADAETH
HERITAGE FUND

# Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Dosbarthiad Loteri Genedlaethol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

HC 2453
SG/2019/89

# Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Dosbarthiad Loteri Genedlaethol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

Cyflwynir yr adroddiad i'r Senedd yn unol ag adran 34 (3) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006), a chyflwynir y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag adran 35 (5) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993

Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 18 Gorffennaf 2019
Cyflwynwyd gan un o Weinidogion yr Alban gerbron Senedd yr Alban 18 Gorffennaf 2019
Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon 22 Gorffennaf 2019
Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru 3 Hydref 2019

HC 2453
SG/2019/89

**© Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2019**
Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannol neu logos asiantaeth eraill, lle bônt yn bresennol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod bod y deunydd o dan hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a nodi teitl y ddogfen. Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yng Nghronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
Mezzanine Floor
International House
1 St Katharine's Way
Llundain E1W 1UN

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

ISBN Argraffiad 978-1-5286-1208-1

CCS0419037976 07/19

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yng ngwledydd Prydain gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu** | **2** |
| Adroddiad perfformiad | 2 |
| Adroddiad atebolrwydd | 16 |
| Y datganiadau ariannol | 40 |
| **Datganiad o wariant net cynhwysfawr** | **40** |
| **Datganiad o newidiadau mewn ecwiti** | **41** |
| **Datganiad o sefyllfa ariannol** | **42** |
| **Datganiad llifoedd arian** | **43** |
| **Cysoni llifoedd arian net â symudiad mewn cronfeydd net** | **43** |
| **Nodiadau i'r cyfrifon** | **44** |
| **Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017** | **59** |
| **Cyfarwyddiadau polisi** | **60** |
| Cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â Chymru | 67 |
| Cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â'r Alban | 68 |
| **Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn** | **70** |

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

## Adroddiad perfformiad

### Trosolwg

Diben – diben yr adroddiad perfformiad yw rhoi gwybodaeth am Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (y Bwrdd), prif amcanion a strategaethau'r sefydliad a'r prif risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae'r adran trosolwg yn rhoi gwybodaeth i'r defnyddiwr er mwyn iddo allu deall y Bwrdd, ei ddiben, y prif risgiau wrth gyflawni ei amcanion a sut mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Yn yr adran dadansoddi, mae'r Bwrdd yn adrodd ar ei fesurau perfformiad pwysicaf, gan gynnwys dadansoddiad sy'n defnyddio gwybodaeth ariannol o'r datganiadau ariannol.

**Ein perfformiad yn 2018–19:**
**– datganiad gan y Prif Weithredwr**

Heb os, roedd 2018–19 yn flwyddyn eithriadol o brysur a phwysig ar gyfer Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'r gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod hwn wedi adeiladu ar baratoadau a newidiadau'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ffaith ein bod ni hefyd wedi llwyddo i gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol a osodwyd gennym ar ddechrau'r flwyddyn yn dangos ymrwymiad yr holl dimau sy'n ymgymryd â'n busnes o ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol, arweinyddiaeth y Bwrdd a chryfder y Tîm Arwain.

Cyflawnom flwyddyn olaf ein fframwaith strategol ar gyfer 2013–2018, sef cylch buddsoddi a ariannodd dros £1.5biliwn i dreftadaeth ledled gwledydd Prydain, ac fe lansiom ein Fframwaith Ariannu Strategol newydd, sy'n dechrau ym mis Ebrill 2019 ac yn rhedeg hyd 2024. Yn ystod y cylch hwn byddwn yn buddsoddi oddeutu £1.2biliwn mewn treftadaeth.

Eleni newidiom ein hunaniaeth brand hefyd, o Gronfa Dreftadaeth y Loteri i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Ym mis Ionawr 2019, fe lansiom ein Fframwaith Ariannu Strategol a'n brand newydd mewn digwyddiad yn y Llyfrgell Brydeinig, gyda'r Gweinidog dros y Celfyddydau, Treftadaeth a Thwristiaeth yn bresennol yno. Datblygwyd y brand newydd fel rhan o agwedd newydd teulu'r Loteri Genedlaethol tuag at frandio ac adnabyddiaeth ar gyfer y Loteri Genedlaethol fel rhan o deulu ehangach Un Loteri Genedlaethol. Cynhaliwyd y gwaith ar y brand newydd gydag aelodau eraill o deulu'r Loteri Genedlaethol, yn benodol Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (y Gronfa Loteri Fawr gynt). Cymeradwywyd y logo a'r hunaniaeth newydd gan y Comisiwn Hapchwarae, a rhoddwyd yr hawliau perthnasol a'r cofrestriadau cyfreithiol ar waith.

Ar yr un pryd, ac o dan yr un brand, lansiwyd ein gwefan newydd a ddatblygwyd i wella profiad y defnyddiwr a hygyrchedd. Ynghyd â'r newidiadau i'r strwythur a gyflawnwyd drwy ein rhaglen trawsnewid busnes, Siapio ein Busnes ar gyfer y Dyfodol, bydd y newidiadau hyn yn caniatáu i ni gydnabod cyfraniad y Loteri Genedlaethol i dreftadaeth gwledydd Prydain yn fwy clir, cryfhau'r proffil a roddir i ariannu gan sefydliadau, a'n helpu i gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol.

Drwy'r fframwaith strategol newydd, ceir symudiad enfawr tuag at ddatganoli ein gwaith dosbarthu grantiau ledled gwledydd Prydain. O fis Ebrill 2019 ymlaen, bydd penderfyniadau ar oddeutu 80% o waith ariannu Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cael eu gwneud yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon, a thair ardal newydd yn Lloegr.

Mae ein dull newydd yn cynnwys:

- ffocws sylweddol ar natur, cymunedau, a sicrhau bod modd i bawb fwynhau treftadaeth – dyma oedd blaenoriaethau pennaf y bobl a ymatebodd i'n ymgynghoriad
- modelau buddsoddi newydd, gan fynd y tu hwnt i grantiau er mwyn cynnwys benthyciadau a phartneriaethau, wedi'u dylunio i ddenu eraill i fuddsoddi arian ochr yn ochr â'r Loteri Genedlaethol
- mwy o gefnogaeth i ddulliau masnachol a chynaliadwy o fynd i'r afael â threftadaeth sydd mewn perygl o gael ei cholli
- buddsoddi a chefnogi i helpu sefydliadau treftadaeth i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol
- gofyniad i bob prosiect treftadaeth sy'n cael cyllid fod yn ecogyfeillgar
- ariannu mwy syml, clir ac effeithiol
- rhagor o waith ymgysylltu a chefnogi i helpu 13 cymuned ddifreintiedig sydd wedi bod yn llai llwyddiannus yn sicrhau arian yn y gorffennol
- cefnogaeth barhaus ar gyfer prosiectau eiconig ar raddfa fawr dros £5miliwn

Mae ein portffolio buddsoddi yn symlach ac yn haws cael mynediad ato, ac yn cynnwys:

- Grantiau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Treftadaeth – rhaglen agored ar gyfer unrhyw fath o brosiect treftadaeth o £3,000 i £5miliwn
- ymgyrchoedd ariannu treftadaeth wedi'u dylunio i gyflawni anghenion strategol neu i fynd i'r afael â bylchau ariannu. Bydd y ddwy ymgyrch gyntaf yn

cael eu lansio yn 2019, ac yn canolbwyntio ar helpu:

  – sefydliadau i adeiladu eu capasiti a'u gwytnwch sefydliadol
  – i adeiladu capasiti digidol

- cronfeydd ar y cyd i gyflawni mentrau strategol mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis partneriaeth Sbarduno Parciau'r Dyfodol gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- buddsoddiadau cymdeithasol megis benthyciadau a chronfeydd effaith
- dau gylch o grantiau sylweddol dros £5miliwn yn 2020–21 a 2022–23

Mae'r portffolio a'r dull cyffredinol hwn yn adlewyrchu'r ymarferiad ymgynghori eang a gynhaliwyd gennym yn 2017–18 gyda chwaraewyr a rhanddeiliaid allweddol y Loteri Genedlaethol ar draws y sectorau treftadaeth. Mae hefyd yn gweithredu ein hymrwymiad i gyflwyno argymhellion ein Hadolygiad wedi'i Deilwra 2017.

Rydym wedi parhau i gynllunio ar gyfer symudiadau yn ein hincwm Loteri Genedlaethol hefyd, ac y llynedd gwelsom fuddiannau'r hyn a ddechreuwyd gennym yn 2017–18 wrth i ni gysoni ein cronfeydd wrth gefn, ein hincwm a'n hymrwymiadau mewn modd synhwyrol a diogel yn ariannol. Mae'n galonogol nodi bod ein cynnydd sylweddol a phwysig yn cyd-fynd â rhagamcanion incwm cryfach ar gyfer incwm y Loteri Genedlaethol yn ystod y tymor canolig.

Ar y cyd â'r dosbarthwyr eraill, rydym wedi cynyddu ein pwyslais ar rôl ariannu'r Loteri Genedlaethol wrth helpu cymunedau ledled gwledydd Prydain a'r cyfraniad a wneir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Ym mis Rhagfyr 2017, gyda chefnogaeth helaeth gan dderbynyddion presennol a blaenorol ein grantiau, gwnaed 425 o safleoedd treftadaeth ledled gwledydd Prydain yn fwy agored gyda buddion arbennig i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol fel rhan o ymgyrch ehangach 'Diolch i Chi' a ddechreuwyd gan Camelot a dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol. Roedd yr ymgyrch honno'n fwy llwyddiannus fyth yn 2018–19, a byddwn yn parhau â'r thema hon yn 2019–20 fel rhan o ddathlu pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 25 oed.

Yn 2018–19, gwelsom gyfeiriadau polisi newydd ar gyfer Prydain, yng Nghymru, yr Alban ac yn Lloegr am y tro cyntaf hefyd. Adlewyrchir y rhain yn ein fframwaith cyllido newydd.

Roedd meysydd gwaith sylweddol eraill 2018–19 yn canolbwyntio ar ein rhaglen trawsnewid busnes. Roedd hyn yn cynnwys proses ddylunio ac ymgynghori eang i sefydlu dyluniad newydd ar gyfer y Gronfa. Cynhaliwyd ymgynghoriad staff mewn perthynas â hyn yn ystod haf a hydref 2018. Wedi hynny, buom yn ymgynghori gyda'n hundebau llafur cydnabyddedig dros y gaeaf, a dechreuwyd trosglwyddo i'r strwythur newydd ym mis Ionawr 2019. Cwblhawyd hyn erbyn diwedd mis Mawrth 2019.

Bydd y strwythur newydd yn canolbwyntio ar gyflawni ein huchelgais o "ysbrydoli, arwain ac ariannu treftadaeth gwledydd Prydain". Mae'r strwythur adrannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2019:

- Treiddgarwch ac Arloesedd Busnes – yn canolbwyntio ar arwain a gyrru cyd-destun, treiddgarwch a chyfeiriad ein huchelgais
- Cyflawni Busnes – yn canolbwyntio ar gyflawni ein huchelgais drwy bartneriaethau strategol, ymgysylltu a buddsoddi ledled gwledydd Prydain ar lefel leol
- Gwasanaethau Busnes – yn canolbwyntio ar alluogi, partneru a chefnogi ein huchelgais

Bydd Cyflawni Busnes yn parhau â'i fodel cyflawni ledled gwledydd Prydain, gan gynnwys tair ardal newydd yn Lloegr sydd wedi'u cyfuno o'r rhanbarthau a oedd eisoes yn bodoli yn Lloegr: Gogledd Lloegr; Canolbarth a Dwyrain Lloegr; a Llundain a De Lloegr.

Rydym wedi dechrau gwaith ar ddichonoldeb system rheoli buddsoddiad newydd gyda'r nod o ddechrau gweithredu yn 2020. Rydym wedi creu tîm datblygu a threiddgarwch digidol newydd a phwrpasol i helpu i gefnogi hyn. Rydym hefyd wedi parhau i resymoli a gwella ein hystâd, gan ddarparu llety o ansawdd gwell i'n timau a gwell gwerth am arian i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Yn olaf, dyma ddiolch i'n holl staff sy'n gweithio ar grantiau'r Loteri Genedlaethol. Maent yn gweithio'n broffesiynol ac yn llawn gonestrwydd, yn wirioneddol ymroddedig i waith Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac yn darparu gwasanaeth eithriadol a gwerthfawr i gymunedau ac i'n treftadaeth. Maent wedi parhau i ddarparu cefnogaeth eithriadol er iddi fod yn flwyddyn o newid eleni.

**Ein diben a'n gweithgareddau**

Caiff Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG) ei breinio a'i gweinyddu gan gorff corfforaethol o'r

enw Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys Cadeirydd a dim mwy na 14 aelod arall a benodwyd gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd CGDG ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 (Deddf 1980) mewn olyniaeth i'r Gronfa Dir Genedlaethol fel coffâd i'r rheiny sydd wedi rhoi eu bywydau dros y Deyrnas Unedig. Mae'n derbyn cymorth grant blynyddol gan y llywodraeth i'w galluogi i ddyfarnu grantiau. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (Deddf 1993), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 (Deddf 1997) a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998 (Deddf 1998).

O dan Ddeddf 1993, daeth CGDG yn gyfrifol am ddosbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a glustnodir i dreftadaeth. Rhaid i CGDG baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer y Loteri Genedlaethol. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel CGDG ar gyfer symiau a ddyrannwyd o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer derbyniadau o dan ddarpariaethau Deddf 1993.

O dan adran 21(1) Deddf 1993, cynhelir cronfa a elwir yn Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol o dan reolaeth a goruchwyliaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Caiff pob swm a geir gan ddaliwr trwydded y Loteri Genedlaethol o dan adran 5(6) ei dalu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'i roi ganddynt i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae CGDG yn gwneud cais i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol am gyllid i fodloni ei rhwymedigaethau i dalu grantiau'r Loteri Genedlaethol a chostau gweinyddu.

O dan adran 22 Deddf 1993, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dyrannu 20% o'r swm a delir i mewn i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer gwariant ar y dreftadaeth genedlaethol, neu wariant sy'n gysylltiedig â hi.

Mae Adran 23(3) yn sefydlu mai Ymddiriedolwyr CGDG yw dosbarthwyr y gyfran honno. Lleihawyd y dyraniad canrannol i 16⅔% ym mis Hydref 1997 ar ôl i'r Llywodraeth greu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Fe'i cynyddwyd yn ôl i 20% o 1 Ebrill 2012 ymlaen, ar ôl bod ar 18% drwy gydol 2011–12.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd Trysorlys EM yn unol ag adran 35(3) Deddf 1993.

O dan adrannau 3 a 3a Deddf 1980, gall CGDG wneud grantiau a benthyciadau at ddiben caffael, cynnal neu ddiogelu:

i) unrhyw dir, adeilad neu strwythur sydd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, archeolegol, pensaernïol neu wyddonol eithriadol
ii) unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn nhw, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol
iii) unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sy'n gasgliad neu grŵp sydd yn ei gyfanrwydd o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn nhw

Mae Adran 4 Deddf 1980 (fel y'i diwygiwyd ar ôl hynny) yn ymestyn pwerau'r Ymddiriedolwyr i wella arddangosiad eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol drwy roi cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau sydd â'r nod o hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1997, gall yr Ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo hefyd â phrosiectau sy'n anelu i gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o dreftadaeth ac anelu i ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar ein hanes, ein bywyd gwyllt a'n tirwedd. Rhoddodd Deddf 1998 y pŵer i'r Ymddiriedolwyr ddyfarnu grantiau refeniw i ehangu mynediad i'r dreftadaeth ac i ddirprwyo penderfyniadau am grantiau'r Loteri Genedlaethol i staff a hefyd i bwyllgorau sy'n cynnwys rhai aelodau nad ydynt yn Ymddiriedolwyr.

Gan ddefnyddio arian a godir drwy chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn rhoi grantiau i gynnal a thrawsnewid ein treftadaeth, gan wneud gwahaniaeth parhaol i dreftadaeth, pobl a chymunedau:

- Yn ystod y 24 mlynedd diwethaf, mae'r cyhoedd, rhanddeiliaid a llywodraethau olynol wedi ymddiried ynom i ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol yn ddoeth, gan gefnogi prosiectau treftadaeth llwyddiannus ar draws gwledydd Prydain.

- Rydym yn brofiadol ac yn arbenigo mewn rhoi grantiau, ac yn gweithio i sicrhau bod ein cyllid yn cyflawni canlyniadau gwych. Rydym yn annibynnol, yn ystyriol ac yn canolbwyntio ar ansawdd.
- Rydym wedi datblygu'r perthnasoedd a'r sgiliau i weithio gydag eraill i wella treftadaeth ac ansawdd bywyd ar draws gwledydd Prydain.
- Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae ein buddsoddiad wedi cael effaith enfawr ar dreftadaeth y genedl, gan ei thrawsnewid ar gyfer pobl a chymunedau. Gydag oddeutu £225miliwn ar gael i'w dosbarthu y flwyddyn nesaf, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yw un o'r ffynonellau cyllid pwysicaf o hyd, a bydd yn parhau i wneud buddsoddiadau sy'n datgloi potensial enfawr treftadaeth gwledydd Prydain.

**Ein risgiau allweddol a'n materion**

Mae ein gweithgareddau yn dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol wedi wynebu nifer o risgiau sylweddol yn ystod y flwyddyn, ac rydym wedi gweithredu i reoli'r rhain er mwyn lleihau'r effaith gymaint â phosib ar ymgeiswyr, derbynyddion grant a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â'r sefydliad ei hun.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu mewn cyfarfodydd Bwrdd a thrwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Caiff cofrestr flynyddol ei chreu o'r risgiau lefel uchaf, a adolygir yn rheolaidd. Nodir y manylion yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 19.

Y brif risg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd gostyngiad posib yng nghyllid y Loteri Genedlaethol, yn dilyn rhai blynyddoedd lle gwelwyd mwy o incwm nag erioed. Rydym wedi gweithio gyda'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y Comisiwn Hapchwarae a Camelot i ddarparu dadansoddiad strategol gwell o dueddiadau hirdymor, cymysgedd y gemau/cynhyrchion a chyfran y farchnad i ddeall y risg hon yn well.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r partïon perthnasol i ddeall a gwella'r rhagamcanion incwm yn y tymor byr a'r hirdymor. Rydym wedi cymryd camau hefyd i gysoni ein hymrwymiadau, ein cronfeydd wrth gefn a'n hincwm yn well. Rheolwyd hyn yn effeithiol yn ystod y flwyddyn; mae ein sefyllfa ariannol wedi gwella a'r rhagamcanion incwm nawr yn ymddangos yn fwy sefydlog a dibynadwy.

Rydym yn cydnabod hefyd y gallai ail-osod trwydded y Loteri Genedlaethol dros y blynyddoedd nesaf gyflwyno risgiau posib i ni o ran incwm, gweithredwr ac ati. Byddwn yn gweithio'n agos drwy Fforwm Loteri Dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol i sicrhau bod yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Comisiwn Hapchwarae yn ymwybodol o'r risgiau hyn ac yn deall eu heffeithiau posib ar ein buddsoddiad.

Un o'r risgiau sy'n parhau yw'r perygl i'n buddsoddiadau Loteri Genedlaethol presennol, o ganlyniad i newidiadau yn y sector treftadaeth o ran ariannu, perchnogaeth a chynnal asedau, capasiti a gallu sefydliadol a modelau busnes yn newid. Mae hon yn risg gymhleth, sy'n amrywio mewn ffyrdd gwahanol ac ar adegau gwahanol ledled Prydain. Mae ein timau gweithredol yn dal i fod yn effro i newidiadau mewn prosiectau presennol a blaenorol, ac mae nodi problemau a'u trafod yn gynnar gyda derbynyddion grantiau yn allweddol yn aml wrth ddod o hyd i ddatrysiad.

Rydym yn parhau i fonitro'r effeithiau posib ar y sector pan fydd gwledydd Prydain yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae cyfaint ac amrywioldeb llwyth gwaith yn parhau i beri risg i ni. Mae deall tueddiadau'r rhain a'u goblygiadau o ran adnoddau yn rhan allweddol o'n gwaith. Rydym wedi buddsoddi mewn deall ein cyllid, costau ac effeithlonrwydd mewn llawer mwy o ddyfnder yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac rydym wedi dechrau defnyddio'r data hwnnw wrth gynllunio adnoddau. Rydym wedi dod â'n fframwaith strategol blaenorol i ben yn llwyddiannus, gan gynnwys gohiriad byr rhag gwneud dyfarniadau grant mawr ar ddiwedd 2018–19 er mwyn ymdopi â'r cyfnod pontio rhwng cylchoedd buddsoddi.

Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â chyflawni ein rhaglen trawsnewid busnes – newid y ffordd rydym yn gweithio a sut rydym yn gweithredu er mwyn gweithio'n fwy hyblyg ac ymatebol. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio hefyd ar leihau ein costau gweithredu ac amrywio ein ffrydiau incwm, gan drosoli mwy o fuddsoddiad yn y sectorau treftadaeth ledled gwledydd Prydain. Ar ôl creu'r dyluniad gorau posib ar gyfer y sefydliad, yr her fydd gwreiddio hyn, gan gyflwyno ffyrdd newydd o weithio a diwylliant newydd i helpu i gefnogi hynny, gan gadw llawer o agweddau cadarnhaol ein diwylliant presennol.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

**Ein Strategaeth Gorfforaethol 2018–2021**

Yn 2017–18, crëwyd Strategaeth Gorfforaethol a oedd yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer rôl CGDG yn ystod y tair blynedd rhwng 2018 a 2021. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn atgyfnerthu'r cyfeiriad rydym wedi bod yn mynd tuag ato ers rhai blynyddoedd, gan amlinellu ein rôl fel ffynhonnell gyllid bwrpasol fwyaf maes treftadaeth ledled gwledydd Prydain, a chymryd camau pellach tuag at safle arwain cryfach, gyda phwyslais penodol ar gyfleoedd y tu hwnt i roi grantiau yn unig. Yn 2017–18 cynhaliom brofion y farchnad a hyfywdra ar rai o feysydd busnes newydd y Strategaeth Gorfforaethol, a thrwy'r rhaglen trawsnewid busnes, rydym wedi sefydlu'r rolau a'r strwythur sefydliadol newydd a fydd yn gweithredu ein dyheadau yn 2019–20.

Ym mis Ebrill 2018, daethom ag ymgynghoriad ar y Fframwaith Ariannu Strategol ar gyfer 2019–2024 i ben. Roedd yn cefnogi ein gweledigaeth a'n rôl newydd yn gryf. Ers 1994, ein rôl wrth ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol yw gwneud 'gwahaniaeth parhaol i dreftadaeth a phobl yng ngwledydd Prydain'. Rydym wedi datblygu statws fel arweinydd treftadaeth, trwy ein dylanwad a'n hariannu; a gallu, arbenigedd a phrosesau sylweddol i gefnogi'r gwaith o ddosbarthu grantiau. Yn y dyfodol, byddwn yn cydnabod ymhellach y manteision pellgyrhaeddol a ddaw i gymdeithas yn sgil treftadaeth a rôl ehangach i CGDG fel galluogwr, wrth drosoli buddsoddiad mewn treftadaeth gan eraill ac wrth ddatblygu capasiti, sgiliau a gwytnwch mewn sefydliadau ac mewn pobl.

Ein gweledigaeth yw y bydd CGDG yn arweinydd cryf yn strategol ac o ran ffordd o feddwl ar gyfer treftadaeth yn gyffredinol ledled gwledydd Prydain, gan ddangos a hyrwyddo'r effaith a'r buddion i gymdeithas a ddaw yn sgil treftadaeth a throsoli buddsoddiad a chymorth gan eraill i gryfhau'r sefyllfa hon. Bydd treftadaeth yn cael ei chydnabod yn ehangach fel cyfrannwr hollbwysig at gynnyrch mewnwladol crynswth, cydlyniad cymdeithasol, llefydd gwell a llesiant unigol. Byddwn yn defnyddio incwm o'r Loteri Genedlaethol fel grantiau, benthyciadau neu ymyriadau ariannol eraill lle byddant yn creu'r gwerth hirdymor mwyaf i gymdeithas. Byddwn yn cynyddu'r effaith gymaint â phosib trwy ailgylchu incwm a chymryd cyfran o incwm uwch lle bo'n briodol, ynghyd â throsoli buddsoddiad mewn treftadaeth gan eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'r Loteri.

**Busnes gweithredol**

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol fel y mynnir gan safonau cyfrifyddu rhyngwladol. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reswm i gredu bod gan y llywodraeth unrhyw gynlluniau i newid canran arian achosion da y Loteri Genedlaethol a dderbynnir gan CGDG nac i newid dosbarthwyr yr arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol.

Cefnogodd Adolygiad wedi'i Deilwra 2017 yr angen am rôl CGDG ac am barhau i'w darparu gan gorff cyhoeddus anllywodraethol, ac ni wnaeth unrhyw argymhellion i newid canran cyllid y Loteri Genedlaethol a dderbynnir gan CGDG. Hysbyswyd yr Ymddiriedolwyr gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2014, nad yw'n bwriadu newid trefniadau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth. At hynny, cynyddodd yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyfran treftadaeth arian achosion da y Loteri Genedlaethol i 20% o fis Ebrill 2012 ymlaen.

**Crynodeb o berfformiad**

Mae'r manylion a nodir yn yr adran hon a'r dangosyddion perfformiad allweddol ar dudalen 12 yn dangos ein bod wedi bodloni neu ragori ar y mwyafrif helaeth o'n mesurau perfformiad yn 2018–19. Nodir manylion am ein perfformiad o gymharu â'n targedau lefel gwasanaeth ar dudalen 7.

## Dadansoddiad perfformiad

Mae CGDG yn gweithredu dwy gronfa – sef ei chronfa cymorth grant wreiddiol (CGDG) a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol (Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol). Mae'n ofynnol yn ôl cyfarwyddiadau cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'r gweithgareddau hyn gael eu cyfrifo ar wahân, ac felly ni pharatoir cyfrifon cyfunol. Dim ond gweithgareddau dosbarthu arian Loteri Genedlaethol CGDG y mae'r adolygiad hwn yn eu trafod.


Mae CGDG yn cael ceisiadau am arian y Loteri Genedlaethol gan filoedd o sefydliadau ar draws holl gymunedau gwledydd Prydain, ac yn dyfarnu grantiau ar sail ei nodau. Ers i'r Loteri Genedlaethol ddechrau ym 1994, rydym wedi derbyn dros 53,000 o geisiadau yn gofyn am £22.8biliwn. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydym wedi gwneud dros 37,000 o ddyfarniadau yn dod i ychydig dros £8biliwn, gan arwain at dros 129,000 o daliadau grant yn dod i ychydig yn is na £6.5biliwn.

# Targedau lefel gwasanaeth – perfformiad ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019


| | | Y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019 | Y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| 1 | Rhoddir penderfyniadau ar wefan Cronfa Goffa'r Loteri Genedlaethol ymhen 20 diwrnod gwaith o gyfarfod y bwrdd. | **100%** | 100% |
| 2 | Gwneir taliadau grant i'r ymgeisydd, ar gyfartaledd, o fewn naw diwrnod gwaith o gael y cais am daliad | **87% (6 diwrnod ar gyfartaledd)** | 88% (6 diwrnod ar gyfartaledd) |
| 3 | Amserlenni'r broses ymgeisio:<br>**Grantiau Treftadaeth rownd 1:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **89% (14.0 wythnos ar gyfartaledd)** | 98% (14.3 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Grantiau Treftadaeth rownd 2:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **88% (15.1 wythnos ar gyfartaledd)** | 90% (16.7 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Grantiau Treftadaeth – casgliad mawr rownd 2:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **100% (14.4 wythnos ar gyfartaledd)** | 86% (14.1 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Menter Treftadaeth rownd 1:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **76% (13.6 wythnos ar gyfartaledd)** | 97% (13.7 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Menter Treftadaeth rownd 2:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **73% (20.3 wythnos ar gyfartaledd)** | 100% (14.1 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Partneriaethau Tirwedd rownd 2:**<br>16 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **100% (15.4 wythnos ar gyfartaledd)** | 100% (15.6 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Grantiau ar gyfer Mannau Addoli rownd 1:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **Ddim yn berthnasol** | 98% (16.4 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Grantiau ar gyfer Mannau Addoli rownd 2:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **99% (9.9 wythnos ar gyfartaledd)** | 98% (9.9 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Treftadaeth Treflun rownd 2:**<br>12 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **80% (17.3 wythnos ar gyfartaledd)** | 100% (15.0 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw:**<br>8 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **97% (7.3 wythnos ar gyfartaledd)** | 96% (7.3 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Ein Treftadaeth:**<br>8 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **96% (7.3 wythnos ar gyfartaledd)** | 98% (6.9 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Rhannu Treftadaeth:**<br>8 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **95% (7.3 wythnos ar gyfartaledd)** | 97% (6.9 wythnos ar gyfartaledd) |
| | **Gwreiddiau Ifanc:**<br>8 wythnos ynghyd â'r amser hyd at y cyfarfod nesaf | **97% (7.0 wythnos ar gyfartaledd)** | 98% (6.9 wythnos ar gyfartaledd) |
| 4 | Byddwn yn cynnal arolwg o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus ac yn ceisio cynnal bodlonrwydd cwsmeriaid gyda'n prosesau asesu ar 80% neu'n uwch. | **80.3%** | 85.7% |
| 5 | Byddwn yn cynnal arolwg tebyg o'r rheiny y dyfarnwyd grantiau iddynt, ac yn ceisio cynnal bodlonrwydd cwsmeriaid gyda'n prosesau monitro ac ôl-ddyfarnu ar 85% neu'n uwch. | **90.4%** | 88.4% |
| 6 | Bydd o leiaf 87% o ymgeiswyr o'r farn bod gwefan Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn hawdd ei defnyddio. | **79%** | 82% |
| 7 | Byddwn yn mynd ati i hyrwyddo detholiad eang o'n dyfarniadau drwy'r cyfryngau, i godi ymwybyddiaeth ymhlith ymgeiswyr posib a chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. | **Bodlonwyd (gweler nodyn 1)** | Bodlonwyd |

Nodyn 1: Aethom ati i hyrwyddo detholiad eang o'n dyfarniadau – a'r effaith a gafwyd drwy'r arian a ddosbarthwyd gennym – drwy'r cyfryngau a'n sianeli digidol ein hunain, i godi ymwybyddiaeth ymhlith ymgeiswyr posib a chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Yn ystod 2018–19, cyrhaeddai ein sylw yn y wasg fwy na 24 miliwn o bobl mewn chwarter arferol; denai ein gwefan 100,000 o ddefnyddwyr mewn chwarter arferol, gyda mwy nag 20,000 o'r rheiny yn darllen ein newyddion a'n straeon; gwelodd ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol dwf o 600 o ddilynwyr ar gyfartaledd bob chwarter, a chyflawnodd ein cylchlythyr gyfradd agor unigryw o 31% y mis, sy'n uwch na chanran safonol y diwydiant. Dylid nodi hefyd y cyflawnwyd hyn yn rhannol drwy lansio gwefan newydd ym mis Ionawr 2019.


## Nifer y ceisiadau Loteri yn ôl blwyddyn




## Balans Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn ôl blwyddyn




## Gwerth taliadau grant yn ôl blwyddyn



Yn ystod 2018–19, cawsom dros 3,600 o geisiadau grant. Roedd y nifer hwn yn uwch na'r 3,500 y llynedd, a dim ond ychydig yn is na'r nifer uchaf a gafwyd yn ddiweddar yn 2016–17.

Fodd bynnag, roedd gwerth y ceisiadau lawer yn is na'r blynyddoedd diwethaf. Fel arfer, rydym yn derbyn ceisiadau gwerth llawer yn uwch na £1biliwn, ond eleni dim ond ychydig yn uwch na £700miliwn oedd gwerth y ceisiadau a gafwyd. Cafodd absenoldeb rhaglen casgliad mawr (dyfarniadau unigol dros £5miliwn i brosiectau mawreddog) effaith sylweddol ar werth, os nad nifer, y ceisiadau. At hynny, buom yn rheoli'r galw am grantiau yn dilyn rhagamcanion hirdymor a oedd yn awgrymu gostyngiad posib mewn incwm dros amser. Fel yr oedd hi, roedd galw am fwy na £700miliwn, a oedd yn dal i fod fwy na dwywaith yr incwm a dderbyniom yn ystod y flwyddyn, sy'n dangos poblogrwydd parhaus ein rhaglenni ariannu, a'r angen di-derfyn am gefnogaeth yn y byd treftadaeth yn ôl pob golwg.

Dyma oedd blwyddyn olaf llawer o'n rhaglenni grant, wrth i'n pedwerydd fframwaith strategol ddod i ben. Mae ein Strategaeth Gorfforaethol newydd yn flwydd oed, ac mae ein pumed Fframwaith Ariannu Strategol ar waith o Ebrill 2019 ymlaen ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

2015–16 oedd y flwyddyn lle gwerthwyd y nifer fwyaf o docynnau'r Loteri Genedlaethol erioed. Fodd bynnag, gostyngodd ein hincwm o £388miliwn i £327miliwn yn 2016–17, arhosodd yn sefydlog ar £328miliwn yn 2017–18, a gostyngodd rywfaint eleni i £322miliwn.

Gydag ychydig dros £1.2biliwn o rwymedigaethau presennol a rhwymedigaethau amodol, a balans Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ychydig dros chwarter y lefel hon, mae cyllidebau grant yn cael eu cyfyngu wrth i ni geisio cysoni cronfeydd wrth gefn, incwm a gwariant. Byddwn yn parhau i fonitro patrymau incwm a thaliadau grant i sicrhau y gallwn gynnal ein rhwymedigaethau yn y tymor canolig i'r hirdymor. Rhwng y siart uchod sy'n manylu ein balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ac sy'n dangos graddau'r gostyngiad, a chyngor annibynnol yn nodi y gallai incwm ostwng, arweiniwyd yr Ymddiriedolwyr i adolygu eu dull wrth wneud dyfarniadau rownd dau. Er ei bod wedi bod yn glir nad yw derbyn pas rownd un yn gwarantu dyfarniad rownd dau erioed, erbyn hyn mae pob prosiect yn destun adolygiad ansawdd llym ar gyfer yr ail rownd, a dim ond y prosiectau cryfaf gaiff eu cymeradwyo. Mae rhagamcanion llifoedd arian yn parhau i ddangos y bydd ein polisi diwygiedig yn arwain at ddychwelyd ein balans arian at lefel iachach.

Roedd gwerth ceisiadau grant 2018–19 2.2 gwaith yn fwy na'n hincwm (2017–18: 3.7 gwaith) a 3.7 gwaith ein cyllideb ddyfarnu (2017–18: 4 gwaith). Yn anffodus, mae hyn yn golygu y bu'n rhaid i ni siomi llawer o'n hymgeiswyr. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod ymdrechion ymgeiswyr wrth lunio ceisiadau ac yn cydymdeimlo ag ymgeiswyr aflwyddiannus. Fodd bynnag, rydym yn dibynnu'n llwyr ar arian a gynhyrchir gan y Loteri Genedlaethol ac, oni bai bod cynnydd sydyn a pharhaus mewn refeniw, bydd rhaid i benderfyniadau anodd barhau.

Cododd incwm buddsoddi i £1.6miliwn o £0.9miliwn yn y flwyddyn flaenorol. 0.67% oedd enillion ar fuddsoddi Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, a 0.35% ydoedd yn 2017–18. Y cynnydd yng nghyfraddau sylfaenol Banc Lloegr ym mis Gorffennaf 2018 o 0.5% i 0.75% fydd y prif reswm dros y gwelliant.

Elw gilt isel parhaus yw'r rheswm dros yr enillion incwm buddsoddi isel, gan fod Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn buddsoddi mewn ystod gul o fuddsoddiadau risg isel ac elw isel. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr ddylanwad ar y polisi buddsoddi, a osodir gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Derbyniwn 20% o'r enillion buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, waeth beth fo balans ein cronfeydd.

Nid yw'r ffaith fod ein balansau cyfartalog yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi gostwng yn ystod y flwyddyn yn golygu bod ein hincwm wedi gostwng gan gyfran debyg o reidrwydd. Gostyngodd balans ein cronfeydd yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol o £407miliwn i £338miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Er bod lefel ein dyfarniadau grant net ychydig yn is na'n hincwm, mae'n annhebygol y gellir priodoli llawer o'r gostyngiad yn y balans i hyn; mae'n cymryd nifer o flynyddoedd i'r rhan fwyaf o'n prosiectau dderbyn y taliad llawn, ac mae'r swm a delir ym mlwyddyn gyntaf dyfarniad yn gymharol fach fel arfer. Y prif reswm dros y gostyngiad mewn balans yw bod taliadau grant ar gyfer dyfarniadau a wnaed yn ystod blynyddoedd blaenorol lawer yn uwch na'n hincwm, ac yn parhau i fod yn agos at y lefel uchaf erioed. Mae ein cyllideb grant ar gyfer 2018–19 a 2019–20 lawer yn is na'r incwm rydym yn ei ddisgwyl, ond rydym yn dal i ragweld y bydd balans Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn gostwng ymhellach o ganlyniad i'r lefel uchel o ddyfarniadau a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol.

Gostyngodd lefel y rhwymedigaethau grant newydd a grëwyd yn sylweddol o £416miliwn i £332miliwn. Roeddem yn disgwyl y gostyngiad hwn gan fod ein cyllidebau dyfarnu grantiau'n gostwng, ond nid dyma'r unig ffactor yn lefel y dyfarniadau. Ar 31 Mawrth 2018, roedd gennym falans o £495miliwn o rwymedigaethau amodol (y'u gelwid yn y gorffennol yn basiau rownd un), ac er ein bod yn disgwyl iddynt ddychwelyd ymhen rhai blynyddoedd ar gyfer penderfyniad rownd dau, nid oes gennym reolaeth o ran pryd mae hyn yn digwydd. Felly gallwn, fel y gwnaethom yn 2018–19, fod â chyllideb grant o £190miliwn, ond dyfarnu £332miliwn mewn gwirionedd, gan fod y gyllideb yn rheoli lefel y prosiectau newydd rydym yn disgwyl eu cefnogi trwy basiau rownd un. Yr yr un modd, ein cyllideb grant ar gyfer y flwyddyn nesaf yw £225miliwn, ond mae'r ôl-groniad o £286miliwn o rwymedigaethau amodol yn golygu y bydd swm llawer yn uwch na £225miliwn yn debygol o ymddangos yn y cyfrifon ar gyfer 2019–20.

Gostyngodd balans y rhwymedigaethau grant yn sylweddol o £999miliwn i £936miliwn. Yn syml, roedd hyn oherwydd bod gwerth y dyfarniadau newydd net yn llai na gwerth y taliadau grant. Fodd bynnag, yn ogystal â hyn, cynyddodd gwerth y darpariaethau'n sylweddol. Rydym yn creu darpariaethau sy'n gostwng gwerth y rhwymedigaethau grant sy'n weddill mewn dwy sefyllfa: (1) pan rydym yn gwybod na fydd derbynnydd y grant bellach yn ceisio eu grant neu ran ohoni; a (2) ar ôl cyfnod hir o dawelwch gan dderbynnydd y grant, a all awgrymu bod y prosiect wedi dod i ben. Yn amlwg nid yw hyn yn ddull union gywir, ond mae'n ymgais i sicrhau bod y rhwymedigaeth grant a adroddir yn agosach i'r swm tebygol y byddwn ni'n ei dalu yn y pen draw.


Gostyngodd lefel y rhwymedigaethau amodol (pasiau rownd un) a roddir i ymgeiswyr pan fyddwn yn aros am benderfyniad ar yr ail rownd yn sylweddol, o £495miliwn i £286miliwn. Nid oedd hyn yn syndod o ystyried bod ein cyllideb rownd un wedi cael ei thorri o £300miliwn i £190miliwn o ganlyniad i ostyngiad mewn incwm a newid i'r polisi ar or-ymrwymo. Cafodd oddeutu £263miliwn o basiau rownd un benderfyniadau ail rownd yn 2018–19, a dad-ymrwymwyd £69miliwn arall (un ai wedi'u tynnu'n ôl gan yr ymgeisydd, neu wedi'u gwrthod gan yr Ymddiriedolwyr). Ar yr un pryd, dim ond £123miliwn o basiau rownd un newydd a grëwyd, sy'n esbonio'r gostyngiad sylweddol yng ngwerth y rhwymedigaethau amodol.

O ystyried yr holl rwymedigaethau gwirioneddol ac amodol, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roeddem wedi ymrwymo dros £0.9biliwn, cyn y darpariaethau, (ar 31 Mawrth 2018: £1.09biliwn) yn fwy nag oedd gennym yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae'r lefel hon o rwymedigaethau a rhwymedigaethau amodol yn golygu bod gennym ymrwymiadau sy'n cyfateb i 3.8 blynedd o incwm (ar 31 Mawrth 2018: 4.6 blynedd). Roedd balans y rhwymedigaethau cytundebol yn sylweddol fwy na'n hasedau net, ac yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol roedd diffyg net o £593miliwn ar 31 Mawrth 2019.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod monitro llifoedd arian hirdymor yn bwysig iawn oherwydd gall y prosiectau y rhoddwn grantiau iddynt gymryd blynyddoedd lawer i'w cwblhau. Nid yw ein cyllid gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi'i warantu ac nid oes sicrwydd ynglŷn â faint o arian y bydd y Loteri Genedlaethol yn ei gynhyrchu i ni. Felly, mae'r Ymddiriedolwyr wedi llunio cymarebau canllaw ar gyfer lefel yr ymrwymiadau sy'n weddill, arian parod ac incwm disgwyliedig. Yn sgil y gostyngiad sydyn anrhagweladwy mewn incwm yn 2016–17 rhoddwyd rhagor o bwyslais ar y cymarebau hyn yn ein prosesau cynllunio ac, er bod y gostyngiad wedi sefydlogi yn 2017–18 ac yn 2018–19, gwelodd yr Ymddiriedolwyr fod modelu annibynnol a gomisiynwyd gan y Comisiwn Hapchwarae yn awgrymu y gallai lefelau incwm ostwng ymhellach (gweler y tabl isod).

| Cymhareb | Amrediad targed | **ar 31 Mawrth 2019** | ar 31 Mawrth 2018 | ar 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm ymrwymiadau i incwm | Uchafswm yn yr ystod 4.4:1 to 4.6:1 | **3.8:1** | 4.6:1 | 5.2:1 |
| Ymrwymiadau net i incwm (hynny yw cyfanswm yr ymrwymiadau llai arian parod) | Uchafswm yn yr ystod 3.0:1 to 3.2:1 | **2.8:1** | 3.3:1 | 3.7:1 |
| Ymrwymiadau caled i arian parod | Uchafswm yn yr ystod 2.3:1 to 2.5:1 | **2.8:1** | 2.5:1 | 2.1:1 |
| Arian parod yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | Yn yr ystod £400miliwn to £500miliwn | **£338miliwn** | £407miliwn | £497miliwn |

## Prosiectau sy'n cael eu monitro yn ôl blwyddyn (nifer)




Caiff y cymarebau eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn aros yn berthnasol i'n ffordd o weithio a'r amgylchedd allanol. O ganlyniad, rydym wedi diwygio'r gymhareb ar falans targed Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Cyn hynny, roedd yn ystod eithaf cul o £500miliwn i £525miliwn; ond erbyn hyn mae'n £400miliwn i £500miliwn. Gweler y tabl cymarebau ar dudalen 10.

Ar y cyfan, cododd ein costau gweithredu 10% yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i fuddsoddi yng ngweithredu'r Strategaeth Gorfforaethol. Roeddem yn disgwyl y cynnydd, ac roeddem wedi'i ymgorffori i'n cyllideb weithredu ar gyfer 2018–19. O ganlyniad i'n Strategaeth Gorfforaethol, a gyflwynwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roeddem yn gwybod bod angen i ni gynnal gwaith ailstrwythuro sylfaenol i'r sefydliad er mwyn cyflawni'r addewidion a nodwyd yn y strategaeth (a elwir yn 'trawsnewid busnes'). Roedd yn anochel y byddai'r ailstrwythuro, ynghyd â newidiadau cysylltiedig i'n hystadau a'n technoleg gwybodaeth, yn arwain at gynnydd tymor byr yn ein costau. Fodd bynnag, rydym o'r farn nad yw ein sail costau sylfaenol wedi cynyddu o gymharu â 2017–18.

Cododd costau staff 6% wrth i niferoedd cyfartalog y staff gynyddu rhywfaint i ymdrin â'n prosiectau trawsnewid busnes. Yn ogystal, manteisiodd rhai aelodau o staff ar gynllun ymadael gwirfoddol o ganlyniad i'r gwaith trawsnewid, ac roedd cynnydd mawr yn ein darpariaeth tâl gwyliau, sy'n debygol o fod o ganlyniad i'r Pasg hwyrach eleni.

Cynyddodd costau gweithredu eraill 20% am y rhesymau a nodir uchod. Er i ni wario £23.9miliwn ar ein costau gweinyddol ar gyfer dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol, credwn fod y sefydliad yn parhau i fod yn ddosbarthwr effeithlon iawn o arian y Loteri Genedlaethol. Dangosir y dystiolaeth yn y siart 'Costau gweithredu gwirioneddol o gymharu â chostau chwyddedig 2003–04 yn ôl blwyddyn' a'r ffaith ein bod yn cyrraedd y targedau effeithlonrwydd a osodwyd gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon er gwaethaf y gostyngiad sydyn mewn incwm rai blynyddoedd yn ôl.

Mae nifer y prosiectau sy'n cael eu monitro (prosiectau heb eu cwblhau sydd wedi cael dyfarniadau) wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar; er bod y nifer honno wedi gostwng ychydig yn 2017–18 yn dilyn ymarferiad helaeth i amlygu prosiectau a oedd wedi dod i ben a hynny heb ei gofnodi ar ein system. Mae sicrhau bod prosiectau'n datblygu'n llwyddiannus yn dasg fawr sy'n gofyn am lawer o adnoddau o ran staff a phenodi mentoriaid a staff monitro i oruchwylio'r gwaith a wneir ac i roi gwybod i ni am unrhyw broblemau. Mae hyn yn helpu i esbonio lefel ein costau gweinyddu yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae ein costau gweithredu yn elwa hefyd o ddau gyfraniad gan gyrff y llywodraeth ganolog:

- Gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol tuag at gost cynnal rhaglen Parciau i Bobl, y mae'n cyfrannu rhywfaint o gyllid grant ati. Gostyngodd ei chyfraniad o £272,000 i £220,000 gan fod y rhaglen ar y cyd wedi stopio gwneud pasiau rownd un yn 2017–18.
- Gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd tuag at gost defnyddio rhan o lawr cyntaf ein swyddfa yn Llundain. Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd wedi bod yno ers mis Mai 2011 ac mae'n gwneud ei gyfraniad drwy rent a thaliadau gwasanaeth. Yn ystod 2018–19, codwyd £111,000 arno (2017–18 £122,000).

Yn ystod 2018–19, roedd ein costau gweithredu fel cyfran o'n hincwm fel a ganlyn:

| | Targed | **Gwirioneddol 2018–19** | Gwirioneddol 2017–18 | Gwirioneddol 2016–17 | Gwirioneddol 2015–16 | Gwirioneddol 2014–15 | Gwirioneddol 2013–14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant gweithredu fel cyfran o gyfanswm incwm | **8%** | **6.9%** | 6.6% | 6.9% | 5.2% | 5.1% | 5.7% |


Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod na ddylai gweithredu'n effeithlon fel dosbarthwr arian y Loteri fod ar draul y gwasanaeth a ddarperir i'n cwsmeriaid. Er gwaethaf y cynnydd sylweddol mewn ceisiadau a dyfarniadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, maent yn falch o adrodd ein bod yn parhau i fodloni ein targedau lefel gwasanaeth ar gyfer ymgeiswyr a derbynyddion grant. Mae rhagor o wybodaeth am ein targedau lefel gwasanaeth ar gael ar dudalen 7.

**Dangosyddion perfformiad allweddol**

Mae gan CGDG enw da fel corff sy'n dosbarthu arian y Loteri'n effeithlon. Mae'r llinell ddu ar y siart isod yn nodi ein costau gweithredu ym mhob un o'r blynyddoedd diwethaf. Mae'r llinell lwyd yn dangos gwerth y costau gweithredu yn y flwyddyn y crëwyd ein strwythur gweithredu presennol (2003–04), a'u cynnydd yn unol â datchwyddydd cynnyrch mewnwladol crynswth y Trysorlys – amcangyfrif o lefel gyffredinol chwyddiant yn economi gwledydd Prydain. Mae ein costau wedi cynyddu 10% am y rhesymau a nodir uchod. Er hyn, mae'r Ymddiriedolwyr yn nodi bod costau gweithredu o £23.9miliwn yn golygu bod costau gweithredu 2018–19 £6.3miliwn (neu 21%) yn is na chwyddiant ers 2003–04, sy'n cynrychioli gostyngiad sylweddol mewn termau go iawn o ran costau gweithredu, ac yn rhyddhau cyllid ychwanegol ar gyfer grantiau. Pe bai'r Mynegai Prisiau Manwerthu yn cael ei ddefnyddio, yn hytrach na'r datchwyddydd cynnyrch mewnwladol crynswth, byddai'r costau £10.8miliwn (neu 45%) yn uwch nag yr oeddent mewn gwirionedd (neu pe bai'r Mynegai Prisiau Manwerthu yn cael ei ddefnyddio, byddai ein costau £7.7miliwn yn uwch).

Mae'r Ymddiriedolwyr yn falch o nodi bod targedau'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn parhau i gael eu bodloni. Roedd gan yr Adran ddau darged yn flaenorol, ond maent wedi cael gwared ag un yn ymwneud â chost prosesu ceisiadau Loteri ar ddiwedd 2017–18. Newidiodd yr Adran y dull o gyfrifo'r targed sy'n weddill hefyd, fel bod llai o amrywiant a achosir gan symudiadau mewn lefelau incwm yn y canlyniadau – bellach gall adrodd gynnwys incwm cyfartalog dros dair blynedd ac eithrio TAW o gostau gweinyddol, ynghyd ag eitemau eithriadol. Ar gyfer 2018–19, rydym wedi eithrio costau eithriadol, un tro, nad oeddent yn gylchol. Caniateir hyn o dan y cytundeb gyda'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch cynhyrchu'r swm hwn.

## Costau gweithredu gwirioneddol o gymharu â chostau chwyddedig 2003–04 yn ôl blwyddyn




| | 2009–10 | 2010–11 | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 | **2018–19** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau – gwirioneddol (£m) | **19.4** | **17.6** | **17.4** | **18.7** | **19.2** | **19.8** | **20.3** | **22.5** | **21.7** | **23.9** |
| Costau – chwyddedig Costau 2003–04 (£m) | **26.0** | **26.5** | **26.8** | **27.3** | **27.8** | **28.2** | **28.4** | **29.1** | **29.7** | **30.2** |

### Symiau sy'n daladwy

Mae CGDG yn cydymffurfio â'r safon lywodraeth-gyfan ar dalu biliau a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, sy'n datgan y dylai pob bil dilys gael ei dalu o fewn 30 diwrnod. Yn 2018–19, oed cyfartalog yr anfonebau a dalwyd oedd chwe diwrnod gwaith (2017–18: pum diwrnod gwaith). Talwyd dros 96% o anfonebau ymhen 30 diwrnod calendr (2017–18: 96%).

Ffordd arall o fesur ein hymrwymiad i dalu cyflenwyr yw'r gymhareb diwrnodau credydwyr – sef cymhareb y symiau masnach sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm gwerth pryniannau yn ystod y flwyddyn wedi'i mynegi yn nhermau diwrnodau calendr. Ar 31 Mawrth 2019, y ffigur oedd 35 diwrnod (2017–18: 30 diwrnod). Mae'r ffigur lawer yn uwch ar ddiwedd y flwyddyn nag ar adegau eraill o'r flwyddyn oherwydd ein bod yn annog cyflenwyr i gyflwyno eu hanfonebau cyn i'r flwyddyn ddod i ben.

### Polisïau amgylcheddol ac adrodd ar gynaliadwyedd

Mae Trysorlys EM yn ei gwneud yn ofynnol i holl gyrff y sector cyhoeddus gynhyrchu adroddiad blynyddol ar gynaliadwyedd. Yn anffodus, nid yw'r broses o grynhoi'r data hwn yn un fanwl gywir. Er enghraifft, ychydig iawn o landlordiaid ein 10 swyddfa ranbarthol a gwlad sy'n barod i ddarparu ffigurau i ni ar gyfer oriau cilowat o nwy a thrydan a ddefnyddiwyd, ac nid ydynt chwaith yn gallu bilio'n ddigon cyflym ar ddiwedd y flwyddyn i ddarparu ffigurau mewn pryd ar gyfer cynhyrchu'r cyfrifon diwedd blwyddyn hyn. At hynny, ein polisi presennol yw dod â'n deiliadaethau eiddo prydles i ben, a newid i swyddfeydd byr dymor a wasanaethir. Bydd hyn yn caniatáu i ni fod yn fwy hyblyg, gan y bydd modd i ni agor swyddfeydd bach mewn mwy o lefydd, gan ddod â ni'n agosach at gwsmeriaid treftadaeth. Fodd bynnag, nid yw'n ymarferol nac yn briodol i weithredwyr swyddfeydd a wasanaethir ddyrannu defnydd ynni i'w cwsmeriaid ar sail na ellir ei gefnogi. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni ddefnyddio amcangyfrifon ar gyfer y rhan fwyaf o swyddfeydd.

Mae'r ail dabl (ar dudalen 14) yn dangos data ar sail cyfwerth ag amser llawn, hynny yw lefel y defnydd fesul aelod o staff. Fodd bynnag, gan ein bod hefyd yn cynnwys allyriadau a gynhyrchir gan bobl nad ydynt yn aelodau staff, e.e. Ymddiriedolwyr, aelodau pwyllgor a rhai cyflenwyr, mae'n anodd cymharu rhai o'r niferoedd hyn dros y blynyddoedd, a gyda sefydliadau eraill. Yn olaf, mae'r ffactorau trosi a ddefnyddir i gyfrifo faint o garbon deuocsid a gynhyrchir gan ein hallyriadau yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn aml.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn gweld llawer o werth mewn dyrannu adroddiadau cynaliadwyedd rhwng eu gweithgareddau cymorth grant a'u gweithgareddau yn dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol. O ganlyniad, mae'r wybodaeth isod yn cwmpasu holl weithgareddau CGDG.

### Crynodeb o berfformiad

Mae ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng ychydig yn 2018–19 ar sail gros a hefyd wrth ystyried y niferoedd ar sail cyfwerth ag amser llawn.

Dim ond un o'r adeiladau a ddefnyddir y mae gan CGDG reolaeth drosto, sef ei bencadlys yn Holbein Place yn Llundain. Yn 2010–11, gosodom oeryddion newydd ar gyfer y system aerdymheru a boeleri newydd ar gyfer gwresogi yn lle'r boeleri nwy 25 mlwydd oed, yn ogystal â gosod goleuadau a reolir gan synwyryddion sy'n sensitif i symudiadau a golau dydd. Ar ôl gwneud gwaith ailosod mor fawr, nid oes llawer o le i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ymhellach yn yr unig swyddfa rydym yn ei rheoli. Yn benodol, ni fyddem yn ystyried unrhyw wariant sylweddol ar gyfer buddion hirdymor tan i ni adnewyddu ein prydles yn Holbein Place, oedd ag adolygiad rhent wedi'i drefnu ar gyfer hydref 2019. Fel y mae'n sefyll, rydym wedi cyflwyno rhybudd, a byddwn yn symud i swyddfeydd llawer yn llai yn ystod haf 2019

Yn y deg adeilad arall rydym yn ddeiliaid ynddynt, rydym yn gwbl ddibynnol ar y landlord (neu ddarparwr swyddfeydd a wasanaethir) i wella perfformiad, ac mae hynny'n annhebygol o ddigwydd rhwng gwaith ailwampio sylweddol. Mae'r cyfle i wella ymhellach o ran allyriadau cwmpas un a dau yn eithriadol o gyfyngedig felly. Dros y blynyddoedd, rydym wedi adleoli rhai o'n swyddfeydd gwlad a rhanbarthol i adeiladau llai neu swyddfeydd a wasanaethir, a bydd hynny wedi lleihau ein defnydd o ynni – mae tri symudiad o'r fath wedi digwydd yn 2018–19, a gallai hyn fod yn rhan o'r rheswm dros y cwymp mewn allyriadau.

Ers mis Mai 2011, rydym hefyd wedi gosod rhan o un llawr yn Holbein Place ar rent, gan ostwng y lefelau defnydd a gaiff eu hadrodd. Serch hynny, lleihawyd y gofod a osodwyd ar rent yn 2016–17.

Fel rhan o'n rhaglen trawsnewid busnes, rydym yn dechrau ar newidiadau a ddylai arwain at ostyngiadau pellach mewn allyriadau carbon. Mae'r rhain yn

### Adrodd ar gynaliadwyedd

| Maes | | 2018–19 | 2017–18 | 2016–17 | 2015–16 | 2014–15 | 2013–14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr – cwmpasau 1, 2 a 3 sy'n cynnwys teithio busnes gan gynnwys teithio rheilffordd/awyr rhyngwladol (cyfwerth â thunelli $CO_2$) | | **365** | 410 | 417 | 635 | 591 | 489 |
| Ynni'r ystad | – defnydd (mkWh) | **1.1** | 0.9 | 0.7 | 1.1 | 1.1 | 0.9 |
| | – gwariant (£) | **476,020** | 437,986 | 486,315 | 488,361 | 429,425 | 445,624 |
| Gwastraff yr ystad | – swm (tunelli) | **23** | 26 | 23 | 28 | 26 | 28 |
| | – gwariant (£) | **24,421** | 25,908 | 19,115 | 13,268 | 14,095 | 12,400 |
| Dŵr yr ystad | – defnydd ($m^3$) | **3,455** | 3,927 | 4,040 | 4,350 | 4,889 | 5,655 |
| | – gwariant (£) | **5,787** | 10,703 | 12,089 | 7,413 | 11,825 | 14,182 |

### Adrodd ar gynaliadwyedd wedi'i normaleiddio gan staff cyfwerth ag amser llawn cyfartalog a gyflogwyd yn ystod y cyfnod

| Maes fesul cyfwerth ag amser llawn | | 2018–19 | 2017–18 | 2016–17 | 2015–16 | 2014–15 | 2013–14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr – cwmpasau 1, 2 a 3 sy'n cynnwys teithio busnes gan gynnwys teithio rheilffordd/awyr rhyngwladol (cyfwerth â thunelli $CO_2$) | | **1.2** | 1.4 | 1.4 | 2.3 | 2.3 | 1.9 |
| Ynni'r ystad | – defnydd (kWh) | **3,530** | 2,899 | 2,524 | 4,105 | 4,134 | 3,595 |
| | – gwariant (£) | **1,581** | 1,470 | 1,648 | 1,744 | 1,639 | 1,716 |
| Gwastraff yr ystad | – swm (tunelli) | **0.1** | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| | – gwariant (£) | **5** | 87 | 65 | 47 | 54 | 48 |
| Dŵr yr ystad | – defnydd ($m^3$) | **11** | 13 | 13 | 16 | 19 | 22 |
| | – gwariant (£) | **19** | 36 | 41 | 26 | 45 | 55 |

cynnwys newidiadau i'n polisïau gweithio o adref; desgiau poeth, lle ceir llai o ddesgiau na staff, sy'n caniatáu i ni ddefnyddio swyddfeydd llai; a symud i bolisi 'swyddfeydd rhwydwaith' ar gyfer swyddfeydd, sy'n golygu y gall staff fyw'n agosach i'w cwsmeriaid, gan gyfyngu ar yr angen i deithio.

**Allyriadau nwyon tŷ gwydr**

Nwy a ddefnyddir mewn boeleri a weithredir gan CGDG ac allyriadau a gynhyrchir drwy ein defnydd o systemau aerdymheru yn ein pencadlys yn Llundain yw ein hallyriadau ynni uniongyrchol. Mae gwybodaeth am ddefnydd o nwy mewn oriau cilowat yn deillio o anfonebau ein cyflenwyr. Caiff oriau cilowat eu trosi'n dunelli metrig o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio ffactor trosi sy'n deillio o dablau Ffactorau Trosi Nwyon Tŷ Gwydr Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Adroddiadau Cwmnïau.

Mae'r tablau hyn ar gael trwy www.gov.uk/government/collections/government- conversion-factors-for-company-reporting. Cyhoeddwyd y ffactorau diweddaraf sydd ar gael ym mis Mehefin 2018.

Trydan a gynhyrchwyd gan sefydliadau eraill ac a werthwyd yn uniongyrchol i ni, ynghyd â gwres a brynwn gan landlordiaid i'n swyddfeydd gwledig a rhanbarthol yw ein hallyriadau ynni anuniongyrchol.

Ceir gwybodaeth am ddefnydd mewn oriau cilowat gan ein landlordiaid lle bo'n bosib, ond gall eu methodoleg amrywio. Caiff oriau cilowat eu trosi'n dunelli metrig o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio'r ffactor trosi perthnasol. Rydym yn dibynnu'n fawr ar ein landlordiaid i wella effeithlonrwydd.

Gwneir y rhan fwyaf o'n teithio ar y rheilffordd, ac mae ein prif gyflenwr tocynnau yn rhoi manylion i ni am allyriadau'r carbon deuocsid cyfwerth ar gyfer yr holl deithiau a wnaed. Yn yr un modd, mae ein prif gyflenwr llogi ceir yn rhoi data i ni am yr allyriadau hyn. Mae'n ofynnol i'r staff ddiweddaru taenlenni adrannau â gwybodaeth am yr holl deithiau eraill a wneir gan staff, Ymddiriedolwyr, aelodau pwyllgor, aelodau panel arbenigol a chyflenwyr ar ein Cofrestr o Wasanaethau Cymorth (sef y staff monitro a'r mentoriaid rydym yn eu penodi i oruchwylio prosiectau rydym yn eu hariannu ar y cyd). Mae'n ofynnol i benaethiaid adrannau sicrhau bod eu staff yn cofnodi manylion eu holl deithiau. Caiff y wybodaeth a gesglir ei throsi'n dunelli metrig o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio rhannau perthnasol yr un tablau o ffactorau trosi.

## Gwastraff

Mae'r gwastraff a gynhyrchir wedi aros yn sefydlog yn 2018–19, ond rydym yn disgwyl y bydd y ffigur yn cynyddu yn 2019–20 am ddau reswm. Byddwn yn symud ein prif swyddfa, ac mae'n anochel y bydd hyn yn arwain at gael gwared â dodrefn, offer a'r casgliad cyffredinol o eiddo sydd wedi cronni dros y blynyddoedd, gan fod y swyddfa newydd lawer yn llai, a bydd llawer llai o le storio yno. Yn ail, bu i ni gau ein prif gyfleuster storio oddi ar y safle ar ddiwedd 2017–18. Wedi hynny, dechreuom ar broses o ddigideiddio ein cofnodion, a fydd yn caniatáu i ni ddinistrio llawer o'r cofnodion copi caled a grëwyd ers i ni ddechrau dosbarthu cyllid y Loteri Genedlaethol. Mae'r prosiect hwn yn dal i fynd rhagddo, ac felly mae'n fwy na thebyg y bydd y gwastraff yn cael ei greu yn 2019–20.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus ynglŷn â chywirdeb y niferoedd cyffredinol oherwydd, fel y trafodir isod, nid oes ffordd ddibynadwy o fesur y gwastraff a gynhyrchir gennym gan fod cynghorau'n mynd â'r gwastraff ac ni fyddai'n ddefnydd dilys o adnoddau i gaffael offer pwyso yn unswydd er mwyn gwella ein dull o adrodd am y ffigur hwn. Byddwn yn parhau i geisio ateb ymarferol i gyfrifo ffigur dibynadwy.

Nid yw CGDG yn cynhyrchu unrhyw wastraff peryglus. Nid oes modd dadansoddi ymhellach yr hyn a ddigwyddodd i'r gwastraff a gynhyrchwyd gennym. Caiff yr holl wastraff nad yw'n cael ei ailgylchu ei gasglu gan gynghorau sy'n lleol i'r swyddfeydd y gweithredwn ynddynt. Nid ydym yn gwybod beth maent yn ei wneud â'r gwastraff hwnnw, ond rydym wedi llunio rhagdybiaethau ynglŷn â ble bydd y gwastraff yn mynd er mwyn cynhyrchu'r ffigurau ar dudalen 14. Dim ond Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea sy'n ein hanfonebu ar wahân, ond rydym hefyd yn cynnwys cost gwaredu papur wedi'i rwygo yn ddiogel yn y ffigurau. Ceisiwn leihau faint o bapur rydym yn ei ddefnyddio ac, yn anochel, yn ei daflu, ac mae'r gyllideb lungopïo ar gyfer 2018–19 wedi lleihau'n sylweddol gan ein bod wedi annog staff yn dawel i leihau eu defnydd. Gwnaed hyn drwy leihau nifer y peiriannau argraffu, a gofyn i staff fewngofnodi ar y peiriannau er mwyn argraffu. Newidiom y cyflenwr hefyd, ac rydym nawr yn ymdrin yn uniongyrchol â'r gweithgynhyrchwr, yn hytrach na thrwy asiantaeth.

Mae ein swyddfeydd rhanbarthol a gwlad yn ddigon bach i bwyso'r gwastraff maent yn ei greu. Nid oes ffordd ddibynadwy o fesur y gwastraff llawer mwy a gesglir gan Fwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea gan nad yw'r cyngor yn dweud wrthym beth yw pwysau'r hyn maent yn ei gasglu.

Rydym felly wedi amcangyfrif maint y gwastraff a gynhyrchir fesul unigolyn ar sail amcangyfrif o bwysau sach safonol o wastraff.

## Defnydd o adnoddau

Gostyngodd y defnydd o ddŵr yn 2018–19. Lle bo'n bosib, rydym yn perswadio ein landlordiaid i ddarparu gwybodaeth am nifer y metrau ciwbig o ddŵr a ddefnyddir, sydd fel arfer yn seiliedig ar y gofod sydd gennym, yn hytrach na thrwy fesuryddion unigol. Yn 2015–16, gosodom gyfleusterau tŷ bach mwy effeithlon yn ein pencadlys. Rydym hefyd wedi llofnodi contract pris sefydlog ar gyfer y cyflenwad dŵr yn ein prif swyddfa. Mae hyn wedi arwain at daliad llawer yn is, ond o ganlyniad i hyn, nid yw'r cyflenwr yn rhoi manylion ynghylch yr union ddefnydd i ni mwyach.

Mae'r defnydd o drydan wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan fod cainc ychwanegol ar gyfer pweru capasiti gweinydd cyfrifiaduron. Llofnodom gontractau i gapio costau nwy a thrydan ein prif swyddfa ar gyfer 2018–19 a'r tu hwnt. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni dderbyn bod gan y tywydd fwy o ddylanwad dros ein defnydd nag unrhyw welliannau y gallwn ni eu gwneud i'n heffeithlonrwydd ynni.

**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

8 Gorffennaf 2019

# Adroddiad atebolrwydd

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Diben yr adroddiad llywodraethu corfforaethol hwn yw egluro cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu CGDG a sut maen nhw'n helpu i gyflawni ein hamcanion.

## Adroddiad y cyfarwyddwyr

**Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr CGDG**

**Cadeirydd**
Syr Peter Luff [2]

**Ymddiriedolwyr**
Maria Adebowale-Schwarte [1]
o 16 Mai 2018 ymlaen

Y Farwnes Kay Andrews OBE

Anna Carragher

Syr Neil Cossons [1] OBE
hyd at 31 Ionawr 2019

Dr Angela Dean [1]
hyd at 12 Mehefin 2018

Jim Dixon

Dr Claire Feehily [1]

Sarah Flannigan [2]
o 16 Mai 2018 ymlaen

Perdita Hunt [2] DL, OBE

Steve Miller [1]

Richard Morris OBE
hyd at 16 Mai 2018

René Olivieri [2]

Atul Patel [2] MBE
hyd at 16 Mai 2018

Y Fonesig Seona Reid DBE

David Stocker
o 16 Mai 2018 ymlaen

Dr Tom Tew

**Prif Weithredwr**
Ros Kerslake [2] OBE

1 Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg

2 Aelod o'r Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau (sydd hefyd yn cynnwys tâl)

Gellir gweld manylion uwch reolwyr eraill yn yr adroddiad tâl a staff ar dudalen 29.

Roedd y rhaniad rhwng y rhywiau ymhlith ein staff (gan gynnwys y rhai ar gontractau tymor penodedig) a oedd yn gweithio ar weithgareddau cysylltiedig â'r Loteri a'n Hymddiriedolwyr ar 31 Mawrth 2019, ar sail cyfrif pennau, fel a ganlyn:

| | Dynion | Menywod | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr | 1 | 2 | **3** |
| Staff | 71 | 197 | **268** |
| Ymddiriedolwyr | 6 | 7 | **13** |

### Cofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r Ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau gwlad a rhanbarthol yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â CGDG ac yn eithrio eu hunain o brosesau arfarnu, trafod a phenderfynu ar grantiau perthnasol CGDG. Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr grant, mae'r Ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau o ymwneud neu ddylanwadau a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel un o Ymddiriedolwyr CGDG. Mae trefniadau cyfatebol i staff adrodd am fuddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posib. Mae Cofrestr Buddiannau'r Ymddiriedolwyr ar gael ar wefan Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – www.heritagefund.org.uk/cy.

### Datblygiadau yn y dyfodol

Ar 30 Ionawr 2019, lansiwyd ein Fframwaith Ariannu Strategol newydd gyda digwyddiad yn y Llyfrgell Brydeinig a chyfres o ddigwyddiadau lansio i ddilyn yng Nghaerdydd, Caeredin, Belfast a lleoliadau ledled Lloegr. Mae'r Fframwaith Ariannu Strategol hwn ar gyfer 2019–2024 yn gosod ein gweledigaeth a'r egwyddorion fydd yn llywio ein gwaith yn buddsoddi Loteri Genedlaethol yn ystod y pum mlynedd nesaf. Fframwaith uchelgeisiol ydyw, yn hytrach na chynllun llym: rydym yn cyflwyno cyfarwyddiadau strategol a ffyrdd newydd o weithio i gefnogi a chryfhau treftadaeth gwledydd Prydain drwy gyfnodau ansicr, a bydd yn ymateb yn hyblyg i newidiadau a chyfleoedd fel y maent yn codi.

Yn ein hymgynghoriadau, gwelwyd cefnogaeth gref gan chwaraewyr, cwsmeriaid a rhanddeiliaid y Loteri Genedlaethol i'n hegwyddorion sefydledig o gefnogi'r ystod lawn o dreftadaeth ledled gwledydd Prydain, ac o sicrhau y caiff treftadaeth ei mwynhau gan yr ystod fwyaf eang bosib o bobl. Byddwn yn parhau â'r cyfeiriad pellgyrhaeddol hwn sydd, ers 1994, wedi galluogi miloedd lawer o brosiectau treftadaeth llwyddiannus i gyflawni canlyniadau anhygoel, gan drawsnewid cymunedau ledled gwledydd Prydain.

Yn amodol ar berfformiad y Loteri Genedlaethol, dros y pum mlynedd nesaf, rydym yn disgwyl buddsoddi oddeutu £1.2biliwn yn nhreftadaeth gwledydd Prydain.

Ein huchelgais ar gyfer yr arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yw ysbrydoli, arwain a darparu adnoddau i dreftadaeth gwledydd Prydain, er mwyn creu newid cadarnhaol a pharhaus i bobl a chymunedau. Byddwn yn hyrwyddo'r budd anferthol mae treftadaeth yn ei ddarparu i'r gymdeithas, gan ddefnyddio ein tystiolaeth a'n profiad i fod yn eiriolwr cryf gyda llywodraethau cenedlaethol a lleol ac asiantaethau eraill. Byddwn yn cefnogi capasiti a gwytnwch y sector treftadaeth cyfan, ac yn annog arloesedd a chydweithio, gan gynnwys gweithio ar draws sectorau gydag ystod ehangach o bartneriaid. Rydym wedi gosod chwech amcan i'n hunain, er mwyn cyfleu effaith buddsoddiad y Loteri Genedlaethol ym maes treftadaeth hyd at 2024, a byddwn yn mesur ein cynnydd yn erbyn y rhain yn rheolaidd.

Drwy fuddsoddi cyfran, fach i ddechrau, o'n hincwm mewn buddsoddiadau cymdeithasol, er enghraifft trwy fenthyciadau a chronfeydd effaith, byddwn yn ailgylchu rhywfaint o'n cyllid ac yn cynyddu ein heffaith, ynghyd ag adeiladu capasiti mewn sefydliadau i fanteisio ar gyllid ad-daladwy, a throsoli buddsoddiad ychwanegol i dyfu'r 'pot' cyffredinol sydd ar gael ar gyfer treftadaeth.

Wedi'n hannog gan argymhellion yr Adolygiad wedi'i Deilwra diweddar, byddwn yn ehangu ein gweithgarwch mewn meysydd eraill. Byddwn yn cefnogi sefydliadau treftadaeth i ymgysylltu'n rhyngwladol ac i elwa ar gyfnewid gwybodaeth a sgiliau. Byddwn yn adeiladu gallu digidol yn y sector ac yn ein sefydliad a'n staff ein hunain, gan gynnwys rhannu ein data yn agored. Byddwn yn buddsoddi'n rhagweithiol mewn cyfleoedd strategol eraill, megis dulliau deinamig o gasglu, a dulliau mentrus o adfywio treftadaeth sydd mewn perygl, trwy ymgyrchoedd achlysurol yn lleol, yn genedlaethol neu ledled gwledydd Prydain, a chronfeydd arloesedd a phartneriaeth.

Er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf posib yn ein cyllid, bydd gennym bortffolio rhoi grantiau a fydd wedi'i symleiddio'n ddirfawr, gan ddarparu mwyafrif helaeth ein cyllid drwy Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, rhaglen agored ar gyfer unrhyw fath o brosiect treftadaeth o £3000 i £5miliwn. Rydym wedi symleiddio ein prosesau a'n gofynion ymgeisio, gan gynnwys cyflwyno grantiau un rownd o hyd at £250,000. Bydd ein cwsmeriaid yn gweld gwelliannau i'n prosesau ar-lein yn syth, gyda newidiadau mwy sylweddol i ddilyn o 2020 ymlaen wrth i ni foderneiddio ein systemau rhoi grant digidol er mwyn gwneud y profiad o weithio gyda ni mor effeithlon a syml â phosib.

Rydym eisoes wedi'n datganoli'n helaeth o ran grymoedd dyfarnu grantiau, gyda phenderfyniadau lleol ar gyfer grantiau o hyd at £2filiwn. Rydym yn gryf o'r farn y dylai'r penderfyniadau buddsoddi hyn gael eu gwneud gan bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardaloedd a'r cymunedau sy'n elwa, sy'n deall gwahanol anghenion strategol a chymeriad unigryw'r dreftadaeth ym mhedair gwlad Prydain. Am y tro cyntaf, byddwn yn dirprwyo pob penderfyniad ariannu hyd at £5miliwn i bwyllgorau yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, a thair ardal ddaearyddol yn Lloegr – Gogledd Lloegr, Canolbarth a Dwyrain Lloegr, a Llundain a De Lloegr. Bydd hyn yn werth oddeutu 80% o'n cyllideb flynyddol.

Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth sylweddol i ymgeiswyr, gydag ystod eang o adnoddau digidol hygyrch a defnyddiol. Byddwn yn darparu cymorth wedi'i dargedu i grwpiau o ymgeiswyr blaenoriaeth sydd wedi'u tangynrychioli yn ein cyllid, er mwyn eu cefnogi i gyflawni eu dyheadau. Drwy fuddsoddi mewn technoleg, bydd modd i ni weithio'n fwy lleol gyda chymunedau, gyda rhwydwaith ehangach o swyddfeydd a lleoliadau staff ledled Prydain yn cefnogi ein strwythur llywodraethu datganoledig.

Mae llwyddiant y Loteri Genedlaethol yn hanfodol er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ledled gwledydd Prydain. Mae ein henw a'n brand newydd yn defnyddio logo adnabyddus y Loteri Genedlaethol, sef y bysedd wedi'u croesi, er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng chwarae a'r achos da treftadol, ac i godi ymwybyddiaeth o'r effaith sylweddol ar dreftadaeth a chymunedau y mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn ei ddarparu. Mae pawb yn elwa ar Loteri Genedlaethol ffyniannus, ac roedd chwaraewyr y Loteri Genedlaethol y cysylltom â nhw yn eiriolwyr brwdfrydig ar gyfer hyrwyddo'r newyddion da hwn yn fwy clir.

Yn 2019–20, byddwn yn dechrau cyflwyno'r Fframwaith drwy lansio'r rhaglen agored, cyflwyno ein hymgyrchoedd cyntaf ar sgiliau digidol a gwytnwch y sector ac adeiladu capasiti, ac agor cystadleuaeth dyfarniadau sylweddol (grantiau o dros £5miliwn) i'w dyfarnu yn 2020–21. Rydym yn disgwyl gwneud buddsoddiadau cymdeithasol ychwanegol mewn cronfeydd effaith, a dechrau datblygu ein systemau a'n prosesau rheoli buddsoddiadau i roi profiad ar-lein gwell i'n cwsmeriaid, gyda benthyciadau cefnogi ynghyd â grantiau.

I'r perwyl hwn, rydym wedi nodi cyfres o 13 o ddangosyddion perfformiad allweddol i fesur ein

llwyddiant wrth gyflawni ein nodau. Mae'r rhain yn cynnwys y targedau ar gyfer swm yr incwm newydd a gynhyrchir; lefelau gwell o fuddsoddiad mewn prosiectau treftadaeth o ffynonellau eraill; enw da cynyddol ymhlith rhanddeiliaid ac ati. Byddwn yn adrodd ar ein llwyddiant yn adroddiadau blynyddol y dyfodol.

**Penodi archwilwyr**

Mae Deddf 1980 yn darparu ar gyfer archwilio cyfrifon blynyddol CGDG gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf 1993 yn ymestyn hyn i weithgareddau dosbarthu arian Loteri Genedlaethol yr Ymddiriedolwyr.

**Rhanddeiliaid allweddol**

Rydym yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid allweddol a phartneriaid, ac yn ymgynghori'n helaeth â nhw wrth ddatblygu ein fframweithiau strategol a'n polisïau a'n harferion dosbarthu grantiau. Yn eu plith mae'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol, ymgeiswyr a derbynyddion grant, asiantaethau strategol a chyrff arweiniol ar gyfer treftadaeth a meysydd polisi eraill sy'n berthnasol i'n cyllido ledled gwledydd Prydain, yn ogystal ag aelodau etholedig llywodraethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi ar gyfer holl wledydd Prydain (gweler tudalennau 60 i 67), ac mae'n rheoli Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol sy'n buddsoddi'r arian a dderbynnir gan y Loteri Genedlaethol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi hefyd.

**Ychwanegedd**

Yn unol â chyfarwyddyd ariannol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, rhaid i holl ddosbarthwyr arian y Loteri ystyried egwyddorion ychwanegedd. Ein gofyniad ar gyfer grantiau'r Loteri yw y dylai ein harian fod yn ychwanegol i'r arian sydd ar gael gan y llywodraeth, ac nid yn ei le. Ni fyddwn yn rhoi grantiau i brosiectau os credwn fod arian ar gael gan y llywodraeth ar adeg y penderfyniad. Yn rhan o'n proses o asesu grantiau, gofynnwn i ymgeiswyr gyflwyno achos clir dros fuddsoddiad y Loteri Genedlaethol, gan gynnwys dweud wrthym pa ffynonellau arian eraill sydd wedi'u hystyried.

**Data personol**

Ni chafodd CGDG unrhyw achos o ddatgelu data personol yn anfwriadol i drydydd parti, ac nid yw wedi gwneud unrhyw adroddiad i swyddfa'r comisiynydd gwybodaeth. Bydd CGDG yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau, ac i sicrhau gwelliannau parhaus i'w systemau.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 7(3) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, mae gofyn i Ymddiriedolwyr CGDG baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd y Trysorlys. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau, ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn, ei hincwm a'i gwariant, ei hadenillion a'i cholledion cydnabyddedig a'i llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn i Ymddiriedolwyr CDGD gydymffurfio â gofynion canllaw adrodd ariannol y llywodraeth ac yn benodol:

i) dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson

ii) llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol

iii) datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y'u nodir yng nghanllaw adrodd ariannol y llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol

iv) paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Gronfa yn parhau i weithredu

Ym mis Gorffennaf 2016, penododd Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y Prif Weithredwr, sef Ros Kerslake OBE, yn Swyddog Cyfrifyddu CGDG. Amlinellir ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu yn yr adran 'Swyddogion Cyfrifyddu' yn

y ddogfen 'Managing Public Money'. Mae'r rhain yn cynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, diogelu asedau'r Gronfa a chadw cofnodion priodol.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai eu cymryd i'w wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, ac mae hi'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn rhesymol.

## Datganiad llywodraethu

### Rhagair

Rwyf wedi bod yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu ers mis Gorffennaf 2016.

Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'n rheolaethau mewnol a llywodraethu yn ystod 2018–19 a amlinellir yma. Rwyf yn fodlon bod fframwaith rheoli cadarn a phriodol ar waith, a ganiataodd i'r system rheolaethau mewnol weithredu'n effeithiol yn ystod y cyfnod hwn o drawsnewid.

### Cyflwyniad


Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn grynodeb o'r trefniadau ar gyfer stiwardiaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, gan gynnwys sut rydym yn rheoli risg ac yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Da ar gyfer y Llywodraeth Ganolog 2017 Trysorlys Ei Mawrhydi.

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol wedi pennu gofyniad i mi gyfrif ar wahân am fy nwy brif ffynhonnell incwm – cymorth grant ac arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol. Rwyf hefyd yn atebol am gynnal system rheolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion CGDG, gan ddiogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau rwyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn y ddogfen 'Managing Public Money'.

Gweithredir Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol fel endid unigol, gan fy mod o'r farn fod hyn fwy effeithlon ac effeithiol. O ganlyniad, un strwythur llywodraethu sydd, ac mae'r datganiad hwn yn cwmpasu dosbarthiad grantiau cymorth a grantiau'r Loteri Genedlaethol.

### Y strwythur llywodraethu

Amlinellir strwythur llywodraethu CGDG yn ystod 2018–19 yn y diagram isod.




### Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

- roi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol
- cymeradwyo mecanweithiau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus
- cymeradwyo cyllidebau gweinyddu a rhaglenni grant
- goruchwylio'r rheolaeth gyffredinol ar weithgareddau CGDG
- adrodd ar stiwardiaeth cyllid cyhoeddus

Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel grŵp, a chynhaliodd wyth cyfarfod yn ystod y flwyddyn i osod polisi ar gyfer CGDG a gwneud penderfyniadau yn unol â'r polisi hwnnw. Mynychir y cyfarfodydd hyn gan y Weithrediaeth (y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol). Roedd cworwm ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn 2018–19. Syr Peter Luff yw Cadeirydd CGDG, a chynhaliwyd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd drwy gydol y flwyddyn rhwng y Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac uwch aelodau o staff.

Fel arfer, mae'r Bwrdd yn cynnwys hyd at 15 Ymddiriedolwr, gan gynnwys y Cadeirydd – dyma'r nifer fwyaf a ganiateir. Yn 2018–19, penodwyd tri Ymddiriedolwr newydd, ac ymddeolodd dau Ymddiriedolwr (ni phenodwyd yn lle un ohonynt). Cymeradwywyd y newidiadau hyn gan ein hadran noddi – yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Prif Weinidog (gan fod penodiadau Ymddiriedolwyr yng nghylch gorchwyl y Prif Weinidog).

Cyfradd presenoldeb gyffredinol yr Ymddiriedolwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd oedd 100%. Mae'r

Ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo rhai o'u gorchwylion i'r ddau bwyllgor a ddangosir uchod – mae'r pwyllgorau hyn yn goruchwylio gweithgarwch rheolwyr ac yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i uwch aelodau o staff. Mae cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau yn eitemau sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae cadeiryddion y pwyllgorau yn darparu adroddiad llawn ar eu gweithgareddau hefyd.

Roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd drwy gydol 2018–19 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Maria Adebowale-Schwarte<br>o 16 Mai 2018 ymlaen | 7 | 7 |
| Y Farwnes Kay Andrews OBE | 8 | 8 |
| Anna Carragher | 8 | 8 |
| Syr Neil Cossons OBE<br>hyd at 31 Ionawr 2019 | 6 | 6 |
| Dr Angela Dean<br>hyd at 12 Mehefin 2018 | 3 | 3 |
| Jim Dixon | 8 | 8 |
| Dr Claire Feehily | 8 | 8 |
| Sarah Flannigan<br>o 16 Mai 2018 ymlaen | 7 | 7 |
| Perdita Hunt DL, OBE | 8 | 8 |
| Syr Peter Luff | 8 | 8 |
| Steve Miller | 8 | 8 |
| Richard Morris OBE<br>hyd at 16 Mai 2018 | 1 | 1 |
| René Olivieri | 8 | 8 |
| Atul Patel MBE<br>hyd at 16 Mai 2018 | 1 | 1 |
| Y Fonesig Seona Reid DBE | 8 | 8 |
| David Stocker<br>o 16 Mai 2018 ymlaen | 7 | 7 |
| Dr Tom Tew | 8 | 8 |

### Cyfansoddiad y Bwrdd

O'r 17 Ymddiriedolwr a fynychodd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn, roedd 47% yn fenywod a 53% yn ddynion. Roedd dau (12%) yn dod o gefndiroedd lleiafrif ethnig.

### Gwrthdaro buddiannau'r Bwrdd

Ar ddechrau pob cyfarfod Bwrdd, gofynnir i'r holl Ymddiriedolwyr a staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posib. Nodir y rhain yn y cofnodion pan ystyrir bod gwrthdaro, ac mae'r Ymddiriedolwyr a'r staff yn tynnu'n ôl o drafodaethau'r Bwrdd ar y materion hynny. Mae Ymddiriedolwyr a staff hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion ar y Gofrestr Buddiannau yn cael eu cynnal a'u diweddaru fel y bo'r angen.

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cworwm ym mhob cyfarfod. Fe'i cadeirir gan Ymddiriedolwr.

Mynychodd y Prif Weithredwr bob cyfarfod Pwyllgor gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol: Gwasanaethau Busnes – roedd uwch aelodau eraill o staff yn bresennol yn ôl yr angen. Mae'r Pwyllgor yn cael ei gynorthwyo a'i wasanaethu gan Ysgrifenyddiaeth y Gronfa. Mae archwilwyr allanol (y Swyddfa Archwilio Genedlaethol) ac archwilwyr mewnol (BDO) y Gronfa yn mynychu'r cyfarfod hefyd. Mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiynau preifat cyn cyfarfodydd, yn ogystal â thrafodaethau preifat gyda'r archwilwyr cyn y cyfarfodydd.

Yn ogystal â'r Ymddiriedolwyr, mae aelodau annibynnol anweithredol hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor – sef David Michael a Carole Murray.

Cytunodd y Pwyllgor ar strategaeth archwilio aml-flwyddyn gyda BDO ar adeg eu penodi, ac roedd yr adolygiadau a gynhaliwyd yn 2018–19 ac a adroddwyd wrth y Pwyllgor yn unol â'r dull strategol hwnnw. Caiff cynllun blwyddyn manwl o adolygiadau archwilio mewnol ei gymeradwyo bob blwyddyn.

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau ar:

- brosesau newydd ar gyfer ymgeisio am grantiau
- dangosyddion perfformiad allweddol
- y rhaglen trawsnewid busnes
- rheolaethau ariannol craidd
- isadeiledd a diogelwch technoleg gwybodaeth
- mapio sicrwydd risg wedi'i ddiweddaru

Rhennir cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor â'r Bwrdd. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn rhoi diweddariad ar lafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r Pwyllgor hefyd.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu adroddiadau blynyddol a chyfrifon Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Yn ystod 2018–19 ystyriodd y Pwyllgor y canlynol, yn ogystal â'r adroddiadau a'r cyfrifon uchod:

- y trefniadau ar gyfer parhau â'r prosesau rheoli risg newydd ar lefel adrannol
- achosion o dwyll a thwyll honedig

- trefniadau caffael, gan gynnwys unrhyw eithriadau i reolau tendrau caffael arferol

Roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor drwy gydol 2018–19 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| Dr Angela Dean<br>Cadeirydd, hyd at 12 Mehefin 2018 | 2 | 1 |
| Claire Feehily<br>Cadeirydd, o 1 Hydref 2018 ymlaen | 2 | 2 |
| Maria Adebowale-Schwarte<br>o 1 Chwefror 2019 ymlaen | 1 | 1 |
| Syr Neil Cossons OBE<br>hyd at 31 Ionawr 2019 | 3 | 3 |
| David Michael | 4 | 4 |
| Steve Miller<br>o 1 Chwefror 2019 ymlaen | 1 | 1 |
| Carole Murray | 4 | 4 |

### Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau

Cyfarfu'r Pwyllgor dair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cworwm ym mhob cyfarfod. Fe'i cadeirir gan Ymddiriedolwr. Cyfarfu'r Pwyllgor ar bedwerydd achlysur hefyd, fel y Pwyllgor Tâl er mwyn cytuno ar daliadau bonws perfformiad ar gyfer uwch aelodau o staff.

Mynychodd y Prif Weithredwr bob cyfarfod Pwyllgor fel aelod. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol: Gwasanaethau Busnes a'r Cyfarwyddwr Gweithredol: Cyflawni Busnes yn mynychu'r cyfarfodydd, ac uwch aelodau eraill o staff yn ôl yr angen. Mae'r Pwyllgor yn cael ei gynorthwyo a'i wasanaethu gan yr Ysgrifenyddiaeth.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r rheolaethau staffio a recriwtio a arferir gan yr uwch reolwyr. Adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y canlynol yn ystod y flwyddyn hefyd:

- cyfrifon rheoli a gwybodaeth am reolaeth ariannol (gan gynnwys targedau effeithlonrwydd)
- data perfformiad yn erbyn safonau gweithredol a gwasanaeth
- data rheoli perfformiad arall
- data am lefelau staffio a phersonél fel absenoldeb oherwydd salwch, gwariant ar hyfforddiant a datblygiad
- cynigion buddsoddi technoleg gwybodaeth
- strategaethau gweithredol ar gyfer technoleg gwybodaeth, Ystadau, Adnoddau Dynol a Chyllid

Cymeradwyodd y Pwyllgor y cyllidebau arfaethedig ar gyfer rhaglenni grant a gweinyddiaeth i'w cyflwyno i'r Bwrdd. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd Gynllun Busnes 2018–19.

Rhennir cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor â'r Bwrdd. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn rhoi diweddariad llafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r Pwyllgor.

Yn 2018–19, penderfynodd yr Ymddiriedolwyr benodi Steve Blake fel aelod anweithredol ar y Pwyllgor.

Roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor drwy gydol 2018–19 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd cymwys | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|
| René Olivieri<br>Cadeirydd, hyd at 25 Mehefin 2018 | 2 | 2 |
| Steve Blake | 3 | 3 |
| Sarah Flannigan<br>o 1 Hydref 2018 ymlaen | 2 | 2 |
| Perdita Hunt DL, OBE | 3 | 3 |
| Ros Kerslake OBE | 3 | 3 |
| Syr Peter Luff | 3 | 3 |

### Dirprwyo'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau

Yn 2018–19, dirprwyodd y Bwrdd rai cyfrifoldebau penderfynu ynglŷn â grantiau i is-set o Ymddiriedolwyr a oedd yn gweithredu fel paneli Bwrdd. Roedd y rhain yn ystyried penderfyniadau ynghylch y rhaglenni grant canlynol:

- Parciau i Bobl (yn Lloegr, roedd hwn yn banel ar y cyd â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol)

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo eu cyfrifoldebau penderfynu ynglŷn â grantiau ar gyfer mathau a gwerthoedd penodol o ddyfarniadau'r Loteri Genedlaethol i bwyllgorau gwledydd a rhanbarthau Lloegr. Mae 12 o'r pwyllgorau hyn ac mae pob un yn cynnwys un Ymddiriedolwr. Yn ogystal â gwneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau, mae'r pwyllgorau hyn yn rhoi cyngor i'r Bwrdd ar flaenoriaethau yn eu hardal, ac yn gweithredu fel eiriolwyr ar gyfer gwaith y sefydliad fel corff dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae cadeiryddion pwyllgorau gwledydd a rhanbarthau yn cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr, ynghyd ag uwch aelodau o staff, ddwywaith y flwyddyn.

Mae aelodau newydd y pwyllgorau hyn yn cael hyfforddiant cynefino ffurfiol gyda'r Prif Weithredwr ac uwch aelodau o staff drwy gydol y flwyddyn, gan ddibynnu ar y cylch recriwtio a phenodi. Yn 2018–19,

cynhaliom sesiynau cynefino ffurfiol i sawl aelod newydd.

Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb gwneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau o dan £100,000 i staff, yn benodol cyfarwyddwyr Cyflawni Busnes mewn gwledydd a rhanbarthau. Cyflwynir adroddiad blynyddol ar effaith grantiau dirprwyedig ar draws yr holl bwyllgorau i'r Bwrdd. Caiff yr holl benderfyniadau a wneir gan bwyllgorau a staff eu hadrodd i'r Bwrdd.

**Incwm y Loteri Genedlaethol**

Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Comisiwn Hapchwarae, yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Camelot (gweithredwr y Loteri Genedlaethol) i ddeall y data y tu ôl i ragamcanion incwm y Loteri Genedlaethol ac i asesu'r peryglon a'r cyfleoedd ar sail y gwaith hwn.

Yn dilyn yr adolygiad strategol gan Camelot o'u cynlluniau a'u gweithrediadau yn ystod hydref 2017, rydym yn parhau i weithio gyda nhw a phartneriaid eraill ar weithredu eu cynlluniau'n ymarferol pan fydd hyn yn gorgyffwrdd â'n maes, er enghraifft wrth hyrwyddo'r fenter Un Loteri Genedlaethol.

Cymerom gamau i leihau amlygiad ariannol y Gronfa oddi wrth ein hymrwymiadau posib, ac er bod y penderfyniadau hyn wedi bod yn anodd o safbwynt treftadaeth, mae'r camau hyn wedi gostwng lefel yr amlygiad, ac mae ein dangosyddion ariannol allweddol wedi symud, ac yn parhau i symud, yn y cyfeiriad cywir.

Mae'n galonogol bod rhagamcanion y lefelau a'r lefelau gwirioneddol wedi sefydlogi, ac mae gennym fwy o hyder o ran eu cyflawni dros y blynyddoedd i ddod. Rydym wedi bod yn bwyllog drwy ystyried rhywfaint o risg yn y rhagamcanion hynny, er mwyn rheoli gostyngiad pe bai hynny'n datblygu.

**Y Weithrediaeth a'r Uwch Dîm Arwain**

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo gwaith rheoli dydd i ddydd i'r Prif Weithredwr. Yn flaenorol, cefnogwyd y Prif Weithredwr gan Grŵp Penaethiaid Adrannau ac Uwch Dîm Arwain, a oedd yn cynnwys yr holl Gyfarwyddwyr a'r Dirprwy Gyfarwyddwyr.

Y Weithrediaeth (y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol) sy'n gyfrifol am faterion rheoli strategol ehangach, ac maent hefyd yn gweithredu fel Bwrdd Rhaglen ar gyfer y rhaglen trawsnewid busnes (gweler isod). Mae'r Weithrediaeth yn cwrdd yn wythnosol.

Yr Uwch Dîm Arwain (y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a'r Dirprwy Gyfarwyddwyr) oedd yn gyfrifol am weithrediadau dydd i ddydd y Gronfa, ynghyd â pharatoadau ar gyfer y Fframwaith Ariannu Strategol. Mae'r Uwch Dîm Arwain hefyd yn cwrdd yn wythnosol.

Mae pob cyfarwyddwr adrannol yn cyflwyno adroddiad misol i'r Bwrdd ar weithgareddau a materion o fewn eu cylch gorchwyl. Roedd y Prif Weithredwr hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Tîm Arwain, a oedd yn cynnwys uwch reolwyr a rheolwyr canol ac yn sicrhau bod penderfyniadau a chyfarwyddiadau'r Bwrdd yn cael eu cyfathrebu'n uniongyrchol i aelodau staff allweddol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys adroddiadau llafar ar weithgareddau ar draws pob adran, ynghyd â thrafodaethau ar faterion thematig sy'n effeithio ar bob tîm, er enghraifft rheoli risg a chynllunio busnes.

O fis Ebrill 2019 ymlaen, newidiodd y strwythur llywodraethu hwn i adlewyrchu dyluniad a strwythur newydd y Gronfa (gweler isod). Mae'r trefniadau hyn fel a ganlyn:

- Y Weithrediaeth (gan gadw'r aelodaeth fel y mae) i oruchwylio'r Strategaeth Gorfforaethol a chyfeiriad strategol y Gronfa
- Grŵp Strategaeth a Pherfformiad (yn cynnwys uwch reolwyr sydd yn llinell reoli uniongyrchol Cyfarwyddwyr Gweithredol) i oruchwylio perfformiad gweithredol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, targedau ac ati

**Dyluniad a strwythur sefydliadol**

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Prif Weithredwr yn gweithredu strwythur pedair adran, sef:

- Gweithrediadau
- Strategaeth a Datblygu Busnes
- Cyfathrebu
- Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Roedd tîm yr Ysgrifenyddiaeth yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr.

Caiff y cynllun gweithredu blynyddol – y Cynllun Busnes – ei ddatblygu bob blwyddyn ochr yn ochr â chyllidebau ariannol a chynlluniau rhaglenni grant. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, rydym wedi integreiddio rheoli risg yn agos i'r broses cynllunio busnes eleni hefyd. Trafodir y Cynllun Busnes gyda'n hadran noddi, sef yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Adran

hefyd yn gosod cyfarwyddiadau polisi ac ariannol, ac rydym wedi cydymffurfio â nhw yn ein gweithgareddau Loteri Genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi hefyd mewn perthynas â gweithgareddau'r Loteri Genedlaethol yn y gwledydd hynny, ac rydym wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hynny hefyd.

Rydym yn gweithredu yn unol â Chytundeb Rheoli a Memorandwm Ariannol rhyngom ni a'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ategir hyn gan gyfarfodydd rheolaidd â swyddogion yr Adran a dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol.

Yn ystod 2018–19, fel rhan o'n rhaglen trawsnewid busnes, cynhaliom ymgynghoriad eang a phroses ddylunio i sefydlu dyluniad newydd y Gronfa. Cynhaliwyd ymgynghoriad staff mewn perthynas â hyn yn ystod haf a hydref 2018. Wedi hynny, buom yn ymgynghori gyda'n hundebau llafur cydnabyddedig dros y gaeaf, a dechreuom drosglwyddo i'r strwythur newydd ym mis Ionawr 2019. Cwblhawyd hyn erbyn diwedd mis Mawrth 2019.

Bydd y strwythur newydd yn canolbwyntio ar gyflawni ein huchelgais o "ysbrydoli, arwain ac ariannu treftadaeth gwledydd Prydain". Y strwythur adrannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2019 yw:

- Treiddgarwch ac Arloesedd Busnes – yn canolbwyntio ar arwain a gyrru cyd-destun, treiddgarwch a chyfeiriad ein huchelgais
- Cyflawni Busnes – yn canolbwyntio ar gyflawni ein huchelgais drwy bartneriaethau strategol, ymgysylltu a buddsoddi ledled gwledydd Prydain ar lefel leol
- Gwasanaethau Busnes – yn canolbwyntio ar alluogi, partneru a chefnogi ein huchelgais

Bydd Cyflawni Busnes yn parhau â'i fodel cyflawni ledled gwledydd Prydain, gan gynnwys tair ardal newydd yn Lloegr sydd wedi'u cyfuno o'r rhanbarthau a oedd eisoes yn bodoli yn Lloegr, yn cynnwys Gogledd Lloegr; Canolbarth a Dwyrain Lloegr; a Llundain a De Lloegr. Mae Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn parhau i fod â thimau gwlad eu hunain.

Cynhaliwyd proses eang ar gyfer cymathu, recriwtio ac asesu staff er mwyn sicrhau bod y doniau arwain cywir gennym ar waith ar hyd y Gronfa, ac i gysoni doniau ein staff eraill i gyflawni'r uchelgais yn eu swyddogaethau a'u timau amrywiol ledled gwledydd Prydain.

Rydym wedi parhau i gyflawni ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau craidd drwy gydol 2018–19 yn ogystal â'r newidiadau sylweddol hyn yn ein dyluniad a'n strwythur. Byddwn yn parhau yn hanner cyntaf 2019–20 i wreiddio'r dyluniad drwy weithio ar newid ein diwylliant a chreu swyddogaethau newydd gan gynnwys marchnata.

Mae'r holl newidiadau rydym wedi'u cyflwyno yn cefnogi ac yn unol ag argymhellion Adolygiad wedi'i Deilwra 2017 a gynhaliwyd gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

### Y Strategaeth Gorfforaethol

Cydnabuom yn 2017, yn ogystal â'r fframweithiau/cynlluniau strategol llwyddiannus a fu gennym ar waith yn flaenorol ar gyfer rhoi grantiau'r Loteri Genedlaethol, fod arnom angen Strategaeth Gorfforaethol sefydliadol ehangach ar gyfer cyfeiriad y sefydliad ac i'n helpu i gynllunio ac i ymateb i heriau, risgiau a chyfleoedd yn y dyfodol.

Yn 2018 lansiwyd ein Strategaeth Gorfforaethol, a oedd yn darparu 'ymbarél cyffredinol' ar gyfer ein gweithgarwch ar lefel uchel. Caiff ei chefnogi gan ystod o ymatebion corfforaethol eraill, sy'n darparu mwy o fanylion mewn meysydd gweithredol, strategol a pholisi penodol, gan gynnwys:

- lansio ein Fframwaith Ariannu Strategol newydd ym mis Ionawr 2019
- ein Cynlluniau Busnes
- ein cynllun cyflwyno ar gyfer argymhellion yr Adolygiad wedi'i Deilwra
- ein rhaglen trawsnewid busnes
- strategaethau busnes ar gyfer meysydd swyddogaethol unigol, e.e. ein strategaeth ddigidol

Bydd y Loteri Genedlaethol yn parhau i fod yn brif ffynhonnell incwm yn y blynyddoedd i ddod, ac yn ganolbwynt i'r rhan fwyaf o'n gweithgarwch.

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn atgyfnerthu'r cyfeiriad rydym wedi bod yn mynd iddo ers sawl blwyddyn, gan amlinellu ein rôl fel ffynhonnell gyllid fwyaf maes treftadaeth ledled gwledydd Prydain, a chymryd camau pellach tuag at safle arwain cryfach, gyda phwyslais penodol ar y cyfleoedd y tu hwnt i roi grantiau yn unig. Y nod yw sbarduno newid a chynyddu ein heffaith ar dreftadaeth gwledydd Prydain, trwy gryfhau ein rôl arwain a hyrwyddo'r buddion y gall treftadaeth eu cynnig i gymdeithas.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Byddwn yn gweithio gyda phrosesau hyfywdra a diwydrwydd dyladwy er mwyn archwilio'r opsiynau i ehangu gweithgarwch Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol er mwyn cefnogi'r sectorau mae'n gweithio gyda nhw.

**Y Fframwaith Ariannu Strategol**

Ym mis Ionawr 2019, lansiom ein Fframwaith Ariannu Strategol newydd. Mae'r fframwaith hon, sy'n rhedeg rhwng 2019 a 2024, yn golygu datganoli sylweddol o ran gwneud penderfyniadau ar draws gwledydd Prydain fel rhan o'n cynigion i ddosbarthu mwy na £1biliwn o arian y Loteri Genedlaethol i dreftadaeth gwledydd Prydain.

Bydd penderfyniadau ar oddeutu 80% o waith ariannu Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cael eu gwneud yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon, a thair ardal newydd yn Lloegr.

Mae ein dull newydd yn cynnwys:

- ffocws sylweddol ar natur, cymunedau a sicrhau bod modd i bawb fwynhau treftadaeth – dyma oedd blaenoriaethau pennaf y bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad
- modelau buddsoddi newydd, gan fynd y tu hwnt i grantiau er mwyn cynnwys benthyciadau a phartneriaethau, wedi'u dylunio i ddenu eraill i fuddsoddi arian ochr yn ochr â'r Loteri Genedlaethol
- mwy o gefnogaeth i ddulliau masnachol a chynaliadwy o fynd i'r afael â threftadaeth sydd mewn perygl o gael ei cholli
- buddsoddi a chefnogi i helpu sefydliadau treftadaeth i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol
- gofyniad i bob prosiect treftadaeth sy'n cael arian fod yn ecogyfeillgar
- ariannu mwy syml, clir ac effeithiol
- rhagor o waith ymgysylltu a chefnogi i helpu 13 cymuned ddifreintiedig sydd wedi bod yn llai llwyddiannus yn sicrhau arian yn y gorffennol
- cefnogaeth barhaus ar gyfer prosiectau eiconig ar raddfa fawr dros £5miliwn

Mae ein portffolio buddsoddi yn symlach ac yn haws cael mynediad ato, ac yn cynnwys:

- Grantiau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Treftadaeth – rhaglen agored ar gyfer unrhyw fath o brosiect treftadaeth o £3,000 i £5miliwn
- ymgyrchoedd ariannu treftadaeth wedi'u dylunio i gyflawni anghenion strategol neu fylchau ariannu. Bydd y ddwy ymgyrch gyntaf yn cael eu lansio yn 2019, ac yn canolbwyntio ar helpu:
  - sefydliadau i adeiladu eu capasiti a'u gwytnwch sefydliadol
  - i adeiladu capasiti digidol
- cronfeydd ar y cyd i gyflawni mentrau strategol mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis partneriaeth Sbarduno Parciau'r Dyfodol gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- buddsoddiadau cymdeithasol megis benthyciadau a chronfeydd effaith
- dau gylch o grantiau mawr dros £5miliwn yn 2020–21 a 2022–23

Mae'r portffolio a'r dull cyffredinol hwn yn adlewyrchu'r ymgynghoriad eang a gynhaliom yn 2017–18 gyda chwaraewyr a rhanddeiliaid allweddol y Loteri Genedlaethol ar draws y sectorau treftadaeth.

**Y rhaglen trawsnewid busnes**

Fel pob sefydliad, yn cynnwys rhai llwyddiannus, rydym yn cydnabod yr angen i addasu a newid ein ffordd o weithio yn ôl yr amgylchedd newidiol rydym yn gweithio ynddo. Yn ogystal, er mwyn cyflawni ein Strategaeth Gorfforaethol, bydd angen i ni newid y ffordd rydym yn gweithio.

Mae'r amgylchedd hwnnw wedi newid yn wleidyddol, er enghraifft gwledydd Prydain yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, trefniadau datganoli parhaus ledled gwledydd Prydain, effeithiau llymder a chyfyngiad ar wariant y sector cyhoeddus i enwi dim ond rhai. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn ein cyfeirio i gyfeiriadau gwahanol, ynghyd â'n busnes craidd.

Roedd Adolygiad wedi'i Deilwra 2017 yn cefnogi'r cyfeiriad hwnnw a'r camau a gymerwyd hyd yma, ac yn cyflwyno'r her i ni o fynd ymhellach.

Aethom ati felly i sefydlu rhaglen trawsnewid busnes, er mwyn newid y ffordd rydym yn gweithio a sut rydym yn cyflawni'r gwaith hwnnw. Yn 2017–18, buom yn cynllunio ac yn paratoi camau cychwynnol y gwaith hwn, a 2018–19 oedd y flwyddyn gyntaf o'i gyflwyno a'i weithredu. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cymryd dwy flynedd arall cyn ei gwblhau'n llawn.

Nodau'r rhaglen yw cyflawni a chefnogi:

- y Strategaeth Gorfforaethol tair blynedd newydd a ddechreuodd ym mis Mawrth 2018

- Fframwaith Ariannu'r Loteri Genedlaethol sy'n symlach ac yn canolbwyntio mwy ar y cwsmer
- proses a system rheoli grantiau sydd wedi gwella'n ddirfawr yn 2020
- trawsnewid technoleg gwybodaeth sy'n cefnogi effeithlonrwydd gweithredol a bodlonrwydd cwsmeriaid
- y seilwaith corfforaethol (sgiliau, strwythur, gwasanaethau cymorth) i gefnogi ein cyfeiriad strategol
- ffyrdd mwy hyblyg o weithio a diwylliant cryfach, mwy cadarnhaol

Rydym wedi ail-drefnu gwaith y rhaglen yn dair brif ffrwd waith, sef:

1. Siapio ein Busnes (ein diwylliant, sgiliau, pobl, llywodraethu a dyluniad sefydliadol)
2. Lleoli ein Busnes (ein hystad a'n hamgylchedd gweithio)
3. Cyflawni ein Busnes (ein technoleg gwybodaeth, trawsnewid digidol)

Yn 2018–19 cyflawnom:

- adolygiad dichonolrwydd ar gyfer amrywio ffynonellau incwm a throsoli buddsoddiad yn y sector treftadaeth
- ein Fframwaith Ariannu Strategol newydd, gan gynnwys ymgynghori â'r cyhoedd, dylunio portffolio, prosesau newydd a chanllawiau
- hunaniaeth brand newydd fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (gan ddisodli Cronfa Dreftadaeth y Loteri)
- newidiadau i'n gwefan, porth ar-lein, ffurflenni a phrosesau ar gyfer y fframwaith ariannu newydd
- dechrau gweithredu ein strategaeth ddigidol, gan gynnwys cwblhau'r gwaith o baratoi technoleg gwybodaeth ar gyfer yr holl staff, dechrau cyflwyno Office 365, integreiddio teleffoni, digideiddio cofnodion copi caled, datblygu dull prawf o gysyniad ar gyfer system a phorth rheoli grantiau newydd
- ein dyluniad sefydliadol newydd
- symud pum swyddfa o drefniant prydles i swyddfeydd modern a wasanaethir
- cytundeb i symud swyddfa Llundain i swyddfeydd newydd yn Nociau St Katharine
- creu tîm digidol newydd i astudio treiddgarwch a dealltwriaeth o gwsmeriaid, a dyluniad ein gwasanaethau digidol

**Rheoli risg a rheolaeth fewnol**

Mae ein system rheoli risg a rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel dderbyniol yn hytrach na dileu risg i bolisïau, nodau ac amcanion. Felly, sicrwydd rhesymol yn unig y gall ei ddarparu, yn hytrach na sicrwydd llwyr. Yn arbennig, credaf yn bendant na ddylai'r dull o reoli risg rwystro arloesedd na newid i fusnes, lle bo angen hyn. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i amlygu a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac i werthuso tebygolrwydd bod y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe bai hynny'n digwydd.

Caiff pob proses pennu polisi a phenderfynu ynglŷn â grantiau ei llywio gan ddull a diwylliant rheoli risg CGDG. Ychydig flynyddoedd yn ôl, newidiwyd ein dull rheoli risg fel rhan o ymarfer ehangach ynglŷn â sicrwydd ar draws y Gronfa. Rydym wedi parhau i weithredu'r dull hwn yn 2018–19.

Mae'r cofrestrau risg a'r broses sy'n sail iddynt yn neilltuo perchennog risg sy'n atebol i'r Prif Weithredwr am reoli'r risg honno'n effeithiol. Mae'r cofrestrau hefyd yn amlygu risgiau cysylltiedig fel bod unrhyw 'effaith lluosydd' yn cael ei hystyried. Mae hefyd yn gwahaniaethu rhwng y lefel risg 'gynhenid' (effaith a thebygolrwydd) a'r lefel risg 'weddilliol' fel bod modd barnu effeithiolrwydd rheolaethau a mecanweithiau presennol ar gyfer lliniaru'r risg. Mae hynny hefyd yn caniatáu i'r perchennog risg nodi mesurau ychwanegol y mae eu hangen i ddod â'r risg o fewn yr archwaeth a'r dyddiadau penodol ar gyfer y camau gweithredu hynny.

Adolygodd y Bwrdd ei Archwaeth Risg ar gyfer 2018–19 hefyd, a pharhaodd i adlewyrchu archwaeth mwy am newid a thrawsnewid busnes. Cydnabu'r Bwrdd hefyd y risgiau a'r heriau sy'n wynebu CGDG yn 2018–19, yn enwedig yn ei rôl o ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol – disgwylir i'r rhain esblygu o'r prif risgiau ar gyfer 2018–19 fel y'u hamlinellir isod. Bydd rheoli risg yn effeithiol yn arbennig o bwysig yn ystod y flwyddyn i ddod.

Rydym yn cydnabod hefyd y dylid annog cymryd risgiau ac arloesedd yr ystyrir eu bod yn briodol er mwyn cyflawni amcanion CGDG. Credaf fod y Gronfa'n dangos arloesedd yn ei dewis o ddyfarniadau

grant ac nad yw'n mynd ati i wneud penderfyniadau heb risg. Mewn cyfnod pan fo cyllid y Loteri Genedlaethol yn lleihau, bydd hyn yn bwysicach fyth er mwyn sicrhau bod cyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cyrraedd mor eang â phosib yn y gymuned.

I'r perwyl hwn, rydym yn barod i dderbyn na fydd rhai o'r sefydliadau y rhown grantiau iddynt yn dangos cymhwysedd llawn o ran gweinyddu'r grant hwnnw wedyn. Rydym yn dysgu ein gwersi, yn gwella ein prosesau ac, mewn amgylchiadau prin, yn diddymu'r grant. Mewn achosion lle rydym yn amau twyll neu ymddygiad amhriodol, byddwn yn adrodd am yr achos wrth yr heddlu er mwyn iddynt ymchwilio ymhellach. Rwy'n cymeradwyo pob diddymiad, ac mae hyn yn fy ngalluogi i fonitro'r swm bob blwyddyn i roi sicrwydd am ein gweithdrefnau asesu a monitro.

Fel y gellir gweld o'r nodyn perthnasol i'r cyfrifon, mae'r lefel diddymu grantiau yn eithriadol o fach o gymharu â lefel y grantiau rydym yn eu dosbarthu bob blwyddyn. Ar y llaw arall, mae'r lefel uchel o ran bodlonrwydd cwsmeriaid a ddangoswyd mewn arolygon annibynnol yn awgrymu nad yw ein harferion gweithio'n rhy feichus i ymgeiswyr. O ganlyniad, gallaf ddod i'r casgliad nad oes unrhyw achos i bryderu ynglŷn â'r lefel risg sy'n rhan o'n prosesau dyfarnu grantiau.

Yn 2018–19, roedd CGDG o'r farn mai'r canlynol yw'r meysydd risg mwyaf sylweddol:

- amrywio yn incwm y Loteri Genedlaethol
- arallgyfeirio fel y'i amlinellwyd yn y Strategaeth Gorfforaethol yn aflwyddiannus
- ni weithredwyd argymhellion yr Adolygiad wedi'i Deilwra yn llwyddiannus
- adwaith negyddol i newid a thrawsnewid busnes
- Fframwaith Ariannu Strategol heb ei weithredu'n llwyddiannus.

Mae gan bob un o'r risgiau hyn berchennog risg ar lefel y Weithrediaeth sy'n gyfrifol am reoli'r risg a sicrhau bod camau lliniaru priodol yn cael eu cymryd. Rwyf o'r farn ein bod wedi rheoli'r risgiau hynny'n effeithiol drwy gydol 2018–19.

### Ymagwedd at risg gwybodaeth a thwyll

Mae gan CGDG bolisi twyll a gaiff ei adolygu'n flynyddol. Mae pob aelod o staff y Gronfa wedi cael hyfforddiant pwrpasol ar gyfer ymwybyddiaeth o dwyll yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a ddarparwyd gan dîm sicrwydd arbenigol o gwmni BDO gyda chefnogaeth Tîm Cyllid CGDG. Canolbwyntiodd hyn ar risg twyll o ran:

- rhoi grantiau
- rheoli contractau/caffael
- meysydd twyll cyffredinol

Amlygodd yr hyfforddiant hefyd feysydd risg twyll ar gyfer CGDG, a sut gellid eu hamlygu a'u goresgyn i leihau risg twyll. Cefnogwyd hyn gyda hyfforddiant ar-lein yn 2016–17.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn gwella'r trefniadau ymwybyddiaeth o risg a chasglu gwybodaeth gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol, a pharhaom gyda hyn y llynedd trwy rannu gwybodaeth yn well, cyfuno adnoddau ac ystyried defnyddio trydydd partïon arbenigol i amlygu risg twyll. Rydym yn parhau i adrodd am yr holl achosion posib o dwyll i'r heddlu, ac yn mynd ati i gysylltu â nhw mewn achosion o'r fath er mwyn sicrhau ymchwilio effeithiol.

Tuag at ddiwedd y flwyddyn, cynhaliom waith sylweddol i adnewyddu ein gwaith yn y maes hwn, ac i sicrhau cysondeb â Safon Gweithredol y Llywodraeth ar Dwyll (GovS013: Atal Twyll). Rydym wedi gwella canllawiau a pholisi mewn meysydd megis:

- cynllun ymateb a pholisi twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth
- strategaeth gwrth dwyll
- asesiad risg twyll
- ein cynllun gweithredu blynyddol

Rydym yn disgwyl gwreiddio hyn ymhellach yn 2019–20.

Mae gan CGDG bolisi risg gwybodaeth hefyd sy'n cydymffurfio â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet a'r Fframwaith Polisi Diogelwch. Rhoddir arweiniad i bob aelod newydd o staff ar ddiogelwch gwybodaeth, diogelu data a Rhyddid Gwybodaeth yn rhan o'u cyfnod cynefino. Cynhaliom waith cynllunio a pharatoi helaeth ar gyfer darpariaethau'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd a gyflwynwyd ym mis Mai 2018, ac rydym wedi bodloni rhwymedigaethau'r Rheoliad.

Ym mis Rhagfyr 2018, cawsom achrediad Cyber Security Plus. Rydym hefyd yn cydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth ar dryloywder gwariant, contractau ac ati. Yn 2018–19, parhaom i wella'r rheolaethau a'r prosesau caffael.

**Modelau sy'n bwysig i fusnes**

Rwyf o'r farn ein bod yn cydymffurfio â'r argymhellion yn Adroddiad Macpherson. Rwyf o'r farn ein bod yn defnyddio un model sy'n bwysig i fusnes – y rhagolwg llif arian a ddefnyddir i bennu cyllidebau dyfarnu grantiau blynyddol allan o'n hincwm Loteri Genedlaethol. Ceisiwn sicrhau ein bod yn dyfarnu'r lefel grantiau uchaf bosib heb y risg o redeg allan o arian neu orwario. Crëwyd y model tua 10 mlynedd yn ôl ac mae'n dal i fod ar ei ffurf wreiddiol i raddau helaeth, heblaw i ni ymestyn ei oes weithredu. Mae'r model wedi'i ddefnyddio i ystyried senarios o wahanol lefelau incwm y Loteri Genedlaethol, cyfraniadau untro at y Gemau Olympaidd, a rhaglenni grant newydd sylweddol, ac rydym wedi canfod ei fod yn darparu rhagolwg rhesymol o'n cynaliadwyedd ariannol.

Yn 2014–15, yn seiliedig ar y model, creodd y Bwrdd Fframwaith Ariannol yn nodi cymarebau grant sy'n gysylltiedig â chyfanswm lefel yr ymrwymiadau, rhwymedigaethau gwirioneddol cymeradwy, incwm o'r Loteri Genedlaethol a balans Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Credwn felly fod y model a'r Fframwaith Ariannol yn darparu sail gadarn ar gyfer ein penderfyniadau dyfarnu grantiau. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r dull hwn yn 2018–19, a'i ddefnyddio mewn modelau ar gyfer senarios a rhagdybiaethau cynllunio incwm y Loteri Genedlaethol. Adolygwyd y cymarebau allweddol ym mis Chwefror 2018, a chytunwyd i gadw'r cymarebau fel yr oeddent, ac eithrio'r targed dal arian, a addaswyd i adlewyrchu ystod ehangach a lefelau digonol o gronfeydd wrth gefn i adlewyrchu lefel yr ymrwymiadau.

**Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd**

Gweithgarwch mwyaf arwyddocaol y Bwrdd fu goruchwylio'r gwaith sy'n mynd rhagddo i gyflwyno'r Fframwaith Ariannu Strategol a'n rhaglen trawsnewid busnes, ochr yn ochr â'u gwaith dyfarnu grantiau.

Ni chododd unrhyw faterion o bryder o unrhyw un o'r Pwyllgorau a oedd yn cefnogi'r Bwrdd. Roedd canfyddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol yn foddhaol yn ystod y flwyddyn.

Newidiodd aelodaeth y Bwrdd yn 2018–19, ond nid cymaint ag yn ystod y blynyddoedd blaenorol; mae hyn wedi golygu gostyngiad mewn trosiant ymhlith yr Ymddiriedolwyr. Rydym wedi sicrhau set sgiliau mwy amrywiol hefyd ar draws y Bwrdd, gyda gwybodaeth ym maes digidol, rheoli newid, arbenigedd masnachol, a sgiliau llywodraethu hefyd.

Mae'r Bwrdd yn fodlon ei fod yn parhau i ddiwallu gofynion Cod Llywodraethu Corfforaethol Trysorlys Ei Mawrhydi 2017.

Ni chyflwynwyd unrhyw faterion gan yr archwilwyr i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar ran y Bwrdd a oedd yn peri pryder. O ganlyniad, mae'r Bwrdd o'r farn y gall ddibynnu ar y wybodaeth a'r sicrwydd a ddarperir gan reolwyr fel sail i'w benderfyniadau.

Mae pob Ymddiriedolwr newydd yn cael cyfnod cynefino ar adeg eu penodi, sy'n amlinellu eu rhwymedigaethau a'u dyletswyddau fel Ymddiriedolwr, gwaith CGDG a'i systemau/prosesau, sy'n eu helpu i wneud cyfraniad llawn at waith y Bwrdd. Parheir â'r rhaglen gynefino ffurfiol hon drwy'r rhaglen barhaus o ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi eraill i Ymddiriedolwyr. Caiff effeithiolrwydd Ymddiriedolwyr ei arfarnu gan y Cadeirydd yn rheolaidd. Hefyd, goruchwylir perfformiad y Cadeirydd gan yr Uwch Ymddiriedolwr Annibynnol (sef Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau).

**Adolygiad llywodraethu**

Penderfynodd y bwrdd ar ddechrau 2019, o ystyried y newidiadau yn y Gronfa, y byddai'n gyfrifol comisiynu adolygiad mwy ffurfiol i ddull llywodraethu'r Gronfa. Bydd hyn yn cynnwys y meysydd canlynol mewn perthynas â sut mae'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Gronfa:

- yn "ysbrydoli, arwain a darparu adnoddau" i dreftadaeth ym mhedair gwlad Prydain
- llywio polisïau'r sefydliad
- gwarantu cywirdeb ei benderfyniadau
- ymarfer arweinyddiaeth strategol yn y sector, yn genedlaethol ac yn lleol
- cyfathrebu ei waith a'i weledigaeth
- darparu arbenigedd i gefnogi ei waith
- sicrhau bod ei waith o fudd i gynulleidfaoedd amrywiol ledled gwledydd Prydain
- cefnogi ei staff gweithredol adeiladu cefnogaeth ar gyfer ei weithgareddau ar draws rhanddeiliaid yn y llywodraeth, y gweinyddiaethau datganoledig, a'r sector treftadaeth yn yr ystyr ehangaf
- yn cynnal hyder chwaraewyr y Loteri Genedlaethol
- yn adlewyrchu arferion gorau, ac yn cymharu â modelau eraill sefydliadau ar draws gwledydd Prydain yn y sector cyhoeddus/diwylliannol

## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Ym mis Ebrill, penodwyd Campbell Tickell i gynnal y gwaith hwn. Rydym yn disgwyl derbyn eu hadroddiad yn ystod yr haf, a bydd yn cael ei ystyried gan y Bwrdd ym mis Medi 2019.

**Y flwyddyn lywodraethu**

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol (BDO) a'r uwch reolwyr yng CGDG sy'n gyfrifol am sicrhau bod y fframwaith rheolaeth fewnol yn cael ei gynnal a'i weithredu'n effeithiol, ynghyd â sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Ar ddiwedd y flwyddyn, unwyd Moore Stephens gyda BDO, ac yn dilyn proses dendro gystadleuol, fe'u hail-benodwyd am dymor o dair blynedd fel archwilwyr allanol. Cynhaliwyd y broses gaffael hon ar y cyd â Chwaraeon Lloegr a Chwaraeon y Deyrnas Unedig. Ynghyd â sicrhau gwell gwerth i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, credaf y bydd hyn yn annog arferion gorau ar draws gwahanol ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol, a fydd o fudd i ni i gyd.

Gosodir cytundebau perfformiad ar gyfer pob uwch aelod o staff ar ddechrau'r flwyddyn, sy'n amlinellu eu hamcanion personol a chorfforaethol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Cynllun Busnes a'n strategaeth. Fe'u hadolygir yn ffurfiol mewn adolygiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn. Rwyf hefyd yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol gyda chyfarwyddwyr ar sail un i un drwy gydol y flwyddyn. Fel y soniwyd, mae'r Tîm Gweithredol a'r Uwch Dîm Arwain yn cyfarfod yn rheolaidd.

Rwyf wedi gweld y llythyr rheoli a baratowyd gan yr archwilwyr allanol yn dilyn eu harchwiliad o'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

O ganlyniad i'w rhaglen waith, mae'r archwilwyr mewnol wedi llunio barn a thystysgrif flynyddol o sicrwydd mewn perthynas â digonolrwydd y systemau a gweithrediad rheolaethau mewnol yng CGDG. Mae'r farn hon yn ardystio bod system ddigonol ac effeithiol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar waith i fynd i'r afael â'r perygl na chaiff amcanion y rheolwyr eu cyflawni'n llawn.

Nododd adroddiad diwedd blwyddyn yr archwilydd mewnol welliant yng 'nghyfeiriad' y gwaith asesu sicrwydd.

Adeg eu penodi, cynhyrchodd yr archwilwyr mewnol strategaeth archwilio gyffredinol. Y llynedd oedd trydedd flwyddyn y cyfnod hwn, a chynhaliwyd pob adolygiad bwriadedig, ac fe'u cwblhawyd yn brydlon. Caiff y cynllun blynyddol ei dynnu o'r strategaeth archwilio a'i gysylltu â'r gofrestr risg ac archwaeth risg.

Gyda BDO, cyflwynom gyfarfodydd cyswllt newydd chwarterol gyda'r archwilwyr mewnol er mwyn helpu i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun ac ailgyfeirio adnoddau at risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r rhain wedi parhau i gael eu defnyddio i fonitro cynnydd a chyflawniad y rhaglen. Yn ogystal, cyflwynwyd rheolaethau newydd yn 2014–15 i wella atebolrwydd am adolygiadau archwilio a gweithredu argymhellion yr archwilwyr mewnol. Mae'r rhain wedi parhau yn 2018–19, ac mae'r argymhellion a oedd i gael eu rhoi ar waith yn 2018–19 wedi cael eu gweithredu'n foddhaol ar y cyfan.

Trafodir holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mhresenoldeb uwch aelodau o staff, gan gynnwys y rheiny yr adroddwyd ar eu hadrannau gan yr archwilwyr – mae hyn yn rhoi'r cyfle i mi ac aelodau'r Pwyllgor drafod y canfyddiadau, yr argymhellion a'r camau arfaethedig gan y rheolwyr yn fanwl. Lle derbyniwyd argymhellion ar gyfer gwella neu gywiro, roedd yn ofynnol i gyfarwyddwyr ddarparu ymateb gweithredu ac amserlen ar gyfer pob argymhelliad hefyd. Caiff gweithrediad yr argymhellion hyn eu holrhain a'u monitro gan yr Adran Gwasanaethau Busnes a'r archwilwyr mewnol. Mae'r rhestr rheoli honno'n eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd.

Yn 2018, cyflwynwyd Cod Ymddygiad newydd ar gyfer holl staff a chontractwyr y Gronfa, yn dilyn argymhelliad yn yr Adolygiad wedi'i Deilwra. Roedd hyn yn cynnwys meysydd megis:

- egwyddorion gwasanaeth mewn bywyd cyhoeddus
- gwrthdaro buddiannau
- rhoddion a lletygarwch
- chwythu'r chwiban

Cyhoeddwyd y Cod i'n holl staff, a'i osod ar ein mewnrwyd.

Rwyf hefyd yn gofyn i'r holl uwch reolwyr lofnodi memoranda cynrychiolaeth blynyddol i mi, yn nodi eu cyfrifoldebau ac yn cadarnhau eu bod wedi cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn 2018–19. Mae pob

un o'r uwch reolwyr wedi llofnodi'r memorandwm, ac maent yn ymwybodol fy mod yn dibynnu ar yr haeriadau hynny yn y datganiad hwn.

Ers mis Ebrill 2015, cyflwynwyd Llythyrau Awdurdodau Dirprwyedig ar gyfer pob Cyfarwyddwr – yn amlinellu eu hawdurdodau dirprwyedig (ariannol, caffael ac ati) sydd i'w cytuno ar ddechrau'r flwyddyn, i ategu'r memorandwm ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r cylch hwn wedi'i gwblhau yn 2018–19.

O ganlyniad i'r uchod, credaf fod fframwaith rheoli'r Gronfa yn rhoi'r lefel sicrwydd sydd ei hangen arnaf. Nid oes dim rwyf yn ymwybodol ohono sy'n peri i mi gredu bod ein prosesau ar gyfer canfod ac ymateb i aneffeithlonrwydd, atal gwrthdaro buddiannau, atal a chanfod twyll a lleihau colledion cymorth grant a grantiau'r Loteri yn annigonol.

**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

8 Gorffennaf 2019

## Adroddiad tâl a staff

# Tâl y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr

Roedd hawl gan bob Ymddiriedolwr i gael cyflog blynyddol am yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau CGDG.

Yn ogystal, ad-dalodd y Gronfa gostau teithio rhai Ymddiriedolwyr ar gyfer teithiau o'u cartrefi i'w swyddfa waith yng Nghaerdydd, Llundain, Caeredin neu Belfast. Darparodd y Gronfa brydau bwyd i Ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau gwledydd a rhanbarthau hefyd pan oeddent yn cynnal cyfarfodydd yn eu mannau cyflogaeth. Talodd y Gronfa'r rhwymedigaeth dreth ar yr holl gostau hyn.

Mae tâl yr Ymddiriedolwyr, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth ar hynny, yn cael ei rannu i'r bandiau yn y tabl ar y dde. Penodir pob Ymddiriedolwr gan y Prif Weinidog. Tair blynedd yw hyd y penodiadau, a gellir eu hadnewyddu am ail dymor. Nid ydynt yn aelodau o'r cynlluniau pensiwn a ddefnyddir gan CGDG. Ni wnaed unrhyw gyfraniadau gan y Gronfa at gynllun pensiwn ar ran yr Ymddiriedolwyr.

Dyrannwyd tâl yr Ymddiriedolwyr rhwng y Gronfa a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ar sail 1%: 99%. Cyfanswm tâl yr Ymddiriedolwyr yn 2018–19 oedd £210,289 (2017–18: £191,969). Caiff tâl a chontractau'r Ymddiriedolwyr eu trafod a'u gosod gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Nid yw eu contractau yn cynnwys unrhyw gymalau bonws. Ni roddwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau ac ni thalwyd unrhyw elfennau nad ydynt yn arian parod i'r Ymddiriedolwyr na'r cyfarwyddwyr.

Caiff taliadau bonws sy'n daladwy i uwch reolwyr eu datgelu ar wahân. Mae hyn yn unol â Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 359 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Ebrill 2013. Gweler y tabl ar dudalen 31.

**Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian**
Gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd y buddion cynllun pensiwn, a gronnir gan aelod ar adeg benodol, yw Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian. Y buddion a brisiwyd yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant pensiwn yw Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian, i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael

## Tâl y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr (gwybodaeth archwiliedig)

| | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Syr Peter Luff<br>Cadeirydd | **45–50** | 40–45 |
| Maria Adebowale-Schwarte<br>o 16 Mai 2018 ymlaen | **5–10** | amh |
| Y Farwnes Kay Andrews OBE | **20–25** | 20–25 |
| Anna Carragher | **20–15** | 20–25 |
| Syr Neil Cossons OBE<br>hyd at 31 Ionawr 2019 | **5–10** | 10–15 |
| Sandie Dawe CBE<br>hyd at 14 Awst 2017 | **amh** | 0–5 |
| Dr Angela Dean<br>hyd at 12 Mehefin 2018 | **0–5** | 5–10 |
| Jim Dixon | **5–10** | 5–10 |
| Dr Claire Feehily<br>o 1 Mawrth 2018 ymlaen | **10–15** | 0–5 |
| Sarah Flannigan<br>o 16 Mai 2018 ymlaen | **5–10** | amh |
| Perdita Hunt DL, OBE | **5–10** | 5–10 |
| Steve Miller | **5–10** | 5–10 |
| Richard Morris OBE<br>hyd at 16 Mai 2018 | **0–5** | 5–10 |
| René Olivieri<br>o 1 Mawrth 2018 ymlaen | **10–15** | 0–5 |
| Atul Patel MBE<br>hyd at 16 Mai 2018 | **0–5** | 10–15 |
| Y Fonesig Seona Reid DBE | **20–25** | 20–25 |
| David Stocker<br>hyd at 16 Mai 2018 | **5–10** | amh |
| Dr Tom Tew | **10–15** | 10–15 |

cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posib i fuddion o ganlyniad i dreth lwfans oes a all fod yn ddyledus pan fydd y buddion pensiwn yn cael eu tynnu.

### Cynnydd go iawn mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall). Mae'n defnyddio ffactorau prisiad marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Ac eithrio Helen Coley-Smith a Carli Harper-Penman, roedd gan bob uwch gyflogai gontractau cyflogaeth parhaol. Roedd yr holl uwch gyflogeion yn aelodau cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu gynllun alpha. Dyrannwyd eu costau rhwng Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a CGDG ar sail 99%:1% (2017–18 – 99%:1%). Penodwyd y Cyfarwyddwr Trawsnewid Busnes, Helen Coley-Smith, ar gontract cyfnod penodol yn 2017, a oedd yn adlewyrchu natur cyfyngedig cyfnod ei rôl, a ddaeth i ben yn 2018–19. Ym mis Rhagfyr 2018, daeth Carli Harper-Penman yn Gyfarwyddwr Gweithredol Treiddgarwch ac Arloesedd Busnes Dros Dro. Nid yw'n gyflogai i'r Gronfa, ond caffaelwyd ei gwasanaethau trwy asiantaeth. Roedd y Gronfa'n fodlon wrth ei chroesawu ein bod yn cydymffurfio â Nodyn Caffael Cyhoeddus 8/15 Trefniadau Treth Cyflogeion y Sector Cyhoeddus. Dilynwyd Adran 7 y Nodyn hwnnw wrth wneud y trefniadau, ac roedd

## Tâl cyflogeion (gwybodaeth archwiliedig)

Roedd tâl y Cyfarwyddwyr Gweithredol fel y'i nodir yn y tablau isod:

| | **Cyflog 2018–19 £'000** | Cyflog 2017–18 £'000 | **Bonws 2018–19 £'000** | Bonws 2017–18 £'000 | **Buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod 2018–19 £'000** | Buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod 2017–18 £'000 | **Cyfanswm 2018–19 £'000** | Cyfanswm 2017–18 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ros Kerslake OBE<br>Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu | **135–140** | 135–140 | **5–10** | 5–10 | **53** | 53 | **195–200** | 195–200 |
| Eilish McGuinness<br>Cyfarwyddwr Gweithredol: Cyflawni Busnes | **85–90** | 80–85 | **5–10** | 5–10 | **12** | 9 | **100–105** | 95–100 |
| Judith Cligman<br>Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Busnes hyd at 31 Ionawr 2019 | **80–85*** | 95–100 | **0** | 0–5 | **7** | 4 | **85–90** | 105–110 |
| Colin Bailey<br>Cyfarwyddwr Gweithredol: Gwasanaethau Busnes | **100–105** | 100–105 | **5–10** | 5–10 | **41** | 31 | **150–155** | 135–140 |
| Louise Lane<br>Cyfarwyddwr Cyfathrebu hyd at 31 Ionawr 2019 | **70–75*** | 80–85 | **0** | 0–5 | **40** | 6 | **110–115** | 90–95 |
| Helen Coley–Smith<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid Busnes o 20 Ebrill 2017 hyd at 31 Awst 2018 | **45–50*** | 100–105* | **0** | 0–5 | **18** | 41 | **60–65** | 145–150 |

| | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad £'000 | Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed a chyfandaliad £'000 | **Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31/03/19 £'000** | CETV ar 31/03/18# £'000 | Cynnidd real CETV wedi'i ariannu gan CGDG £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ros Kerslake OBE<br>Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu | 2.5–5 | 5–10 | **146** | 87 | 42 |
| Eilish McGuinness<br>Cyfarwyddwr Gweithredol: Cyflawni Busnes | 0–2.5 a 0–2.5 o gyfandaliad | 30–35 a 90–95o gyfandaliad | **685** | 603 | 11 |
| Judith Cligman<br>Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Busnes hyd at 31 Ionawr 2019 | 0–2.5 a 0–2.5 o gyfandaliad | 40–45 a 125–130 o gyfandaliad | **1,000** | 907 | 8 |
| Colin Bailey<br>Cyfarwyddwr Gweithredol: Gwasanaethau Busnes | 0–2.5 | 5–10 | **159** | 113 | 24 |
| Louise Lane<br>Cyfarwyddwr Cyfathrebu hyd at 31 Ionawr 2019 | 0–2.5 a 5–7.5 o gyfandaliad | 20–25 a 70–75 o gyfandaliad | **551** | 484 | 40 |
| Helen Coley-Smith<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid Busnes o 20 Ebrill 2017 hyd at 31 Awst 2018 | 0–2.5 | 0–5 | **41** | 29 | 9 |

* Roedd cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn Helen Coley-Smith yn 2017–18 a 2018–19 yn y band £110,000 i £115,000. Roedd cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn Judith Cligman yn 2018–19 yn y band £95,000 i £100,000. Roedd cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn Louise Lane yn 2018–19 yn y band £85,000 i £90,000

# neu ar y dyddiad penodi os oedd yn hwyrach. Mae rhai cymarebau wedi'u newid gan Swyddfa'r Cabinet yn dilyn ôl-ddiweddariad i hanes gwasanaeth unigolyny

Mae taliadau bonws sy'n daladwy i uwch reolwyr yn cael eu datgelu ar wahân neu ar sail cronedig. Mae hyn yn unol â Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 359 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Ebrill 2013.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, a 65 ar gyfer aelodau nuvos, a 65 neu oedran pensiwn y wladwriaeth, p'un bynnag sydd uchaf, ar gyfer aelodau alpha. Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer cyfarwyddwyr yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha, fel y bo'n briodol. Pan fo gan y cyfarwyddwr fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac yn alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedran gwahanol.

y Gronfa hefyd yn fodlon ar y trefniadau cydymffurfio IR35 cyn i'r gwaith ddechrau. Talwyd cyfradd o £826 y dydd i'r asiantaeth, gan roi swm blynyddol o £176,764.

Ac eithrio Carli Harper-Penman, mae tâl yr uwch reolwyr yn gysylltiedig â pherfformiad, wedi'i asesu yn erbyn amcanion unigol a chyfraniad cyffredinol at nodau corfforaethol. Caiff perfformiad a thâl ei adolygu bob blwyddyn gan y Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau yn unol â graddfa o bedair lefel cyflawniad.

## Cymhareb tâl (gwybodaeth archwiliedig)

Un o ganlyniadau Adolygiad Tâl Teg Hutton yw ei bod yn ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n derbyn y cyflog uchaf a thâl canolrif ein gweithlu.

Band tâl blynyddol y Cyfarwyddwr Gweithredol a dderbyniodd y cyflog uchaf yn 2018–19 a 2017–18 oedd £140,000 i £145,000 gan gynnwys taliad bonws. Roedd hyn tua 4.9 gwaith (2017–18: 5 gwaith) tâl canolrif y gweithlu, sef £29,043 (2017–18: £28,537). Ni dderbyniodd yr un cyflogai dâl uwch na'r Cyfarwyddwr Gweithredol sydd ar y cyflog uchaf. Roedd tâl yn amrywio o £15,000 i £140,000 (2017–18: £15,000 i £140,000). Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol sydd ar y cyflog uchaf yn destun cylch tâl y llywodraeth. Roedd hyn yn cyfyngu'r swm a oedd ar gael i ariannu codiadau cyflog staff i 1.5% o'r gyflogres.

O 2019–20 ymlaen, mae gofyn i ni ddatgelu cymhareb cyfanswm tâl y Prif Weithredwr o gymharu â'r 25ain, 50fed a'r 75ain canradd tâl staff cyfwerth ag amser llawn. Datgelir yr wybodaeth hon isod.

| | Cymhareb |
|---|---|
| 25ain canradd | 5.9 |
| 50fed canradd | 4.9 |
| 75ain canradd | 3.9 |

Fel y soniwyd yn gynharach, ymunodd Carli Harper-Penman fel Cyfarwyddwr Treiddgarwch ac Arloesedd Busnes o fis Rhagfyr 2018 ymlaen drwy asiantaeth gyflogi. Gan ddefnyddio symiau cyfwerth â chyflog blwyddyn a dalwyd i'r asiantaeth, dyma fyddai'r cymarebau:

| | Cymhareb |
|---|---|
| 25ain canradd | 1:7.2 |
| 50fed canradd | 1:6.1 |
| 75ain canradd | 1:4.8 |

## Pecynnau ymadael (gwybodaeth archwiliedig)

Fel sy'n ofynnol gan Swyddfa'r Cabinet, mae gofyn i'r Gronfa gyhoeddi manylion pob pecyn ymadael y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw. Mae diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol, ymddeoliad cynnar, iawndal am golli swydd a thaliadau ex-gratia oll wedi'u cynnwys yn y diffiniad o becynnau ymadael.

Yn ystod 2018–19, bu ail-drefnu sylweddol yn y Gronfa er mwyn cyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol yn well – y newid cyntaf o'i fath ers y gofynnwyd i ni ddosbarthu cyllid y Loteri Genedlaethol ym 1994. O ganlyniad, canfuwyd nad oedd rhai swyddi a oedd yn bodoli yn addas i'r strwythur diwygiedig. Buom yn rheoli'r newid sefydliadol yn rhagweithiol er mwyn lleihau'r posibilrwydd o golli swyddi, ond gofynnodd nifer fach o staff am becyn ymadael gwirfoddol, a chymeradwywyd hynny. Rydym yn cydnabod nad yw ein gwaith ailstrwythuro wedi dod i ben, a chytunom gyda'n hundebau llafur y byddwn yn cynnal adolygiad pellach yn 2019–20 mewn perthynas â rhai swyddi penodol.

Awdurdodwyd pob pecyn ymadael gwirfoddol gan Weithrediaeth y Gronfa a Swyddfa'r Cabinet. Dangosir manylion y taliadau yn y tabl isod – pennwyd lefelau'r rhain gan delerau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, ac nid gan y Gronfa. Roedd rhai o'r taliadau yn cynnwys iawndal yn lle rhybudd.

Roedd saith yn 2018–19 (2017–18: un) yn y bandiau canlynol:

| | **nifer 2018–19** | nifer 2017–18 |
|---|---|---|
| £5,000–£9,999 | **1** | 0 |
| £35,000–£39,999 | **1*** | 0 |
| £40,000–£44,999 | **1** | 0 |
| £45,000–£49,999 | **0** | 1 |
| £50,000–£54,999 | **1*** | 0 |
| £55,000–£59,999 | **1*** | 0 |
| £75,000–£79,999 | **1*** | 0 |
| £90,000–£94,999 | **1** | 0 |
| **Cyfanswm** | **7** | 1 |

* yn cynnwys iawndal yn lle rhybudd

Codwyd 99% o gost y pecynnau ymadael hyn o'n gweithgarwch dosbarthu Loteri Genedlaethol.

## Costau a niferoedd staff

| | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **10,346** | 9,906 |
| Taliadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr | **893** | 920 |
| Taliadau i gynllun pensiwn | **1,929** | 1,965 |
| Costau staff dros dro | **700** | 285 |
| | **13,868** | 13,076 |

Roedd nifer gyfartalog y cyflogeion a oedd yn gweithio ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol fel a ganlyn:

| **2018–19** | **Ceisiadau grant** | **Cyllid a gwasanaethau corfforaetho** | **Strategaeth a datblygiad busnes** | **Cyfathrebu** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | 183 | 32 | 25 | 19 | 259 |
| Secondeion, staff contract a phrentisiaid | 23 | 9 | 4 | 4 | 40 |
| **Cyfanswm** | **206** | **41** | **29** | **23** | **299** |

| 2017–18 | Ceisiadau grant | Cyllid a gwasanaethau corfforaetho | Strategaeth a datblygiad busnes | Cyfathrebu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | 180 | 35 | 28 | 24 | 267 |
| Secondeion, staff contract a phrentisiaid | 16 | 5 | 4 | 2 | 27 |
| Cyfanswm | 196 | 40 | 32 | 26 | 294 |

Nid yw staff dros dro a staff asiantaeth wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod gan nad yw ein systemau yn caniatáu ar gyfer casglu a chyfrifo ffigur cyfwerth ag amser llawn.

## Pensiynau

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. Cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i weision sifil o Ebrill 2015 – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i oedran pensiwn gwladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymlaen, ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi a'r mwyafrif o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae pedair adran i'r Cynllun hwn: tair sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium a classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Arhosodd aelodau presennol y Prif Gynllun a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y Prif Gynllun ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai hynny a oedd rhwng 10 mlynedd, a 13 blynedd a 5 mis, o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddion Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil pob aelod sy'n newid i alpha yn cael eu bancio, a bydd buddion y rhai hynny sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y Prif Gynllun yn cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. Caiff aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid prynu arian gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â'u cyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddion yn yng nghynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1 rhan o 80 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1 rhan o 60 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas, mae classic plus yn gyfuniad gyda buddion o ran gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â chynllun classic, a buddion am wasanaeth o mis Hydref 2002 ymlaen yn cael eu cyfrifo fel yng nghynllun premium. Yng nghynllun nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod aelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff y cyfrif pensiwn a enillodd yr aelod ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun, a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau.

Mae buddion alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, heblaw am y ffaith mai'r gyfradd gronni yw 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis cymudo pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £18,104 (2017–18: £22,773) i banel o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae CGDG yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o blith y panel o ddarparwyr. Yn ystod 2018–19, lleihawyd y panel i un cyflenwr, sef Legal & General.

Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad yn sgil salwch).

Ar hyn o bryd, mae pum aelod o staff sy'n gweithio ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol sydd â chyfrif pensiwn partneriaeth.

Bu i un aelod o staff ymddeol yn gynnar oherwydd iechyd yn ystod 2017–18.

Gellir gweld mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Er bod y cynlluniau'n rhai â buddion wedi'u diffinio, mae rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha.

Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill sy'n dod o dan y Prif Gynllun Pensiwn ac alpha yn talu cost sicrhad pensiwn a ddarperir i'r staff maent yn eu cyflogi drwy dalu costau a gyfrifir ar sail gronnus. Ar gyfer 2018–19, talwyd £1,910,660 (2017–18: £1,942,560) o gyfraniadau cyflogwr i'r Prif Gynllun Pensiwn ac alpha, heb gynnwys symiau a dalwyd i gynlluniau pensiwn partneriaeth, ar y cyfraddau a nodir isod:

| Cyflog yn 2018–19 | % yn 2018–19 |
|---|---|
| **£23,000 ac is** | **20.0%** |
| **£23,001–£45,500** | **20.9%** |
| **£45,501–£77,000** | **22.1%** |
| **£77,001 ac uwch** | **24.5%** |

Cyfrifwyd taliadau'r cyflogwr ar sail band cyflog yn unol â gwefan cynllun pensiwn y gwasanaeth sifil.


## Rheoli absenoldebau

Parhaodd absenoldeb salwch staff yn 2018–19 yn is na meincnodau cenedlaethol cymaradwy, a'r lefelau cyffredinol oedd oddeutu 1.9%, sef ychydig yn uwch na lefelau 2017–18 (gweler isod).

Gwelwyd newid sefydliadol sylweddol yn y Gronfa yn ystod 2018–19, ac aethom ati i barhau i ddarparu a hyrwyddo cymorth llesiant i staff, gan gynnwys ail-lansio ein rhaglen cymorth i gyflogeion, cefnogaeth hyfforddi personol, hyfforddiant ar-lein ar iechyd meddwl a rheoli straen, a chefnogaeth rheoli newid.

Ym mis Ionawr 2019, cyflwynodd y Gronfa system rheoli gwybodaeth Adnoddau Dynol newydd, sy'n cynnwys ffyrdd o gofnodi absenoldebau ar-lein, ynghyd â gwell adroddiadau rheoli. Bydd hyn yn helpu rheolwyr i ddeall a rheoli absenoldebau staff yn well.

Lefelau absenoldeb




## Ymgysylltu ac ymgynghori â chyflogeion

Rydym yn parhau i ymgynghori'n rheolaidd â'n staff a'u hysbysu am ein cyfeiriad strategol a'n perfformiad gweithredol. Eleni, rydym wedi ymgynghori'n helaeth â staff er mwyn ein helpu i bennu nodau Siapio ein Busnes ar gyfer y Dyfodol, sef adolygiad o'n dyluniad sefydliadol. Cymerodd dros draean o'r staff ran mewn grwpiau ffocws, arolygon a chyfweliadau. Agorwyd fforymau holi ac ateb ar-lein hefyd, a chafwyd dros 300 o gwestiynau, sy'n adlewyrchu lefel ymgysylltiad y staff mewn trafodaethau. Ymgynghorwyd yn eang ac yn ffurfiol gyda'n Hundebau Llafur, a gofynnwyd a gwrandawyd ar safbwyntiau'r staff. Ymgynghorwyd yn eang hefyd gyda'r staff fel rhan o lansio ein Fframwaith Ariannu Strategol newydd, ar y cam cyn dylunio a chyn cyflwyno.

Mae pob aelod o staff yn cael crynhoad dyddiol o'r newyddion, cylchlythyrau wythnosol yn eu diweddaru â newyddion am y Gronfa gyfan, ac mae gennym grwpiau trafod bywiog a phoblogaidd ar y cyfryngau cymdeithasol. Cynhaliwyd sawl digwyddiad 'sefydliad cyfan' gyda'r holl staff yn 2018–19. Galwyd ein Tîm Arwain at ei gilydd yn rheolaidd, gan dynnu ein rheolwyr o'n rhanbarthau a'r gwasanaethau corfforaethol ynghyd i drafod ac i ymgynghori. Ym mis Tachwedd 2018, lansiwyd mewnrwyd fawr newydd i staff, gan drawsnewid yn llwyr y ffordd mae staff yn canfod ac yn cael mynediad at newyddion, ffurflenni a gwybodaeth.

Mae'r Gronfa'n cyfarfod gyda'i phartneriaid Undebau Llafur (FDA a PCS) bob chwarter. Cynhaliwyd gwaith ymgynghori ychwanegol sylweddol yn 2018–19 mewn perthynas â'n cynigion Siapio ein Busnes ar gyfer y Dyfodol, cynigion tâl a graddio, a pholisïau Adnoddau Dynol newydd.

Dewiswyd peidio â chynnal arolwg staff llawn yn 2018–19, gan ein bod yn cydnabod na fyddai un arolwg yn caniatáu i ni ddeall y newidiadau posib yn safbwyntiau'r staff yn ystod cyfnod o ailstrwythuro sefydliadol sylweddol. O ganlyniad i hyn, cynhaliwyd nifer o arolygon ciplun 'pwls' i'n helpu ni i archwilio safbwyntiau'r staff. Yn unol â'r disgwyl, soniodd llawer o'r staff am eu pryderon, ond mae'r rhain wedi dechrau lleihau wrth i fuddion a chyfleoedd ddechrau dod i'r amlwg wrth i ni symud i'r cam ôl-gyflwyno.

## Monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth a chyflogaeth


Mae gwerthfawrogi a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant yn dal i fod wrth galon ein busnes a'n gwerthoedd. Yn ein holl weithgareddau, rydym yn parhau i gynnal ein hymrwymiad hirsefydlog i gydraddoldeb a chynhwysiant – yn ein gweithlu, wrth benodi penderfynwyr ac o ran cyrhaeddiad ein buddsoddiad. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwerth cael grŵp staff amrywiol ac aelodaeth amrywiol ar ein Bwrdd a'n Pwyllgorau. Mae'r nodau hyn yn amlwg yn ein Strategaeth Gorfforaethol ac yn ein Fframwaith Ariannu Strategol newydd.

Fel cyflogwr, nid yw'r Gronfa'n gwahaniaethu yn erbyn staff nac ymgeiswyr cymwys ar gyfer swyddi gwag ar sail rhywedd, statws priodasol, hil, lliw, cenedlaetholdeb, tarddiad ethnig, cred grefyddol, anabledd, oedran na chyfeiriadedd rhywiol. Cymerir pob cam posib i sicrhau y caiff staff eu trin yn gyfartal ac yn deg, a bod penderfyniadau ynghylch recriwtio, dethol, hyfforddiant, dyrchafu a rheoli gyrfa yn llwyr seiliedig ar feini prawf gwrthrychol sy'n ymwneud â'r swydd. Nid yw CGDG yn goddef unrhyw ffurf ar wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth.


Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y dylai amrywiaeth ein gweithlu adlewyrchu poblogaeth amrywiol gwledydd Prydain yn agosach (gweler y siartiau ar dudalen 36), ac mae'n dal i fod yn uchelgais gennym i wella hyn. Caiff staff du a lleiafrifoedd ethnig, staff LHDTQ+ a staff anabl eu tangynrychioli yn y gweithlu. Mae dynion hefyd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys swyddi ar lefelau uwch; mae 75% o'n Cyfarwyddwyr Gweithredol yn fenywod (gan gynnwys ein Prif Weithredwr), a dros hanner ein Bwrdd a'n Hymddiriedolwyr.

Mae Siapio ein Busnes ar gyfer y Dyfodol, sef ein cynllun ailstrwythuro sefydliadol, wedi mynd ati i fynd i'r afael â'r angen i bob aelod o staff yn y


### Amrywiaeth ethnig: Pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu





### Amrywiaeth rhywedd: Menywod yn y gweithlu




### Amrywiaeth anabledd: Anabledd yn y gweithlu




### Amrywiaeth cyfeiriadedd rhywedd: LHDTQ+ yn y gweithlu




sefydliad ddeall, perchnogi a hyrwyddo gweithredu ar amrywiaeth. Mae cyfrifoldebau cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael eu hail-ffocysu a'u gwreiddio ledled y sefydliad. Daeth hyfforddiant cydraddoldeb yn orfodol i bob aelod newydd o staff yn 2018–19. Diwygiwyd pob disgrifiad swydd i gynnwys cyfrifoldebau newydd a phwrpasol i hyrwyddo amrywiaeth ar gyfer pob rheolwr ac aelod o staff nad ydynt yn rheolwyr – gan weithio'n fewnol ac yn allanol gydag unigolion, cymunedau a grwpiau rhanddeiliaid. Mae manylebau recriwtio a dyrchafu swyddi hefyd yn gofyn i ymgeiswyr ddangos profiad o reoli a chefnogi amrywiaeth. Bydd ein buddsoddiad yn ein system rheoli gwybodaeth Adnoddau Dynol, a system i-recriwtio newydd yn 2019, hefyd yn ein helpu i ddeall a rheoli amrywiaeth ein gweithlu yn well.

Mae'r Gronfa'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'n dyletswyddau statudol o dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Cynhaliwn y dyfarniadau Hyderus o ran Anabledd a Buddsoddwyr mewn Pobl.

## Gwariant ar ymgynghorwyr

Gwariodd CGDG £249,000 ar ymgynghorwyr yn 2018–19 (2017–18: £261,000) fel rhan o'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol. Mae CGDG wedi defnyddio'r diffiniadau o ymgynghorwyr a geir yn atodiad 6.1 canllaw rheolaethau Swyddfa'r Cabinet: fersiwn 4.0. Roedd mwyafrif helaeth y gwaith ymgynghorol hwn yn ymwneud ag ymchwil a gynhaliwyd i'n rhaglenni grant a'r sector treftadaeth.

## Chwythu'r chwiban

Mae gan y Gronfa Bolisi Chwythu'r Chwiban clir a hygyrch i alluogi staff i godi pryderon a datgelu gwybodaeth y cred yr unigolyn ei bod yn dangos camarfer neu amhriodoldeb. Mae hyn yn ymwneud â phryderon sydd er budd y cyhoedd ac, ymhlith eraill, mae'n cynnwys y materion canlynol:

- camarfer neu amhriodoldeb ariannol neu dwyll
- methiant i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu statud
- peryglon i iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd
- gweithgarwch troseddol
- ymddygiad amhriodol neu ymddygiad anfoesegol
- ymdrechion i gelu unrhyw un o'r uchod

## Trefniadau treth cyflogeion y sector cyhoeddus

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn mynnu bod pob corff llywodraeth ganolog yn adrodd ar faterion treth uwch reolwyr a chontractwyr hirdymor. Yn benodol, mae'r Trysorlys yn mynnu bod pob uwch reolwr ar y gyflogres ac yn talu treth o dan y cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE). Nid oes trefniadau ar gyfer talu oddi ar y gyflogres. Mae'r holl aelodau staff, yr holl Ymddiriedolwyr a holl aelodau'r pwyllgorau gwledydd a rhanbarthau ar gyflogres CGDG ac felly'n talu treth a chyfraniadau yswiriant gwladol trwy'r cynllun Talu Wrth Ennill. Nid oes gennym gontractwyr nad ydynt yn bodloni canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r Gronfa yn gwneud cyfraniadau at gynlluniau pensiwn staff. Heblaw am wneud y taliadau hyn, nid oes gan y Gronfa rwymedigaethau pensiwn.

**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

8 Gorffennaf 2019

### Atebolrwydd Seneddol ac adroddiad archwilio

## Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodwyd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd y nodir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2019 a'i diffyg gweithredol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan y ddeddf honno.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ystyriaeth berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Sail y barnau**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran 'Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol' fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n gofyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Diwygiedig 2016 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad a'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'm barn.

**Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol**

Mae'n ofynnol fy mod yn dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd y rheolwyr o sail busnes gweithredol cyfrifyddu ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, p'un a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli mewn cysylltiad â digwyddiadau neu amodau a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau fel busnes gweithredol am o leiaf ddeuddeg mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Os dof i'r casgliad bod ansicrwydd perthnasol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn adroddiad yr archwilydd at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os yw'r cyfryw ddatgeliadau yn annigonol, i addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilydd. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i'r endid beidio â pharhau yn fusnes gweithredol. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

**Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â'r datganiadau ariannol**

Fel yr esboniwyd yn fwy llawn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu, yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am ymfodloni eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

**Cyfrifoldeb yr Archwilydd mewn perthynas ag archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993.

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatgan perthnasol, p'un a achoswyd hynny trwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi drwy dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol pe gellid disgwyl yn rhesymol y byddent, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerwyd ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig), rwy'n arfer barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd:

- yn nodi ac yn asesu risgiau cam-ddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed yn sgil twyll neu wall, yn cynllunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol yn deillio o dwyll yn uwch na'r risg yn deillio o wall, gan y gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, anweithredoedd bwriadol, camliwiadau, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.
- yn cael dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn dylunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.
- yn gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd, a rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan y rheolwyr.
- yn gwerthuso cyflwyniad cyffredinol, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, a ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion sylfaenol a'r digwyddiadau mewn modd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.

Rwy'n cyfathrebu â'r rheiny sydd â chyfrifoldeb am reoli, ymhlith materion eraill, mewn perthynas â'r cwmpas a'r amseru a fwriadwyd ar gyfer yr archwiliad a

chanfyddiadau archwilio o bwys,gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant yr adroddwyd amdanynt yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Gwybodaeth Arall**

Yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw fel rhannau wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilio arnyn nhw. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Mewn perthynas â fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gefais yn yr archwiliad neu wybodaeth yr ymddengys ei bod wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os ydw i, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod cam-ddatgan o bwys yn y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993; a
- chan ystyried y wybodaeth a'r dealltwriaeth o weithgareddau dosbarthu arian y Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf ddim i adrodd yn ei gylch mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu nad yw datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn oddi wrth ganghennau nad ymwelodd fy staff â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae'n ofynnol i mi eu cael ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio ag arweiniad Trysorlys Ei Mawrhydi.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf ddim sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

12 Gorffennaf 2019

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SWIW 9SP

# Y datganiadau ariannol

## Datganiad o wariant net cynhwysfawr
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019**

| | Nodiadau | £'000 | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Enillion o'r Loteri Genedlaethol | 8 | **320,002** | | 327,017 |
| Incwm buddsoddiad Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 8 | **1,640** | | 945 |
| | | | **321,642** | 327,962 |
| Llog sy'n dderbyniadwy | | **114** | | 112 |
| Incwm amrywiol | 2 | **20** | | (163) |
| **Cyfanswm incwm** | | | **321,776** | 327,911 |
| Dyfarniadau grant newydd | 10 | **(332,109)** | | (416,021) |
| Dadymrwymiadau grant | 10 | **31,271** | | 23,185 |
| | | | **(300,838)** | (392,836) |
| Costau staff | 18 | **(13,868)** | | (13,076) |
| Dibrisiad ac amorteiddiad | 5 a 6 | **(340)** | | (555) |
| Costau gweithredu eraill | 3 | **(9,660)** | | (8,073) |
| Cyfanswm costau gweinyddol | | | **(23,868)** | (21,704) |
| **Cyfanswm gwariant** | | | **(324,706)** | (414,540) |
| **Diffyg gweithredol** | | | **(2,930)** | (86,629) |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 | | | **(2,930)** | (86,629) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 58 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o newidiadau mewn ecwiti
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Cyfrif incwm a gwariant £'000 |
|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2017 | (503,869) |
| | |
| Newidiadau mewn ecwiti yn 2017–18 | |
| Diffyg a gadwyd | (86,629) |
| Balans ar 31 Mawrth 2018 | (590,498) |
| | |
| **Newidiadau mewn ecwiti yn 2018–19** | |
| Diffyg a gadwyd | (2,930) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **(593,428)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 58 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol
## ar 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau sefydlog anniriaethol | 5 | **204** | 153 |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 6 | **202** | 382 |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Buddsoddiadau – balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 8 | **338,153** | 406,811 |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 7 | **5,062** | 3,452 |
| Arian a symiau cyfwerth ag arian | | **3,097** | 388 |
| | | **346,312** | 410,651 |
| | | | |
| **Cyfanswm asedau** | | **346,718** | 411,816 |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau gweinyddol | 9 | **(3,709)** | (2,383) |
| Rhwymedigaethau grant sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | **(324,473)** | (339,007) |
| | | | |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | | **18,536** | 69,796 |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau grant sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | 10 | **(611,964)** | (660,294) |
| | | | |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **(593,428)** | (590,498) |
| | | | |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| | | | |
| Cyfrif incwm a gwariant a ddygwyd ymlaen | | **(590,498)** | (503,869) |
| Symudiad yn y flwyddyn | | **(2,930)** | (86,629) |
| Cyfrif incwm a gwariant a gariwyd ymlaen | | **(593,428)** | (590,498) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 58 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Syr Peter Luff**
Cadeirydd

**Ros Kerslake OBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

8 Gorffennaf 2019

# Datganiad llifoedd arian
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian a dynnwyd i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 8 | **390,300** | 417,908 |
| Arian o ffynonellau eraill gan gynnwys benthyciadau | 2 | **20** | (163) |
| Arian a dalwyd i gyflogeion ac ar eu rhan | | **(12,876)** | (12,743) |
| Llog a dderbyniwyd ar gyfrifon banc | | **114** | 112 |
| Arian a dalwyd i gyflenwyr | | **(10,936)** | (9,569) |
| Arian a dalwyd i dderbynyddion grant a benthyciadau | 10 | **(363,702)** | (397,659) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | 13a | **2,920** | (2,114) |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol | 13b | **(211)** | (81) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian a symiau cyfwerth ag arian** | | **2,709** | (2,195) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 58 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Cysoni llifoedd arian net â symudiad mewn cronfeydd net
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian a symiau cyfwerth ag arian yn y cyfnod | | **2,709** | (2,195) |
| **Newidiadau mewn arian a symiau cyfwerth ag arian** | 13c | **2,709** | (2,195) |
| Arian a symiau cyfwerth ag arian ar 1 Ebrill | | **388** | 2,583 |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar 31 Mawrth** | | **3,097** | 388 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 58 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Gydag un eithriad, nid oes unrhyw safonau a dehongliadau dan sylw, ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto, y mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl y byddant yn cael effaith sylweddol ar incwm ac asedau net adroddedig CGDG na'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. Disgwylir mai effaith arfaethedig fach iawn y bydd Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 9 (Offerynnau Ariannol) a 15 (Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid) yn ei chael. Bydd Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 (Prydlesi) yn cael effaith sylweddol ar ein cyfrifon ar gyfer 2019–20, yn enwedig cyfrifon gweithgarwch dosbarthu'r Loteri Genedlaethol, a ddadansoddir yn nodyn 19 isod.

### a) Confensiwn cyfrifyddu

Llunnir y cyfrifon hyn mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac a gymeradwywyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Cânt eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 2006 a Chanllaw Adrodd Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi, i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol, yn ogystal â'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Ebrill 2019. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn y Canllaw Adrodd Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Mae cyfarwyddyd cyfrifon y Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn eithrio'n benodol paratoi cyfrifon cyfunol, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio cyfrifyddu croniadau ar gyfer dyfarniadau. Mae copïau o'r cyfarwyddiadau cyfrifon cymorth grant a dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ar gael gan Ysgrifennydd y Bwrdd, Mezzanine Floor, International House, 1 St Katharine's Way, Llundain E1W 1UN.

Pan fo'r Canllaw Adrodd Ariannol yn caniatáu dewis, dewiswyd y polisi cyfrifyddu sydd fwyaf priodol i amgylchiadau penodol CGDG er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan CGDG yn y datganiad hwn. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol gan nad oes gan CGDG reswm i gredu bod gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth, ac felly mae'r Ymddiriedolwyr yn cymryd y byddant yn parhau i dderbyn cyllid gan y Loteri Genedlaethol.

Cefnogir y farn hon gan y ffaith bod yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi rhoi gwybod i'r Ymddiriedolwyr, a hynny'n fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2014, nad yw'n bwriadu newid trefniadau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth. At hynny, cynyddodd yr Adran gyfran treftadaeth arian achosion da y Loteri Genedlaethol i 20% o fis Ebrill 2012 ymlaen. Yn olaf, ni wnaeth Adolygiad wedi'i Deilwra 2017 unrhyw argymhellion i newid canran cyllid y Loteri Genedlaethol a dderbynnir gan CGDG.

### b) Asedau anghyfredol

Diffinnir asedau anghyfredol fel yr eitemau hynny a brynwyd at ddefnydd hirdymor CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol pan fo cyfanswm y gost yn uwch na £2,000. Darperir dibrisiad ar sail llinell syth ar yr holl asedau anghyfredol, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu dal o dan brydlesi cyllid, ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost neu brisiad pob ased yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Mae'r oesoedd hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Eiddo prydles fer | – oes y brydles |
| Offer swyddfa | – 4–10 mlynedd |
| Dodrefn swyddfa | – 4–10 mlynedd |
| Meddalwedd asesu grantiau a meddalwedd arall | – hyd at 5 mlynedd |

Ni chaiff unrhyw gostau wedi'u cynhyrchu'n fewnol eu cyfalafu. Mae dibrisiad yn cychwyn yn y mis ar ôl i'r ased gael ei roi ar waith.

### c) Dyrannu costau ac adrodd segmentaidd

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 8 yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu ar adroddiadau segmentaidd pan fydd hyn yn berthnasol i weithgareddau'r sefydliad. Lle bo'n berthnasol, mae uwch reolwyr yn nodi ffrydiau gweithgarwch ar wahân ac yn aseinio costau gweithredol iddynt ar sail pro rata yn seiliedig ar lefel y grant a ddyfarnwyd. Mewn achosion priodol lle roedd gwahaniaeth sylweddol yn y modd y cafodd y ceisiadau eu prosesu, byddai dulliau eraill yn cael eu defnyddio.

Mae CGDG yn cyfrif ar wahân am ei gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri, sy'n ofynnol o dan gyfarwyddyd cyfrifon y Loteri Genedlaethol. Mae'r cyfrifon ar gyfer CGDGI yn gwahanu ei hincwm a'i gwariant rhwng gweithgarwch safonol CGDG a'r Gronfa Mannau Addoli Rhestredig: Atgyweirio Toeon.

Mae CGDG yn mynd i gostau anuniongyrchol a rennir rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae gofyn i'r Gronfa ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â dogfen 'Managing Public Money', a gyhoeddir gan y Trysorlys. Mae'r dosraniad cost hwn yn ceisio adlewyrchu cyfran benodol yr amser a'r costau a ymrwymwyd i bob gweithgaredd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau cyfunol a ddosrannwyd i'n gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol oedd 99% (2017–18: 99%).

## d) Trethiant

Ni wneir darpariaeth ar gyfer trethiant cyffredinol gan fod CGDG yn statudol eithriedig o dan adran 507 Deddf Treth Incwm a Threth Gorfforaethol 1988. Nid yw'r Gronfa'n gallu adennill Treth Ar Werth (TAW) a godir arni, a chaiff y gost TAW-gynhwysol ei chynnwys o dan y disgrifiadau gwariant perthnasol yn y cyfrifon hyn.

## e) Pensiwn

Caiff cost reolaidd darparu buddion ei chodi ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn ystod oesoedd gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae bron pob aelod o'n staff yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu'r cynllun alpha newydd, ac mae Swyddfa'r Cabinet yn rhoi gwybod beth yw canran y tâl pensiynadwy cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Gweler yr adroddiad tâl a staff am ragor o fanylion.

## f) Prydlesi

Codir y rhent blynyddol ar brydlesi gweithredol ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr ar sail llinell syth ar hyd cyfnod y brydles. Pan fydd gan brydlesi sylwedd prydlesi cyllid, a'u bod yn berthnasol, ymdrinnir â nhw fel prydlesi cyllid. Caiff eitemau o dan brydlesi cyllid eu cyfalafu ar eu cost amcangyfrifedig, heb gynnwys unrhyw log a godwyd gan y prydleswr.

Codir taliadau llog sy'n ddyledus o dan delerau cytundeb y brydles i'r datganiad o wariant net cynhwysfawr ar ddyddiad pob taliad o dan y brydles. Dylid nodi y bydd yr ymdriniaeth hon yn newid o 2019–20 ymlaen, o ganlyniad i Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – ceir rhagor o fanylion yn nodyn 19.

## g) Balansau yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r balansau sy'n cael eu dal yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau o dan reolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac nid oes gan yr Ymddiriedolwyr ddylanwad dros y modd y caiff y symiau hyn eu buddsoddi. Mae cyfran y balansau hyn sydd i'w phriodoli i Ymddiriedolwyr CGDG fel y'i dangosir yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol, tystiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei bod ar gael i'w dosbarthu gan yr Ymddiriedolwyr o ran ein rhwymedigaethau cyfredol ac yn y dyfodol. Caiff cronfa wrth gefn gwerth teg ei chreu a'i haddasu ar gyfer unrhyw elw neu golled ar ailbrisio balans y Gronfa Ddosbarthu a adroddir i ni gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Byddai unrhyw addasiad yn cael ei ddatgelu yn y datganiad o newidiadau mewn ecwiti. Caiff unrhyw elw neu golled gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol wrth waredu buddsoddiadau ei ychwanegu at werth y Gronfa Ddosbarthu.

## h) Penderfyniadau grant

Cydnabyddir dyfarniadau grant fel rhwymedigaethau yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol. Pan nad oes angen cydnabod rhwymedigaethau mwyach, oherwydd nad oes ar y prosiect sy'n cael ei ariannu angen yr holl arian a neilltuwyd iddo o dan y contract grant, rydym yn lleihau gwerth y rhwymedigaethau sy'n weddill. Mae'r holl rwymedigaethau grant yn daladwy yn syth wrth dderbyn ceisiadau dilys am eu talu.

Ystyrir ymrwymiadau fel y'u diffinnir gan gyfarwyddyd cyfrifon cynharach gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2002, gan nad yw'r cyfarwyddyd cyfrifon cyfredol yn cyfeirio atynt. Mae ymrwymiadau'n cynrychioli cytundeb mewn egwyddor gan yr Ymddiriedolwyr i ariannu prosiect treftadaeth. Rydym yn eu trin fel rhwymedigaeth amodol yn nodyn 11 ar dudalen 49 oherwydd eu bod yn cynrychioli rhwymedigaeth bosib arwyddocaol y mae'n rhaid ei hystyried wrth wneud penderfyniadau am lefel yr adnoddau sydd ar gael. Ceir dau fath o ymrwymiad:

1. pan fydd y penderfyniad terfynol i ddyfarnu grant wedi'i wneud, ond nad oes contract wedi'i lofnodi eto gyda derbynnydd y grant. Pan ystyrir bod contract grant yn ei le, disgrifir yr ymrwymiad fel rhwymedigaeth lawn.
2. pan gaiff pas rownd gyntaf ei roi i brosiect treftadaeth. Er bod cyllid yn destun ail benderfyniad yn yr amgylchiadau hyn, mae'r ail benderfyniad hwn yn llawer mwy tebygol o fod yn un cadarnhaol na pheidio, ac felly credwn ei bod yn ddoeth ystyried y pas rownd gyntaf fel ymrwymiad ar yr adeg hon.

Mae dadymrwymiadau'n digwydd ar rwymedigaethau amodol pan nad yw ymrwymiad yn cael ei droi'n rhwymedigaeth lawn. Mae hyn fel arfer gan fod derbynnydd y grant yn penderfynu peidio ag ymgymryd â'u prosiect, neu oherwydd bod yr Ymddiriedolwyr yn teimlo nad oes modd ariannu pob cais ail rownd oherwydd yr angen i gadw digon o arian wrth gefn ar adeg pan fo llai o incwm yn dod o'r Loteri Genedlaethol.

### i) Benthyciadau

Mae hawl gan yr Ymddiriedolwyr i wneud benthyciadau i gyrff treftadaeth o dan gyfarwyddyd cyfrifon Loteri Genedlaethol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Gosodir cyfraddau llog a thelerau ad-dalu yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr.

### j) Cynlluniau grant ar y cyd

Pan fo CGDG yn gweithredu cynllun grant ar y cyd, yn rhannol ar ran sefydliadau eraill (ar hyn o bryd Parciau i Bobl gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (Cronfa'r Loteri Fawr gynt), y Rhaglen Lle Arbennig gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr, a Blwyddyn Pobl Ifanc gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Sport Scotland ac Ymddiriedolaeth Spirit of 2012), nid ydym yn cydnabod symiau a dderbyniwyd gan y cyrff hyn fel incwm. I bob pwrpas, caiff arian a dderbynnir gan y cyrff hyn, yn syml, ei drosglwyddo i dderbynyddion grant neu gyflenwyr. Felly, dim ond cyfran CGDG o daliadau cynlluniau grant rydym wedi'i chynnwys yn y cyfrifon hyn, gan ein bod wedi trosglwyddo cyfran y sefydliadau eraill i dderbynnydd y grant. Yn yr un modd, dim ond cyfran CGDG o wariant gweithredol ar gyfer y cynlluniau hyn rydym wedi'i datgelu, ac rydym wedi trosglwyddo unrhyw gyllid ar gyfer gwariant gweithredol a dderbyniwyd gan y sefydliadau eraill i'r cyflenwyr.

Rydym yn diffinio cynlluniau grant ar y cyd fel rhaglenni lle mae mwy nag un parti yn ymwneud â'r broses o benderfynu rhoi dyfarniad. Yn achos y rhaglen Parciau i Bobl, cynrychiolwyr CGDG I a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol sy'n penderfynu pwy y dylid dyfarnu grantiau iddynt. Yn y sefyllfaoedd hynny lle rhoddir arian i ni pan nad oes gennym unrhyw ran yn y penderfyniad ar y dyfarniad terfynol, ystyriwn y symiau hyn fel rhoddion. Os yw'r symiau a roddwyd yn deillio o'r Loteri Genedlaethol, fe'u cyfrifir yn rhodd i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol; fel arall, ystyrir bod y symiau'n rhodd i CGDG hyd yn oed os cânt eu haseinio i brosiectau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol.

### k) Ardoll brentisiaethau

Cyflwynwyd yr ardoll brentisiaethau yn 2017–18. Er bod y symiau a dalwn ar gael yn ddamcaniaethol i ariannu'n rhannol gost cyrsiau a ddilynir gan ein prentisiaid, mae'n annhebygol y byddwn yn gallu defnyddio'r symiau hyn yn llawn. Felly, mae'n bolisi gennym i ddileu'r ardoll yn y cyfnod pan wnaed y taliad, oni bai bod sicrwydd y bydd y swm yn cael ei ddefnyddio – hynny yw, mae'r prentis yn ei le ac mae'r cwrs wedi'i drefnu.

## 2. Incwm amrywiol

| | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-dalu grantiau | **20** | (163) |

Yn 2016–17, cawsom £261,000 gan Vivat Trust Ltd wrth iddo ymddiddymu'n wirfoddol; wedi hynny, cytunwyd i ddychwelyd yr arian oherwydd gwerthwyd yr eiddo a oedd yn cael cymorth grant ar yr amod y byddai hawl i'r cyhoedd gael mynediad iddo, ac felly penderfynwyd nad oedd angen ad-dalu'r grant. Dyma'r rheswm dros incwm negatif ar gyfer 2017–18.

## 3. Diffyg gweithredol

Mae'r diffyg gweithredol wedi'i nodi ar ôl codi'r canlynol:

| | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl yr archwilydd | **39** | 41 |
| Taliadau o dan brydlesi gweithredol | | |
| – safleoedd prydles | **1,328** | 1,140 |
| – llogi offer swyddfa | **5** | 8 |

Ni thalwyd ffioedd i'r archwilwyr allanol nad oeddent yn ymwneud ag archwilio. Mae dadansoddiad o gostau gweithredu eraill, gan gynnwys yr eitemau uchod, fel a ganlyn:

| | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Llety | **2,008** | 1,847 |
| Post a ffôn | **439** | 427 |
| Cyflenwadau swyddfa, argraffu a deunydd ysgrifennu | **51** | 461 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – Ymddiriedolwyr | **85** | 85 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – staff | **512** | 417 |
| Ffioedd proffesiynol – cysylltiedig â grant | **1,805** | 2,037 |
| Ffioedd proffesiynol – heb fod yn gysylltiedig â grant | **2,272** | 1,404 |
| Cyfathrebu | **494** | 418 |
| Offer swyddfa | **1,102** | 609 |
| Hyfforddi staff | **208** | 170 |
| Costau amrywiol | **684** | 230 |
| | **9,660** | 8,073 |

# 4. Costau a ailgodir

Fel y nodwyd yn nodyn 1 ar dudalen 44, gofynnir i CGDG ddatgelu ei gweithgareddau Loteri Genedlaethol ar wahân yn ei chyfrifon dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol. Mae llawer o'r costau cyffredinol yr aethpwyd iddynt yn y brif swyddfa yn Llundain o fantais i'n gweithgareddau cymorth grant a'n gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau cyfunol a ddosrannwyd i ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol oedd 99% (2017–18: 99%). Cyflawnwyd yr holl weithgareddau cymorth grant yn y brif swyddfa yn Holbein Place, Llundain. Mae costau gweithredu'r holl swyddfeydd eraill yn cael eu hailgodi'n llawn ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol.

# 5. Asedau sefydlog anniriaethol

| | Gwefan | | Technoleg gwybodaeth | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | 496 | 456 | 2,196 | 2,165 | 2,692 | 2,621 |
| Ychwanegiadau | 86 | 40 | 53 | 31 | 139 | 71 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **582** | 496 | **2,249** | 2,196 | **2,831** | 2,692 |
| Amorteiddio ar ddechrau'r flwyddyn | 456 | 421 | 2,083 | 1,910 | 2,539 | 2,331 |
| Cost am y flwyddyn | 5 | 35 | 83 | 173 | 88 | 208 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **461** | 456 | **2,166** | 2,083 | **2,627** | 2,539 |
| Gwerth llyfr net | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 40 | 35 | 113 | 255 | 153 | 290 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **121** | 40 | **83** | 113 | **204** | 153 |

Mae cyfalafu technoleg gwybodaeth yn cynrychioli datblygu ffurflenni cais electronig a system rheoli asesiadau ceisiadau. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli'r costau a anfonebwyd i CGDG gan ddatblygwyr meddalwedd. Ni chaiff costau wedi'u cynhyrchu'n fewnol eu cyfalafu.

Ni ddatgelodd adolygiad o werthoedd cost cyfredol asedau sefydlog anniriaethol ar 31 Mawrth 2019 unrhyw wahaniaeth perthnasol i werthoedd cost hanesyddol. Felly ni wnaed addasiad i adlewyrchu gwerthoedd cost asedau sefydlog anniriaethol.

# 6. Eiddo, peiriannau ac offer

| | Eiddo prydles fer | | Technoleg gwybodaeth ac offer arall | | Dodrefn swyddfa | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | **1,137** | 1,137 | **2,703** | 2,693 | **81** | 81 | **3,921** | 3,911 |
| Ychwanegiadau | **11** | 0 | **61** | 10 | **0** | 0 | **72** | 10 |
| Gwarediadau | **(505)** | (0) | **(0)** | (0) | **0** | 0 | **(505)** | (0) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **643** | 1,137 | **2,764** | 2,703 | **81** | 81 | **3,488** | 3,921 |
| Dibrisiad ar ddechrau'r flwyddyn | **1,072** | 964 | **2,386** | 2,149 | **81** | 79 | **3,539** | 3,192 |
| Cost am y flwyddyn | **44** | 108 | **208** | 237 | **0** | 2 | **252** | 347 |
| Addasiad wrth waredu | **(505)** | (0) | **(0)** | (0) | **0** | 0 | **(505)** | (0) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **611** | 1,072 | **2,594** | 2,386 | **81** | 81 | **3,286** | 3,539 |
| Gwerth llyfr net | | | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **65** | 173 | **317** | 544 | **0** | 2 | **382** | 719 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **32** | 65 | **170** | 317 | **0** | 0 | **202** | 382 |

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau ac offer. Mewn adolygiad o werthoedd cost cyfredol ar 31 Mawrth 2019, ni ddatgelwyd unrhyw wahaniaeth nodedig i werthoedd cost hanesyddol. Felly ni wnaed unrhyw addasiad i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau ac offer. Mae gwerth eiddo, peiriannau ac offer yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan gymorth grant CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol. Ar hyn o bryd, 99% ar gyfer y Loteri ac 1% ar gyfer cymorth grant yw'r rhaniad hwn (gweler hefyd nodyn 4 ar dudalen 47).

# 7. Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy

| | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **3,121** | 3,317 |
| Benthyciadau | **50** | 51 |
| Symiau eraill sy'n dderbyniadwy | **1,865** | 51 |
| Blaensymiau staff | **26** | 33 |
| | **5,062** | 3,452 |

Gyda sefydliad treftadaeth y mae'r benthyciad, ac mae'n ad-daladwy mewn dwy gyfran yn 2018 a 2023. Nid oes llog yn cael ei godi ar y benthyciad. Derbyniwyd y gyfran gyntaf, sef £50,000, yn brydlon ym mis Mawrth 2018.

Nid oedd symiau'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn (2017–18: £0) ac eithrio'r benthyciad.

O ran y symiau uchod, roedd £2,755,000 yn ddyledus gan gyrff llywodraeth ganolog. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan 30 aelod o staff flaensymiau cyflogres yn ddyledus (ar 31 Mawrth 2018, roedd 38).

# 8. Buddsoddiadau

Symudiadau balansau yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol:

| | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Costau cyfredol ar ddechrau'r flwyddyn | **406,811** | 496,757 |
| Incwm a gafwyd gan y Loteri Genedlaethol | **320,002** | 327,017 |
| Cyllid a dynnwyd i lawr gan CGDG | **(390,300)** | (417,908) |
| Adenilliad buddsoddiad Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | **1,640** | 945 |
| **Costau cyfredol ar ddiwedd y flwyddyn** | **338,153** | 406,811 |

Nid oes rhwymedigaeth i drethiant ar enillion a wireddir gan CGDG. Yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n buddsoddi'r arian hwn, ac mae'n dirprwyo'r gwaith rheoli i'r Comisiynwyr dros Leihau'r Ddyled Genedlaethol, sy'n ychwanegu eu hadenillion at y balans cyffredinol sy'n cael ei ddal. Nid oes gan Ymddiriedolwyr CGDG

reolaeth ar bolisi buddsoddi. Mae rhagor o wybodaeth am y mater hwn ar gael yn y datganiad o bolisïau cyfrifyddu.

# 9. Symiau sy'n daladwy: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau gweithredol sy'n daladwy | **880** | 711 |
| Symiau eraill sy'n daladwy gan gynnwys trethiant a nawdd cymdeithasol | **513** | 451 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **2,316** | 1,221 |
| | **3,709** | 2,383 |

Ni sicrhawyd unrhyw un o rwymedigaethau CGDG. Gellir dadansoddi'r balansau gweithredol a balansau symiau eraill sy'n daladwy fel a ganlyn:

| | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog | **593** | 465 |
| Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | **4** | 1 |
| Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus | **0** | 0 |
| Balansau y tu allan i lywodraeth | **796** | 696 |
| | **1,393** | 1,162 |

# 10. Rhwymedigaethau grant

| | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn | **999,301** | 1,004,124 |
| Rhwymedigaethau newydd a grëwyd yn ystod y flwyddyn | **332,109** | 416,021 |
| Rhwymedigaethau na chânt eu cydnabod bellach | **(31,271)** | (23,185) |
| Taliadau grant | **(363,702)** | (397,659) |
| **Cariwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn** | **936,437** | 999,301 |

Mae balans y rhwymedigaethau grant ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli'r symiau sy'n debygol o gael eu talu i ymgeiswyr

| | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Mewn blwyddyn | **324,473** | 339,007 |
| Mewn dwy flynedd | **232,784** | 258,355 |
| Mewn tair blynedd | **138,090** | 163,923 |
| Mewn pedair blynedd | **74,557** | 91,740 |
| Mewn pum mlynedd | **40,171** | 48,744 |
| Mewn mwy na phum mlynedd | **126,362** | 97,532 |
| | **936,437** | 999,301 |

Mae ymrwymiadau ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus fel a ganlyn:

| | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog | **85,262** | 102,690 |
| Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | **342,948** | 392,936 |
| Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus | **777** | 88 |
| Balansau sy'n ddyledus i ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol | **83** | 10 |
| Balansau y tu allan i lywodraeth | **507,367** | 503,577 |
| | **936,437** | 999,301 |

# 11. Rhwymedigaethau amodol

## Ymrwymiadau

| | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn | **495,369** | 661,109 |
| Ymrwymiadau a wnaed | **122,539** | 309,223 |
| Dadymrwymiadau | **(68,823)** | (58,942) |
| Rhwymedigaethau newydd a grëwyd yn ystod y flwyddyn | **(262,667)** | (416,021) |
| **Balans a gariwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn** | **286,418** | 495,369 |

Mae rhwymedigaethau amodol yn cynrychioli ymrwymiadau gwerth pasiau rownd un a roddwyd gan Ymddiriedolwyr. Pan fydd ymgeisydd yn dychwelyd gyda'r cais rownd dau, bydd yr eitemau hyn naill ai'n dod yn ddyfarniadau grant (rhwymedigaeth grant) neu'n cael eu gwrthod.

Mae'r balans rhwymedigaethau amodol wedi cwympo'n sylweddol yn ystod y flwyddyn, wrth i Ymddiriedolwyr leihau eu cyllideb grant fel rhan o bolisi i wella cronfeydd wrth gefn, a chan fod y Fframwaith Ariannu Strategol bresennol yn dod i ben.

# 12. Ymrwymiadau prydles

Mae cyfanswm y taliadau lleiaf sy'n ddyledus a gafwyd gan weithgareddau dosbarthu arian Loteri CGDG o dan brydlesi gweithredol fel a ganlyn:

| | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| **Eiddo prydles fer** | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | **953** | 1,348 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | **1,356** | 3,744 |
| Hwyrach na phum mlynedd | **0** | 1,262 |
| | **2,309** | 6,354 |
| **Prydlesi gweithredol eraill** | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | **38** | 38 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | **38** | 75 |
| Hwyrach na phum mlynedd | **0** | 0 |
| | **76** | 113 |

Roedd ein prydles ar gyfer Holbein Place, Llundain, yn destun adolygiad rhent ar 30 Medi 2014. Cynyddodd hyn y rhent i £850,000 y flwyddyn. Ym mis Mawrth 2019, cyflwynom rybudd i'r landlord y byddwn yn gadael cyn diwedd mis Medi 2019, sef adeg yr ail adolygiad rhent. Ar yr un pryd, arwyddom is-brydles i safle yn Nociau St Katharine yn Llundain. Mae hyn ar gyfer oddeutu tair blynedd a hanner, am gost o £418,000 y flwyddyn, ond daeth y swm hwnnw i lawr gyda derbyn premiwm gwrthol. Rydym mewn trafodaeth â'r landlord olaf gyda'r gobaith o ymestyn y brydles.

Yn ystod 2017–18, gadawom ein swyddfeydd yng Nghaergrawnt a Manceinion pan ddaeth y prydlesi i ben. Symudodd y ddau dîm i swyddfeydd a wasanaethir. Yn 2018–19, ail-leolwyd ein timau yng Nghaeredin, Belfast a Leeds i swyddfeydd a wasanaethir.

Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 17 yn ei gwneud yn ofynnol bod prydlesi eiddo yn cael eu rhannu rhwng eu helfennau tir ac adeiladau. Nid oes rhaniad wedi'i wneud yn y ffigurau uchod ar gyfer eiddo prydles fer gan mai ychydig iawn o dir sydd o dan y prydlesi hyn.

Mae prydlesi gweithredol eraill yn cyfeirio at lungopïwyr a pheiriannau ffrancio.

Nid oes gan CGDG ymrwymiadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer, nac ymrwymiadau cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar eu cyfer.

.

# 13. Nodiadau i'r datganiad llifoedd arian

## a) Cysoni diffyg gweithredol i fewnlif arian/(all-lif) o weithgareddau gweithredu

| | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Diffyg gweithredol | **(2,930)** | (86,629) |
| Ychwanegu'n ôl eitemau nad ydynt yn arian: | | |
| – dibrisiad ac amorteiddiad | **340** | 555 |
| – colled wrth waredu asedau sefydlog anniriaethol ac eiddo, peiriannau ac offer | **0** | 0 |
| – symudiad yn y gronfa wrth gefn gwerth teg | **0** | 0 |
| – gostyngiad yn y gronfa wrth gefn rhwymedigaethau grant | **(62,865)** | (4,823) |
| – gostyngiad yn y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | **68,658** | 89,946 |
| Cynnydd mewn symiau di-log sy'n dderbyniadwy | **(1,610)** | (814) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau di-gyfalaf sy'n daladwy | **1,327** | (349) |
| Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu | **2,920** | (2,114) |

## b) Gwariant cyfalaf

| | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol | **139** | 71 |
| Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau ac offer | **72** | 10 |
| | **211** | 81 |

## c) Dadansoddi newidiadau mewn cyllid net

| | Ar 1 Ebrill 2018 £'000 | Llifoedd arian £'000 | Ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|
| Arian yn y banc | 388 | 2,709 | **3,097** |

# 14. Trafodion partïon perthynol

Mae CGDG yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ystyrir bod yr Adran yn barti

perthynol. Yn ystod y flwyddyn, mae CGDG (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri) wedi cynnal trafodion arwyddocaol amrywiol, heblaw am ddyfarnu grantiau, gyda'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei hun ac â dau endid yr ystyrir mai'r Adran sy'n eu noddi – sef y Gronfa Loteri Fawr (y cyfeirir ati bellach fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol) a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Llofnodom brydles gyda'r Adran ym mis Mawrth 2015 i feddiannu'n swyddfa yn Birmingham hyd at fis Mai 2018. Rydym yn dal i fod yn y swyddfa, gyda'r bwriad o gymryd y brydles drosodd oddi ar yr Adran, ond nid oedd y dogfennau cyfreithiol wedi'u llofnodi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd arnom oddeutu £26,000 i'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am rent, ac £13,000 am ffioedd gwasanaeth.

Cyfrannodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol tuag at y grantiau a wnaed o dan ein rhaglen Parciau i Bobl, a thuag at gostau gweithredu'r rhaglen honno. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ddyled o £2,893,139 i CGDG, sef £119,036 ar gyfer costau gweithredu Parciau i Bobl, a £2,774,103 ar gyfer ei chyfran o daliadau grant Parciau i Bobl. Talom arian hefyd i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn; yn fwyaf nodedig, darparu gwasanaethau cyfreithiol a chaffael. Talom oddeutu £147,000 iddi yn ystod y flwyddyn, ac roedd arnom £1,000 ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwnaethom gyfraniadau yn dod i gyfanswm o £17,465 i Gyngor Celfyddydau Lloegr ar gyfer costau a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen grant ar y cyd Lle Arbennig ac ar gyfer cymorth gweinyddol i Fforwm y Loteri – grŵp sy'n cynnwys holl ddosbarthwyr arian y Loteri. Roedd £7,465 yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddodd Cyngor Celfyddydau Lloegr ad-daliad i ni hefyd ar gyfer y taliadau grant Lle Arbennig roeddem wedi'u gwneud ar ei ran. Roedd ganddo £1,303,008 yn ddyledus i ni ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwnaed trafodion perthnasol gyda Swyddfa'r Cabinet hefyd, gwerth £6,129 am waith gweinyddu pensiynau ar ein rhan; nid oedd dim yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwnaethom ailgodi tâl am gostau monitro a mentora prosiectau â chymorth grant penodol ar ganghennau llywodraeth yr Alban (Creative Scotland, Scottish Enterprise, Highlands & Islands Enterprise a Historic Environment Scotland). Daeth y bil i gyfanswm o £40,300 yn ystod y flwyddyn, ac roedd £13,313 yn ddyledus ganddynt ar ddiwedd y flwyddyn. Codom dâl hefyd ar Sport Scotland am eu cyfran o grantiau a gwaith gweinyddol ar gyfer rhaglen grant Blwyddyn Pobl Ifanc o £146,976; nid oedd dim yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Ym mis Mai 2011, llofnododd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd is-brydles ar gyfer y rhan fwyaf o lawr cyntaf swyddfeydd CGDG yn 7 Holbein Place, Llundain. Ym mis Awst 2016, lleihawyd y rhan a feddiannir gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd oddeutu hanner, a lleihawyd ei rent a'i gyfraniad at daliadau gwasanaeth yn unol â hynny. Corff cyhoeddus anadrannol yw'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd a noddir ar y cyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Ym mis Mawrth 2019, rhoddodd CGDG rybudd o dan gymal terfynu yng nghontract y brydles y byddai'n gadael yr eiddo erbyn diwedd mis Medi 2019. Buom yn hysbysu'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn rheolaidd yn ystod y cyfnod penderfynu, ac maent wedi rhoi gwybod i ni y byddant yn chwilio am lety amgen yn ystod y cyfnod hyd at fis Medi 2019. Felly, byddwn yn parhau i dderbyn incwm rhent gan y Pwyllgor tan ddiwedd mis Medi 2019, a fydd yn dod i £38,000. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn gwneud cyfraniadau o oddeutu £19,000 at gostau rhedeg Holbein Place am y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2019. Yn ystod 2018–19, codom £75,000 ar y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd am rent, a £36,000 am ffioedd gwasanaeth. Ar 31 Mawrth 2019, roedd arnom £1,000 i'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd am ffioedd gwasanaeth, ac mae'r rhan fwyaf ohono wedi'i adlewyrchu yn y cyfrifon hyn, a chyfran fach yn ein cyfrifon cymorth grant.

Fel y nodir ar dudalennau 52 i 55, roedd gan Ymddiriedolwyr CGDG fuddiannau mewn cyrff y gwnaed grantiau Loteri Genedlaethol iddynt gan y Gronfa. Yn yr un modd, roedd gan aelodau'r pwyllgorau gwledydd a rhanbarthau fuddiannau mewn prosiectau a gafodd grantiau Loteri gan eu pwyllgor neu y gwnaed sylwadau neu argymhellion amdanynt i fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor gynnal cofrestr o fuddiannau mewn cyrff treftadaeth, sy'n cael ei diweddaru bob blwyddyn gyda'n tîm Cyfreithiol a

Llywodraethu. Ar ddechrau pob cyfarfod pwyllgor neu Fwrdd, mae Ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor yn datgan unrhyw gysylltiad ag ymgeiswyr ac nid ydynt yn mynychu unrhyw ran o'r cyfarfod lle mae'r cais hwnnw am grant yn cael ei drafod.

Ni chymerant unrhyw ran yn y penderfyniad ynglŷn â dyfarnu grant nac mewn unrhyw drafodaeth am y prosiect hwnnw cyn y penderfyniad grant hwnnw nac wedyn. Mae yna reolau llym hefyd yn ymwneud â'r amgylchiadau pryd y gall Ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor dderbyn gwaith am dâl gan dderbynnydd grant. Felly, mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon na wnaeth unigolion ddylanwadu ar y broses benderfynu mewn perthynas â'r prosiectau hynny roeddent yn gysylltiedig â nhw mewn unrhyw achos.

Bydd trafodion partïon perthynol wedi digwydd yn 2018–19 hefyd, ar ffurf taliadau grant yn ymwneud â dyfarniadau a wnaed ac a ddatgelwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gan fod y trafodion partïon perthynol hynny wedi'u datgelu'n flaenorol, ni chânt eu hailadrodd yma.

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

**Cyngor Sir Norfolk (Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk)**
Grant o £745,500 (89%) – Norfolk Journeys: empowering young people to develop their own pathways into Norfolk's heritage.

Datganodd Steve Miller wrthdaro buddiannau gan ei fod yn Bennaeth ar Wasanaeth Amgueddfeydd Norfolk, yr ymgeisydd.

Grant o £8,756,800 (66%) – Norwich Castle: Gateway to Medieval England.

Datganodd Steve Miller wrthdaro buddiannau gan ei fod yn Bennaeth ar Wasanaeth Amgueddfeydd Norfolk, derbynnydd y grant.

**Amgueddfa Genedlaethol Cymru**
Grant o £820,500 (87%) – Dwylo ar Dreftadaeth

Datganodd Kay Andrews wrthdaro buddiannau gan ei bod yn aelod o Fwrdd y sefydliad a oedd yn ymgeisio.

**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
Grant o £1,609,700 (52%) – Runnymede Explored

Datganodd David Stocker wrthdaro buddiannau gan ei fod yn aelod o Gyngor yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr ymgeisydd.

Datganodd Tom Tew wrthdaro buddiannau gan ei fod wedi dod yn Ymddiriedolwr i'r sefydliad a oedd yn ymgeisio yn ddiweddar.

**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
Pas rownd gyntaf o £1,373,600 a grant datblygu o £128,900 (55%) – Skell Valley Project: revealing, restoring and celebrating the river and its heritage.

Datganodd David Stocker wrthdaro buddiannau gan ei fod yn aelod o Gyngor yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr ymgeisydd.

Datganodd Tom Tew wrthdaro buddiannau gan ei fod wedi dod yn Ymddiriedolwr i'r sefydliad a oedd yn ymgeisio yn ddiweddar.

**Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd**
Grant o £10,577,200 (56%) – Unlocking the Severn for People and WildLIFE.

Datganodd Maria Adebowale-Schwarte wrthdaro buddiannau gan ei bod yn aelod o Fwrdd Asiantaeth yr Amgylchedd, a oedd yn bartner yn y prosiect.

**Cyngor Dinas Nottingham – Treftadaeth a Dylunio Dinesig**
Grant o £1,479,500 (46%) – The People's Hall Enterprise Hub.

Datganodd Jim Dixon wrthdaro buddiannau gan ei fod ei frawd yn rhan o weithredu'r prosiect.

**Grand Opera House Trust**
Grant o £4,557,300 (39%) – Heritage take Centre Stage at Northern Ireland's Grand Opera House.

Datganodd Anna Carragher wrthdaro buddiannau gan ei bod yn gyn Gadeirydd ar y Grand Opera House Trust ac yn aelod o Fwrdd Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, a oedd yn ariannu'r Tŷ Opera.

## Aelodau pwyllgor

**Y Gymdeithas Frenhinol ar gyfer Diogelu Adar**
Pas rownd gyntaf o £637,700 a grant datblygu o £91,900 (81%) – Upland Skies: Birds of Prey in the Peak District & Sheffield.

Datganodd Geoff Nickolds wrthdaro buddiannau gan ei fod wedi bod yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Peak tan 2015, ac yn Gadeirydd ar fenter y Peak Park Birds of Prey tan fis Mawrth 2018.

**Hungerhill Developments Ltd**
Grant o £67,300 (90%) – St Ann's Allotments: Growing a Sustainable Future.

Datganodd Maureen Cooper wrthdaro buddiannau gan ei bod yn gweithio yn y rhandir, wedi'i chyflogi gan STAA Ltd, a oedd â chytundeb lefel gwasanaeth gyda derbynnydd y grant. Gadawodd yn 2016, ond mae hi wedi parhau i wirfoddoli i'r prosiect.

**Cymdeithas Gainsborough's House**
Grant o £4,453,100 (65%) – Reviving an Artist's Birthplace: A National Centre for Gainsborough.

Datganodd Helen Wilson wrthdaro buddiannau gan fod ganddi gysylltiad agos â derbynnydd y grant, a oedd hefyd yn eistedd ar y Bwrdd Diwylliannol roedd hi'n ei gadeirio.

**Cyngor Sir Norfolk**
Grant o £8,756,800 (66%) – Norwich Castle: Gateway to Medieval England.

Datganodd Helen Wilson wrthdaro buddiannau gan ei bod yn aelod o Fwrdd Sefydliad Datblygu Amgueddfa Norfolk a oedd yn gefnogol iawn o'r cais.

**Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Durham**
Pas rownd gyntaf o £507,400 a grant datblygu o £93,300 (88%) – Naturally Native.

Datganodd Jim Cokill wrthdaro buddiannau gan mai ei gyflogwr oedd yr ymgeisydd.

**Identity on Tyne**
Grant o £54,900 (100%) – Wayfinding: Diversity, Equity and Inclusion in the Great Outdoors.

Datganodd Jim Cokill wrthdaro buddiannau gan fod Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Durham (ei gyflogwr) wedi darparu cyngor a gwybodaeth a oedd wedi'u cynnwys yng nghais terfynol y prosiect.

**Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Northumberland Cyf**
Grant o £85,300 (89%) – 2020 Vision: Securing a future for nature in a climate of change.

Datganodd Lynn Turner wrthdaro buddiannau gan ei bod yn Gyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Datblygu Kielder Water & Forest Park, y mae derbynnydd y grant yn aelod ohoni, a darparodd lythyr yn cefnogi'r prosiect.

**Eglwys y Drindod Sanctaidd yn Iwerddon, Aghalee**
Pas rownd gyntaf o £173,600 a grant datblygu o £14,400 (80%) – Aghalee Parish Development Project.

Datganodd Sheila McClelland wrthdaro buddiannau gan ei bod yn aelod o'r gynulleidfa a'r Festri Dethol.

**RSPB yr Alban**
Pas rownd gyntaf o £375,300 a grant datblygu o £30,300 (90%) – SCALE: Saving Corncrakes through Advocacy, Land Management and Education.

Datganodd Stuart Housden wrthdaro buddiannau gan ei fod yn arfer bod yn Gyfarwyddwyr ar RSPB yr Alban, ac yn Gyfarwyddwr Gweithredol RSPB Prydain.

**RSPB yr Alban**
Grant o £3,488,000 (48%) – Orkney Native Wildlife Project.

Datganodd Stuart Housden wrthdaro buddiannau gan ei fod yn arfer bod yn Gyfarwyddwyr ar RSPB yr Alban, ac yn Gyfarwyddwr Gweithredol RSPB Prydain.

**Braemar Community Ltd**
Pas rownd gyntaf o £480,000 a grant datblygu o £100,000 (67%) – Braemar's Community Castle: Raising the Standard.

Datganodd Alice Mayne wrthdaro buddiannau gan fod y prosiect wedi'i leoli ym Mharc Cenedlaethol Cairngorms, ac wedi derbyn cyllid gan Cairngorms LEADER ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Cairngorms, yr oedd hi'n arfer gweithio iddynt ill dau.

**Wild Things!**
Pas rownd gyntaf o £475,700 a grant datblygu o £49,700 (63%) – Silver Saplings: Wild and Well.

Datganodd Alice Mayne wrthdaro buddiannau gan fod y sefydliad a oedd yn ymgeisio wedi cael cyllid LEADER yn ystod ei chyflogaeth, ac roedd ganddi berthynas agos gyda'r sefydliad.

**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

Grant o £1,609,700 (52%) – Runnymede Explored.

Datganodd Emily Brennan wrthdaro buddiannau gan ei bod yn gweithio i'r sefydliad, a'i bod yn rhan fawr o ddatblygu'r prosiect.

**The Landmark Trust**

Grant o £486,600 (39%) – Saving Winsford Cottage Hospital.

Datganodd Sarah Staniforth wrthdaro buddiannau gan ei bod yn Ymddiriedolwr i'r sefydliad a oedd yn ymgeisio.

**Amgueddfa Priest's House**

Grant o £982,200 (60%) – Priest's House Revival.

Datganodd Wilbert Smith wrthdaro buddiannau gan ei fod yn geidwad ac yn un o'r ddau swyddog oedd yn uniongyrchol gyfrifol am yr Amgueddfa. Roedd gan ei gyflogwr, Pwyllgor Cyngor Dosbarth Dwyrain Dorset, fudd uniongyrchol yn yr Amgueddfa.

**Plantlife International**

Grant o £433,700 (62%) – Building Resilience in South West Woodlands.

Datganodd Evelyn Stacey wrthdaro buddiannau gan ei bod yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Exmoor, a oedd yn bartner yn y prosiect.

**Yr Ymddiriedolaeth Synhwyraidd**

Pas rownd gyntaf o £191,600 a grant datblygu o £49,000 (94%) – More Than Words: making heritage accessible through co-designed inclusive sensory-rich interpretation.

Datganodd Evelyn Stacey wrthdaro buddiannau gan fod Wheal Martyn yn fuddiolwr, a'i bod yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar gyfer Wheal Martyn Enterprises Limited ar hyn o bryd.

Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan fod Cyngor Cernyw yn gyfrifol am safleoedd treftadaeth a oedd yn rhan o'r cais.

**Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Tamar Valley**

Pas rownd gyntaf o £2,277,600 gan gynnwys grant datblygu o £180,400 (66%) – Tamara Landscape Partnership.

Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan fod Cyngor Cernyw yn ariannu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Tamar Valley.

**Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Cranborne Chase a West Wiltshire Downs**

Grant o £1,676,600 (63%) – Cranborne Chase Landscape Partnership.

Datganodd Wilbert Smith wrthdaro buddiannau gan ei fod yn aelod o Banel Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Cranborne Chase.

**Panel Ieuenctid PACT Blaenafon**

Pas rownd gyntaf o £201,100 a grant datblygu o £19,900 (66%) – Llysgenhadon Ieuenctid Treftadaeth y Byd.

Datganodd James Davies wrthdaro buddiannau drwy ei waith a'i ymchwil ar Addysg Treftadaeth y Byd drwy Sefydliad Ironbridge; roedd wedi cefnogi'r prosiect hwn o'r cam cyntaf, gan gynnwys mynychu digwyddiadau a darparu llythyr o gefnogaeth ar gyfer eu cais Tynnu'r Llwch.

**Cyngor Sir Fynwy**

Grant o £10,000 (91%) – Datgelu Bywydau, nyrsys gwirfoddol Ysbyty'r Groes Goch Tŷ Gwy Cas-gwent a'u cleifion.

Datganodd Megan de Silva wrthdaro buddiannau gan ei bod yn gweithio i dderbynnydd y grant.

**Ymddiriedolaeth Cwrwgl Ironbridge**

Grant o £333,100 (69%) – Ymddiriedolaeth Cwrwgl Ironbridge.

Datganodd Jude Walker wrthdaro buddiannau gan ei bod yn Ysgrifennydd i'r Ymddiriedolaeth.

Datganodd Marion Blockley wrthdaro buddiannau gan ei bod wedi paratoi cynllun gweithgarwch y cais.

Datganodd Alan Taylor wrthdaro buddiannau gan ei fod yn Ymddiriedolwr i'r sefydliad.

**Amgueddfa Fyw y Black Country**

Grant o £9,400,000 (41%) – Black Country Living Museum: Forging Ahead – creating a world-class visitor attraction in the Black Country.

Datganodd Marion Blockley wrthdaro buddiannau gan ei bod wedi paratoi cynllun gweithgarwch y cais.

**Ymddiriedolaeth Gymunedol Hull Kingston Rovers**

Grant o £186,200 (88%) – The Heritage of Hull Kingston Rovers.

Datganodd Tony Collins wrthdaro buddiannau gan ei fod yn Gyfarwyddwr ar y sefydliad fyddai'n derbyn y grant.

**Peter Neal**

Mae Peter Neal, aelod o Bwyllgor Llundain, hefyd ar ein Cofrestr o Wasanaethau Cymorth. Mae'r Gofrestr hon yn rhestr sydd wedi bod trwy broses dendro gystadleuol ac sy'n cynnwys arbenigwyr treftadaeth, cadwraeth ac adeiladu rydym yn eu penodi i ddarparu cyngor a chanllaw ar brosiectau rydym yn eu cefnogi. Ar adeg ei benodiad, gwnaed yn glir bod gofyn i Peter gadw ei rolau penderfynu ac ymgynghori ar wahân yn llwyr. Ni all gymryd unrhyw waith ymgynghori drwy'r Gofrestr ar gyfer prosiectau yn rhanbarth Llundain a'r De tra byddo'n aelod pwyllgor; na chwaith, pan fo'i dymor yn dod i ben, o dan yr amgylchiadau hynny lle bu'n rhan o benderfynu am un ai grant datblygu neu grant darparu. Gellir ei benodi trwy'r Gofrestr i weithio mewn rhannau eraill o wledydd Prydain. Yn ystod 2018–19, gwariom £23,152 gyda'i gwmni, Peter Neal Consulting Limited.

## Staff

**Awdurdod Parc Cenedlaethol North York Moors**

Grant o £1,834,800 – Ryevitalise.

Datganodd David Renwick, Cyfarwyddwr Ardal: Gogledd Lloegr, wrthdaro buddiannau gan ei fod wedi gweithio'n flaenorol i'r sefydliad sy'n ymgeisio, a'i fod yn rhan o'r prosiect yn ystod y cam datblygu.

# 15. Offerynnau ariannol

## Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7, 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau', yn ei gwneud yn ofynnol datgelu'r rôl a chwaraeodd offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod, wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gynnal ei weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan llawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg ar gyfer CGDG nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 yn bennaf berthnasol iddynt. Nid oes gan y Gronfa bwerau i fenthyg, a dim ond cyllid sy'n deillio o gymorth grant y gall ei fuddsoddi. Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd yn hytrach na chael eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.

## Risg hylifedd

Yn 2018–19, roedd £320miliwn (99.4%) o incwm dosbarthu arian Loteri CGDG yn deillio o'r Loteri Genedlaethol. Roedd yr incwm a oedd yn weddill yn deillio o adenillion buddsoddi ar y balans a ddelir gyda Chronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, sef £1.6miliwn (0.6%), ynghyd â swm bach o log banc ac ad-daliadau grant. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod eu rhwymedigaethau grant a'u symiau eraill sy'n daladwy yn sylweddol fwy na gwerth y cronfeydd yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth 2019. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad yw eu gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol yn agored i risgiau hylifedd sylweddol gan eu bod yn fodlon y bydd ganddynt ddigon o adnoddau hylifol yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ac yn y banc i fodloni pob cais tebygol i dalu grant yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi rhoi gwybod i'r Ymddiriedolwyr, yn fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2014, nad yw'n bwriadu newid trefniadau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth. Yn wir, cynyddodd yr Adran gyfran treftadaeth arian achosion da y Loteri Genedlaethol i 20% o fis Ebrill 2012 ymlaen. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi llunio strategaeth dyfarnu grantiau hirdymor i sicrhau bod eu rhwymedigaethau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol yn unol ag asedau, a bod yr Ymddiriedolwyr yn gallu bodloni eu hymrwymiadau'n llawn. Felly, hyd yn oed pe byddai dirywiad hirdymor yn incwm y Loteri, byddai'r Ymddiriedolwyr yn addasu cyllidebau grant blynyddol i wneud iawn am hynny.

## Risg marchnad a risg cyfradd llog

Mae asedau ariannol gweithgareddau dosbarthu arian Loteri CGDG yn cael eu buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, sy'n buddsoddi mewn ystod gul o asedau risg isel fel bondiau'r llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr reolaeth dros fuddsoddi'r cronfeydd hyn. Am y ddau reswm hynny, nid ydym wedi cynnal dadansoddiad sensitifrwydd o risgiau'r farchnad. Ar

ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol, gwerth marchnad ein buddsoddiadau yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol oedd £338miliwn. Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi rhoi gwybod i ni fod cronfeydd Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi ennill 0.67% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn (2017–18: 0.35%). Mae ein balansau arian parod, sef symiau a dynnir i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i ganiatáu i ni dalu grantiau a chostau gweithredol, yn cael eu dal mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol mynediad uniongyrchol, a oedd â chyfradd llog o 0.62% yn ystod y flwyddyn.

Mae'r gostyngiad cyflym yng nghyfraddau llog y farchnad a ddigwyddodd yn 2008, ynghyd â'r cwtogiad bach yn 2016–17, wedi cael effaith sylweddol ar adenillion buddsoddi, ond gan nad oes llawer o le i gyfraddau ostwng ymhellach, mae'r risg yn fach. Bu i'r cynnydd bach mewn cyfraddau sylfaenol ym mis Tachwedd 2017 ac ym mis Awst 2018 wella'r adenillion cyfartalog ychydig. Y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £3.1miliwn. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad yw eu gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri yn agored i risgiau cyfradd llog sylweddol. Roedd gan asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol eraill gyfraddau llog o ddim.

| | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau arian parod | | |
| – sterling ar gyfraddau llog cyfnewidiol | **3,097** | 388 |
| – sterling ar gymysgedd o gyfraddau sefydlog | **338,154** | 406,811 |
| | **341,251** | 407,199 |

## Risg credyd

Rhagdaliadau, incwm cronedig (prydlesi eiddo ac ardrethi busnes yn bennaf) a balansau rhyng-lywodraeth yw'r ffigur ar gyfer symiau derbyniadwy bron i gyd. Gyda chyrff sy'n cael eu noddi gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mae'r balansau rhyng-lywodraeth yn bennaf. Ac eithrio blaendaliadau ar swyddfeydd a wasanaethir, roedd y cyfan wedi'i dalu erbyn i'r cyfrifon gael eu llofnodi, heblaw am fenthyciad nad yw'n ddyledus am nifer o flynyddoedd. Nid yw'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod eu gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri yn agored i risg credyd sylweddol.

## Risg arian tramor

Nid yw gweithgareddau dosbarthu arian Loteri CGDG yn agored i unrhyw risgiau cyfnewidfa dramor.

## Asedau ariannol yn ôl categori

| | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ariannol yn unol â'r datganiad o'r sefyllfa ariannol | | |
| – buddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu | **338,153** | 406,811 |
| – arian parod a chyfwerth ag arian parod | **3,097** | 388 |
| – benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy | **5,062** | 3,452 |
| | **346,312** | 410,651 |

## Rhwymedigaethau ariannol yn ôl categori

| | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau yn unol â'r datganiad o'r sefyllfa ariannol | | |
| – rhwymedigaethau ariannol eraill | | |
| • ymrwymiadau grant | **936,437** | 999,301 |
| • symiau gweithredol sy'n daladwy | **880** | 711 |
| • symiau eraill sy'n daladwy | **513** | 451 |
| • croniadau | **2,316** | 1,221 |
| | **940,146** | 1,001,684 |

## Gwerthoedd teg

Nodir isod gymhariaeth, yn ôl categori, o werthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth 2019.

**Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2019**

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod [1] | **3,097** | **3,097** |
| Buddsoddiadau [2] | **338,153** | **338,153** |
| Symiau sy'n dderbyniadwy [3] | **5,062** | **5,062** |
| | **346,312** | **346,312** |

**Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2018**

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod [1] | 388 | 388 |
| Buddsoddiadau [2] | 406,811 | 406,811 |
| Symiau sy'n dderbyniadwy [3] | 3,452 | 3,452 |
| | 410,651 | 410,651 |

**Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2019**

| | **Gwerth llyfr £'000** | **Gwerth teg £'000** |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau grant [4] | **936,437** | **936,437** |
| Symiau gweithredol sy'n daladwy [5] | **880** | **880** |
| Symiau eraill sy'n daladwy [5] | **513** | **513** |
| Croniadau [5] | **2,316** | **2,316** |
| | **940,146** | **940,146** |

**Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2018**

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau grant [4] | 999,301 | 999,301 |
| Symiau gweithredol sy'n daladwy [5] | 711 | 711 |
| Symiau eraill sy'n daladwy [5] | 451 | 451 |
| Croniadau [5] | 1,221 | 1,221 |
| | 1,001,684 | 1,001,684 |

Sail prisiad teg

1 Y ffigur yma yw gwerth adneuon gyda banciau masnachol. Disgwylir i werth llyfr fod yn gyfwerth â gwerth teg.

2 Rheolir buddsoddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ef neu hi sy'n rhoi manylion i'r Ymddiriedolwyr am werth llyfr a gwerth teg ein balansau ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

3 Ni thybir bod darpariaeth ar gyfer drwgddyledion yn angenrheidiol. Nid yw'r un o'r dyledion yn rhai hirdymor heblaw am un benthyciad hirdymor.

4 Er ein bod yn datgelu £612miliwn o ymrwymiadau grant nad ydynt yn ddyledus tan ar ôl blwyddyn yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae gan yr Ymddiriedolwyr rwymedigaeth drwy gontract i dalu'r symiau hyn ar gais, yn amodol ar gontract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf os yw'r prosiectau treftadaeth perthnasol yn symud ymlaen yn gyflymach na'r disgwyl.

5 Mae'r holl symiau taladwy yn ddyledus o fewn telerau cytundebol arferol, sef 14–30 diwrnod fel arfer, ac felly nid oes gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth teg.

## Rhwymedigaethau ariannol sy'n aeddfedu

| | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Mewn llai na blwyddyn | **940,146** | 1,001,684 |
| Mewn mwy na blwyddyn, ond llai na dwy flynedd | **0** | 0 |
| Mewn dwy i bum mlynedd | **0** | 0 |
| Mewn mwy na phum mlynedd | **0** | 0 |
| | **940,146** | 1,001,684 |

Mae'r datganiad o'r sefyllfa ariannol yn datgelu'r ffigurau uchod wedi'u gwahanu rhwng symiau sy'n ddyledus mewn llai na blwyddyn a symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn. Nid yw ein contractau â derbynyddion grant yn cynnwys rhaniad rhwng symiau sy'n ddyledus mewn llai na blwyddyn a mwy na blwyddyn. Mae'r rhaniad a adroddir yn y cyfrifon hyn wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar ein profiad blaenorol o symiau a dynnwyd i lawr gan dderbynyddion grant i ariannu eu prosiectau. Yn ddamcaniaethol, gallai derbynyddion grant fynnu cael eu grant cyfan o fewn y 12 mis nesaf os yw eu prosiectau wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod hwnnw. Felly, rydym wedi defnyddio dull gochelgar ac wedi dangos aeddfedrwydd yr holl rwymedigaethau o fewn blwyddyn.

# 16. Datganiad o golledion a thaliadau arbennig

Gwnaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol golledion drwy ddiddymu 13 grant yn dod i gyfanswm o £200,370 yn ystod y flwyddyn (2017–18: 35 grant yn dod i gyfanswm o £369,764). Ni wnaed unrhyw daliadau arbennig sydd angen eu datgelu yn y cyfrifon (2017–18: £0)

# 17. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiad ar ôl 31 Mawrth 2019 hyd at y dyddiad y llofnododd y Swyddog Cyfrifyddu y cyfrifon hyn y mae angen eu datgelu. Awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi ar 12 Gorffennaf 2019 gan yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu ar y dyddiad y'u hardystiwyd gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

# 18. Costau staff

Roedd costau staff ar gyfer 2018–19 fel a ganlyn:

| | **2018–19 £'000** | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **10,346** | 9,906 |
| Taliadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr | **893** | 920 |
| Taliadau i gynllun pensiwn | **1,929** | 1,965 |
| Costau staff dros dro | **700** | 285 |
| | **13,868** | 13,076 |

# 19. Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried effaith gweithredu ymrwymiadau prydles ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Bydd yn effeithio ar ein hadroddiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2019–20 a'r tu hwnt. Fodd bynnag, mae gofyn i ni hefyd ddangos beth fydd yr effaith ar ein ffigurau ar gyfer 2018–19.

Ychydig cyn diwedd 2018–19, cymerom brydles weithredol drosodd ar gyfer rhan o International House ym mwrdeistref Tower Hamlets, Llundain. Mae gan y brydles hon dair blynedd a hanner arall ar ôl. Roedd gennym brydlesi oedd â mwy na blwyddyn ar ôl hefyd, ar gyfer ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Newcastle a Nottingham – does dim prydles gennym ar hyn o bryd ar gyfer ein swyddfa yn Birmingham, ond rydym yn disgwyl llofnodi un yn fuan. Fel costau cyffredinol ar y cyd eraill, mae cyfrifon Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn adlewyrchu 1% o'r gost, ac mae'r 99% arall yn cael ei datgelu yn ein cyfrifon dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol. Isod rydym yn gosod beth fyddai'r effaith wedi bod ar ffigurau 2018–19 pe bai Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 wedi bod ar waith y flwyddyn honno.

Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr ar gyfer 2018–19 cyn Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16: £2,930,000

Cymhwysiad Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 (£109,000)

Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr ar gyfer 2018–19 ar ôl Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16: £3,039,000

Balans ar y cyfrif Incwm a Gwariant ar 31 Mawrth 2019 cyn Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16: £593,428,000

Cymhwysiad Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 (£12,000)

Balans ar y cyfrif Incwm a Gwariant ar 31 Mawrth 2019 ar ôl Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16: £593,440,000

Nid oes effaith ar ein llifoedd arian.

Nid ydym yn ystyried bod unrhyw rai o'n prydlesi gweithredol eraill yn berthnasol, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

# Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017

O dan yr offeryn statudol hwn, mae gofyn i ni ddatgelu gwybodaeth am amser cyfleuster undebau llafur a gwariant cyflogeion perthnasol. Mae'r wybodaeth hon yn ymdrin â'n gweithgareddau cymorth grant a dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol. Rydym wedi dosrannu costau ar y cyd rhwng Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i'r gymhareb 99:1.

### Swyddogion undeb llafur perthnasol

Nodwch gyfanswm nifer eich cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol.

| | |
|---|---|
| Nodwch gyfanswm nifer eich cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol. | 23 |
| Nifer cyfwerth ag amser llawn | 23 |

### Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster

Sawl un o'ch cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd yn ystod y cyfnod perthnasol a oedd yn treulio:

a) 0%,

b) 1%–50%,

c) 51%–99% neu

d) 100% o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster?

| Canran yr amser | Nifer y cyflogeion |
|---|---|
| 0% | 1 |
| 1–50% | 22 |
| 51%–99% | 0 |
| 100% | 0 |

### Canran y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster

Rhowch y ffigurau y gofynnir amdanynt yng ngholofn gyntaf y tabl isod i bennu canran cyfanswm eich bil tâl cyfan a wariwyd ar dalu cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol am amser cyfleuster yn ystod y cyfnod perthnasol.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm cost amser cyfleuster | £31,958* |
| Cyfanswm y bil tâl | £12,872,000* |
| Canran cyfanswm y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster, a gyfrifir fel: (Cyfanswm cost amser cyfleuster ÷ Cyfanswm bil tâl) x 100 | 0.25% |

* Yn cynnwys pensiwn ac yswiriant gwladol

### Gweithgareddau undeb llafur taledig

Fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster taledig, sawl awr a dreuliodd cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ar weithgareddau undeb llafur taledig?

| | |
|---|---|
| Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur taledig fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster taledig a gyfrifir fel: (cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur taledig gan swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ÷ cyfanswm yr oriau amser cyfleuster taledig) x 100 | 100% |

# Cyfarwyddiadau polisi

Mae'r llywodraeth yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol o dan Ddeddf 1993. Daeth y cyfarwyddiadau rydym yn adrodd ar eu cyfer i rym yn 2008. Fel o'r blaen, mae'r rhain yn faterion sydd i'w hystyried wrth ddosbarthu arian. Ar yr un pryd, cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarwyddiadau polisi yn ymwneud ag arian a ddosberthir yng Nghymru, ac yn 2011 cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban gyfarwyddiadau ar gyfer arian a ddosberthir yn yr Alban. Mae'r rhain yn cyd-fynd â chyfarwyddiadau Prydain gyfan, ac fe'u hatgynhyrchir yn llawn ar dudalennau 67 i 69.

Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyfarwyddiadau polisi newydd ar gyfer gwledydd Prydain ac ar gyfer Lloegr. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth yr Alban hefyd yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi newydd ar gyfer Cymru a'r Alban yn 2019. Byddwn yn adrodd yn erbyn y rhain am y tro cyntaf yn adroddiad blynyddol 2019–2020.

## a) Anghenion y dreftadaeth

> "Asesiad Cronfa Dreftadaeth y Loteri (fel yr oedd) o anghenion y dreftadaeth genedlaethol a'u blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â nhw."

Yn 2018–19, arhosodd y galw am arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer treftadaeth yn uchel. Yng nghyd-destun gostyngiad yn incwm y Loteri Genedlaethol, roeddem yn gallu ymrwymo £332.1miliwn mewn dyfarniadau, yn erbyn ceisiadau gwerth £703miliwn (41% yn llai na ffigurau 2017–18, yn rhannol oherwydd gohiriad ar geisiadau mawr yn y chwarter diwethaf, wrth i ni drosglwyddo i Fframwaith Ariannu Strategol newydd).

Dyma oedd y chweched flwyddyn, a'r flwyddyn olaf, lle roeddem yn gweithredu o dan Fframwaith Strategol 2013–2019. Rydym wedi parhau i gefnogi'r sector mewn amgylchedd gweithredu heriol, ar yr un pryd â datblygu a lansio ein Fframwaith Ariannu Strategol ym mis Ionawr 2019. Mae ein hymgynghoriad eang gyda'r cyhoedd a sefydliadau sydd â diddordeb mewn treftadaeth wedi'n galluogi ni i asesu anghenion treftadaeth genedlaethol a'r blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â nhw yn ein Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024.

Mae rhaglenni fel Treftadaeth Gydnerth a'r Cynllun Lle Arbennig wedi parhau i fynd i'r afael â'r angen i gynyddu cydnerthedd mewn sefydliadau treftadaeth, gwreiddio diwylliant mewn cynlluniau a phrosesau penderfynu lleol, a chefnogi twf. Cyhoeddwyd prosiectau Lle Arbennig yng Nghymru, yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon a oedd yn mynd i'r afael ag anghenion unigol pob gwlad. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gyllido ymgyrch £1miliwn i ddenu prosiectau o ansawdd er mwyn cynyddu capasiti digidol y sector treftadaeth fel rhan o brosiect Diwylliant Digidol yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Parhaodd Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf i ddenu llawer o ddiddordeb ymhlith y cyhoedd a'r cyfryngau. Mae'r Gronfa wedi dyfarnu dros £98miliwn i 2,321 o brosiectau a oedd yn nodi'r Canmlwyddiant, gan gynnwys grantiau mawr i Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol ar gyfer HMS Caroline (£15,086,100), yr Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol (£16.5miliwn), rhaglen ddiwylliannol 14–18 NOW (£10miliwn), yr Amgueddfa Danciau (£2,709,600) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i warchod yr Ysgwrn, cartref Hedd Wyn (£2,972,500). Ar ddiwedd ein rhaglen grantiau bach, sef y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw, roeddem wedi dyfarnu £15.3miliwn i 1,819 o brosiectau, gyda 57% o'r sefydliadau yn cael grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol am y tro cyntaf, o gymharu â 41% ar draws y rhaglen gyfan. Rydym wedi ariannu prosiectau Canmlwyddiant yn 98% o ardaloedd awdurdodau lleol gwledydd Prydain.

Daeth y mesurau ymatebol newydd, a ddechreuwyd yn 2016–17 i fodloni'r angen cynyddol a'n blaenoriaethau ar gyfer sector treftadaeth mwy cynhwysol, i ben eleni, ond mae prosiectau'n dal i gael eu cwblhau. Mae'r rhain yn cynnwys y rhaglenni Treftadaeth Gydnerth, y rhaglenni Gwaddolion Treftadaeth a Sgiliau ar gyfer y Dyfodol, a'r rhaglen Tynnu'r Llwch i bobl ifanc. Caewyd pob un o'n rhaglenni wedi'u targedu, a byddwn yn parhau i fynd i'r afael â holl anghenion maes treftadaeth drwy ein rhaglen agored a thrwy ymgyrchoedd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol dros y pum mlynedd nesaf.

Roedd ein cymunedau ar-lein yn ganolbwynt ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgwyd ac arfer da ar draws y sector. Yn 2018–19, cynhaliwyd sgyrsiau byw ar faterion megis hygyrchedd a chynhwysiant i bobl anabl, codi arian a gwaddolion, treftadaeth gyfoes a menywod mewn rolau nad ydynt ynddynt yn draddodiadol. Parhawyd â'r fforwm Cynllun Lle Arbennig a fforymau penodol i raglenni ar

Bartneriaethau Tirwedd, pobl ifanc a threftadaeth, sgiliau a chydnerthedd i ddarparu canolbwynt i'r rheiny sy'n rhannu diddordeb yn y themâu hyn.

## b) Cynnwys y cyhoedd

> "Yr angen i gynnwys y cyhoedd a chymunedau lleol wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu arian."

Bu i ymgynghoriad helaeth â rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys y cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol, lywio ein Fframwaith Ariannu Strategol newydd a lansiwyd ym mis Ionawr. Datgelodd ein hymgynghoriad â chwaraewyr y Loteri Genedlaethol lawer o frwdfrydedd ac awydd am gyfranogiad y cyhoedd yn ein gwaith a'r prosiectau rydym yn eu cefnogi.

Penodwyd holl aelodau ein pwyllgorau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban drwy recriwtio agored. Yn 2018–2019, ni phenodwyd unrhyw aelodau newydd oherwydd ein trosglwyddiad i strwythur rhanbarthol newydd.

Rydym hefyd yn gofyn i sefydliadau rydym yn eu hariannu ddangos sut maent wedi dod â'u cymuned leol a phartneriaid eraill yn rhan o waith datblygu eu cynlluniau. Yn ein Fframwaith Ariannu Strategol newydd, rydym wedi ymrwymo i archwilio a threialu opsiynau eraill ar gyfer dod â'r cyhoedd yn rhan o'n gwaith dros y pum mlynedd nesaf.

Drwy gydol y flwyddyn, casglwyd safbwyntiau ar ddeunyddiau cais a phrosesau gyda chwsmeriaid ar gyfer grantiau ar bob lefel, i roi gwybod am y newidiadau a oedd yn cael eu gweithredu gyda'r Fframwaith Ariannu Strategol newydd yn 2019. Byddwn yn parhau i wneud hyn yn y flwyddyn i ddod er mwyn llywio datblygiad system rheoli buddsoddiadau newydd, a fydd yn cynnig profiad llawer gwell i gwsmeriaid o 2020 ymlaen.

## c) Mynediad a chyfranogiad

> "Yr angen i gynyddu mynediad a chyfranogiad i'r rheiny nad ydynt yn elwa ar hyn o bryd ar y cyfleoedd treftadaeth sydd ar gael yng ngwledydd Prydain"

Wrth i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol barhau i hyrwyddo cynhwysiant fel blaenoriaeth strategol graidd, rydym yn falch iawn o weld cynnydd mewn prosiectau a arweinir gan bobl ag anabledd. Ers 1994, mae'r Gronfa wedi dyfarnu mwy na £45miliwn i 978 o brosiectau lle mae pobl anabl yn cyfrannu sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth.

Mae amlygu cyfraniadau pobl anabl, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, i ddiwylliant gwledydd Prydain yn y gorffennol a heddiw, wedi bod yn ffocws cynyddol i'r Gronfa.

Gan adeiladu ar lwyddiant Clywed y Cyn-guddiedig gan Mencap Cymru yn 2016, mae pobl ag anableddau dysgu unwaith eto'n arwain prosiect o'r enw Ein Rhwydweithiau Cymdeithasol, yn archwilio rôl cyfeillgarwch a pherthnasau agos ym mywydau pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru.

Ledled Lloegr, yn 2018–19 gwelwyd lansiad llwyddiannus Sensing Culture, prosiect partneriaeth gydag RNIB a phum amgueddfa bartner yn Ne Ddwyrain Lloegr, a chynhaliwyd Heritage Ability mewn 20 lleoliad yn Nyfnaint, Dorset, Cernyw, Gwlad yr Haf a Chaerloyw. Dan arweiniad Living Options yn Nyfnaint, datblygodd pobl anabl a defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain brofiadau hygyrch a diddorol gyda'r llefydd sy'n arbennig i ni. Roedd canllawiau Hawdd eu Darllen, fformatau print bras a theithiau Iaith Arwyddion Prydain ymhlith yr adnoddau a ddefnyddiwyd i alluogi pobl i gymryd rhan mewn ystod eang iawn o safleoedd treftadaeth.

Dan arweiniad Accentuate in Folkestone, datblygodd History of Place arddangosfeydd anhygoel, adnoddau a theclynnau hygyrch ledled Lloegr, gan archwilio 800 mlynedd ac wyth safle yn hanes pobl fyddar ac anabl. Drwy ddod â phobl ifanc fyddar ac anabl yn rhan o'r gwaith drwy ymchwilio a datblygu adnoddau, roedd modd i'r prosiect gyrraedd ystod eang iawn o gynulleidfaoedd, gan ymweld â chanolfannau celfyddydau, gwyliau ac amgueddfeydd. Roedd ymateb cadarnhaol iawn i hygyrchedd gwefan History of Place, a chafwyd llawer o sylwadau brwdfrydig ar y cyfleoedd cyfranogi sydd i ddod.

Mae cydnabod bod defnyddio ystod creadigol o arddulliau dysgu yn ymestyn hygyrchedd ac yn cynyddu cyfranogiad wedi golygu bod holl gymhlethdod treftadaeth yn parhau, ac yn cael ei archwilio gan gymunedau'n barhaus, drwy esblygu'n gyson mewn ffyrdd dychmygus, yn aml yn dibynnu ar gyd-destun lleol. Er enghraifft, mae hyn wedi golygu y defnyddiwyd theatr, animeiddio, ffilm a sgiliau creadigol eraill i ymchwilio, archwilio a rhannu treftadaeth. Yn 2018, defnyddiwyd yr holl ddulliau hyn i arddangos profiadau menywod ar draws cenedlaethau ledled Prydain, yn y gorffennol a

heddiw, yn ystod blwyddyn canmlwyddiant ers i fenywod gael y bleidlais ym 1918.

Roedd tecstilau, ailgylchu ffabrigau a sgiliau crefft yn ganolog i Worn Stories, prosiect a arweiniwyd gan y gymuned yn Bradford, dan arweiniad elusen celfyddydau gymunedol Hive a'r artist Claire Wellesley-Smith. Roedd y prosiect yn archwilio gwaddol hanes tecstilau yn Swydd Efrog drwy dechnegau hardd, isel eu cost, ac roedd yn cynnwys cannoedd o bobl leol. Arweiniodd Worn Stories at arddangosfa yn Amgueddfa Ddiwydiannol Bradford, ac roedd yn cynnwys menywod o gymunedau ethnig lleiafrifol lleol, archifwyr, gwirfoddolwyr â phrofiad o weithio mewn siopau elusen, a llawer mwy, yn rhannu sgiliau crefft ymarferol, profiadau personol a gwybodaeth broffesiynol am decstilau. Mae canlyniadau ysbrydoledig y prosiect hwn wedi golygu bod llawer o gyfranogwyr yn parhau i gwrdd, rhannu sgiliau tecstilau a gwneud defnydd cynyddol o adnoddau treftadaeth lleol gyda rhagor o wybodaeth a hyder.

## d) Plant a phobl ifanc

> "Yr angen i ysbrydoli plant a phobl ifanc, gan ennyn eu diddordeb a'u cyfranogiad yn y gweithgareddau y mae achos da'r dreftadaeth yn ymwneud â nhw."

Drwy'r rhaglen Tynnu'r Llwch, sef ein buddsoddiad £10.4miliwn mewn gwaith gyda phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, mae pob un o 12 prosiect consortiwm y sefydliadau ieuenctid a threftadaeth wedi dechrau'r cam cyflawni. Mae'r prosiectau'n fentrus ac ar raddfa fawr, gyda'r nod o gynyddu ansawdd ymgysylltiad pobl ifanc gyda threftadaeth.

Mae prosiectau Tynnu'r Llwch wedi dechrau cyflawni ystod eang o weithgareddau ar draws treftadaeth ddiwydiannol, naturiol a diwylliannol, gyda ffyrdd amrywiol o ysgogi pobl ifanc, o argraffu 3D a realiti estynedig, i daflu bwyelli, pypedwaith cysgod a rheoli cynefinoedd, a llawer mwy o gyfleoedd creadigol i ddatblygu diddordeb mewn treftadaeth. Mae pob un o'r 12 prosiect wedi sefydlu cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu ac archwilio treftadaeth, i'w gwneud yn berthnasol iddyn nhw. Rhan bwysig o'r prosiectau yw eu bod yn cefnogi pobl ifanc i ddod yn gyd-gynhyrchwyr, yn arweinwyr, ac yn benderfynwyr ym mhob prosiect ac ym maes treftadaeth yn ehangach.

Mae Tynnu'r Llwch wedi effeithio ar bobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r rhaglen gymaint â sefydliadau treftadaeth a sut maent yn gweithio gyda phobl ifanc a'r sector ieuenctid nawr ac yn y dyfodol. Bydd yr her a'r hyn y bydd y sector treftadaeth yn ei ddysgu yn ei annog i geisio dod â newid hirdymor i ddiwylliant ac arferion sefydliadau treftadaeth.

Cwblhaodd y Llysgenhadon Treftadaeth – y "#TaflwyrLlwch" – werthusiad o'u cyfranogiad â'r Gronfa, a'u rôl gyda Thynnu'r Llwch. Mae rhai Llysgenhadon Treftadaeth wedi mynd ymlaen i roi cyngor a chefnogaeth i brosiectau unigol Tynnu'r Llwch, ac mae un Llysgennad Treftadaeth wedi dod yn ymddiriedolwr elusen Plant mewn Amgueddfeydd.

Mae ein rhaglen Gwreiddiau Ifanc, sy'n dyfarnu grantiau o £10,000 i £50,000, wedi parhau i gefnogi ystod eang o brosiectau sy'n canolbwyntio ar waith ieuenctid eleni. Yn 2018–19, rydym wedi buddsoddi dros £3.2miliwn mewn 157 prosiect ledled gwledydd Prydain. O ganlyniad, mae miloedd o bobl ifanc wedi dysgu am dreftadaeth, datblygu sgiliau newydd a hyder, a gwneud gwahaniaeth i'w cymuned leol.

## e) Cymunedau

> "Yr angen i feithrin mentrau sy'n dod â phobl ynghyd, sy'n cyfoethogi tir y cyhoedd ac yn cryfhau cymunedau."

Yng nghyd-destun rhaniadau cymdeithasol a gwleidyddol heddiw, ledled Prydain ac yn rhyngwladol, mae rôl treftadaeth i ddod â chymunedau sydd â phrofiadau gwahanol at ei gilydd yn dal i fod yn hollbwysig. Trwy ymatebion amrywiol chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i'r ymgynghoriad fframwaith ariannu, rydym yn gwybod bod rôl treftadaeth wrth gyflawni effaith gymdeithasol a buddiannau i gymunedau yn hynod bwysig. Yn 2018, dathlwyd 70 mlynedd ers cyrhaeddiad yr 'Empire Windrush' gyda dros 25 o brosiectau yn nodi cyfraniadau miloedd o ddynion a menywod Caribïaidd-Prydeinig i wledydd Prydain, yn y gorffennol ac ym mywyd cyfoes Prydain. Roedd prosiectau yn nodi'r pen-blwydd nodedig hwn yn amrywio o brosiect rhwng cenedlaethau dan arweiniad y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd yn Abertawe, i archwiliad ehangach o hil a hunaniaeth There IS Black in the Union Jack, dan arweiniad Rhwydwaith Pobl Dduon De Orllewin Lloegr.

Mae prosiectau treftadaeth yn ffordd dda o ddefnyddio profiadau cymunedau a gwybodaeth

leol i archwilio hanesion mudo, ac ehangu trafodaethau am hunaniaethau cenedlaethol, gan archwilio meysydd cymhleth o brofiad gydag elfen wahanol, gan ein galluogi i gyd i edrych yn ôl a chael budd yn y broses.

Mae partneriaethau a ddatblygwyd yn ystod y broses hon yn aml yn parhau ar ôl cwblhau'r prosiect, gan arwain at gynghreiriau newydd ar draws cenedlaethau neu rhwng cymunedau.

Mae Liberal Judaism wedi arwain nifer o brosiectau treftadaeth diddorol ac o ansawdd gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, sy'n adeiladu ar ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'n gilydd. Mae ystod eang o bobl yn rhan o gynllunio a darparu arddangosfeydd ystyrlon ar draws ystod o leoliadau cenedlaethol ac ar-lein, gan ddod â chymunedau gwahanol iawn ynghyd i archwilio profiadau a rennir a phrofiadau gwahanol o ffydd, hunaniaeth a threftadaeth. Drwy gydol 2018, bu'r daith genedlaethol a rhaglen ddigwyddiadau Rainbow Pilgrims yn archwilio defodau newid byd mudwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws, queer a rhyngrywiol, ac yn arddangos mewn prifysgolion, amgueddfeydd, archifau a chanolfannau cymunedol. Mae gwerthusiad y prosiect hwn yn dangos y manteision eang i gymunedau o bob oed, gan gynnwys cyfraniadau tuag at iechyd meddwl, heriau cyfoes a chreadigol i stigma, ac ymwybyddiaeth ehangach o gymhlethdod hunaniaeth a threftadaeth. Ariannwyd 19 prosiect i gyd yn amlygu treftadaeth pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn 2018–19, gan ddod â phobl ynghyd a chryfhau profiad cyffredinol o fywyd cymunedol ledled gwledydd Prydain.

## f) Gwirfoddolwyr

> "Yr angen i gefnogi gwirfoddolwyr, ac annog gweithgarwch gwirfoddoli, mewn treftadaeth."

Mae gwirfoddolwyr yn ganolog i gynaliadwyedd y sector treftadaeth, ac mae'r rhan fwyaf o brosiectau rydym wedi'u hariannu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys gwirfoddolwyr. Rydym wedi cefnogi prosiectau sydd wedi annog ystod ehangach o bobl i wirfoddoli, gan agor ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli i bobl o bob oed, a helpu gwirfoddolwyr i ddatblygu diddordebau a sgiliau newydd. Rydym yn darparu canllaw arfer da i sicrhau y caiff gwirfoddolwyr eu rheoli a'u cefnogi'n iawn, gan gynnwys teithio a threuliau, a chydnabod y gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud. Rydym hefyd wedi ariannu ystod eang o sefydliadau a arweinir gan wirfoddolwyr, ac wedi cefnogi gwaith adeiladu capasiti i gyflawni prosiectau treftadaeth.

Yn 2018–19, cynhaliom beilot o raglen o grantiau bach, a oedd yn dyfarnu grantiau o dan £3,000. Roedd llawer o dderbynyddion y grantiau yn grwpiau a arweinir gan wirfoddolwyr, gan gynnwys grwpiau Cyfeillion.

Yn dilyn y peilot hwn, rydym wedi cynnwys grantiau llai yn ein Fframwaith Ariannu Strategol. Gall unrhyw gais am dros £10,000 o dan Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol nawr gynnwys cynllun grantiau cymunedol, a all roi grantiau gweithgarwch a chadwraeth ar raddfa fach. Rydym yn gobeithio y bydd y dull newydd hwn yn galluogi sefydliadau i ymateb i anghenion lleol. Bydd hyn yn helpu i gefnogi gweithgarwch gan wirfoddolwyr a sefydliadau gwirfoddol bach, lle nad oes capasiti i ymgeisio nac i gyflawni prosiectau mwy.

## g) Sgiliau

> "Yr angen i annog arloesedd a rhagoriaeth, a helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau."

Mae carfan olaf 18 prosiect Sgiliau ar gyfer y Dyfodol (Carfan 3) yn parhau i gyflawni dulliau arloesol o sicrhau recriwtio cynhwysol a rhagoriaeth mewn darparu sgiliau. Dyfarnwyd Gwobr Herbert Crow Company of Carmen i'r Ymddiriedolaeth Hyfforddi Sgiliau Boeleri a Pheirianneg am fynd i'r afael â'r cwymp mewn peirianwyr medrus ym maes stêm treftadaeth. Enillodd Museums Galleries Scotland Wobr Dewisiadau Creadigol yn y Gwobrau Sgiliau Creadigol a Diwylliannol eleni, am y rhaglen Success. Yn ogystal, mae'r prosiectau Skills for Success a Skills for the Future a ddarparwyd gan Next Step Initiative wedi'u cydnabod fel arfer gorau yn y Cynllun Buddsoddi Sgiliau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol yr Alban a lansiwyd ar 25 Mawrth 2019. Yn ogystal, mae Uchelgais Ddiwylliannol yn rhan o raglen Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant Llywodraeth Cymru, ac amlygwyd llwyddiant Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Ulster wrth gefnogi hyfforddeion i swyddi yn ein hymgyrch Newid Bywydau ym mis Mai.

Mae prosiectau sgiliau yn ffordd dda o gefnogi ein huchelgeisiau o ran treftadaeth gynhwysol a chefnogi gweithlu mwy amrywiol: roedd 20% o hyfforddeion Carfan 3 yn ddi-waith cyn dechrau eu hyfforddeiaeth gyflogedig; mae 13% o'r hyfforddeion yn ystyried eu hunain yn fyddar, yn anabl, neu â chyflwr iechyd hirdymor; mae 62% o dan 25 oed, ac mae 82% o'r

hyfforddeion yn wyn. Datblygwyd canllawiau ac astudiaethau achos newydd hefyd, yn amlygu'r cyfleoedd y gall prosiectau sgiliau eu cyfrannu at ein blaenoriaeth cynhwysiant.

## h) Gwerth i'r cyhoedd

> "Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo gwerth i'r cyhoedd ac nad elw preifat yw eu bwriad pennaf."

Mae ein hathroniaeth Loteri Genedlaethol yn seiliedig ar ariannu'r hyn y mae pobl yn ei drysori, ac mae ein hasesiad o geisiadau yn ystyried y canlyniadau y bydd prosiectau'n eu creu ar gyfer treftadaeth, pobl a chymunedau. Rydym yn blaenoriaethu sefydliadau nid-er-elw ac ers 2002 mae hanner ein cyllid yn ôl gwerth (50%) wedi mynd i sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau eglwysig.

Darparwyd rhywfaint o gymorth i dreftadaeth mewn perchenogaeth breifat drwy ein rhaglen Ein Treftadaeth yn ein fframwaith strategol ar gyfer 2013–2019 (grantiau o £10,000–£100,000) ar yr amod y gallai ymgeiswyr ddangos bod brwdfrydedd clir gan y cyhoedd am y prosiect, a gwir angen am fuddsoddiad y Loteri Genedlaethol. Mae'r dull hwn yn parhau ac yn ehangu yn ein fframwaith ariannu newydd, a gall perchnogion preifat nawr wneud cais am grantiau £3,000–£10,000 a £10,000–£100,000 os ydynt yn diwallu'r un meini prawf. O dan ein rhaglen Menter Treftadaeth, mae'r achos dros arian y Loteri yn dibynnu ar 'ddiffyg cadwraeth' (lle mae gwerth presennol adeilad a'r gost o'i ddychwelyd i ddefnydd yn fwy na'i werth ar ôl y prosiect). Diben y dulliau hyn yw sicrhau bod buddion cyhoeddus y prosiectau rydym yn buddsoddi ynddynt yn gorbwyso unrhyw fudd preifat.

## i) Datblygu cynaliadwy

> "Yr angen i hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy."

Nid ydym wedi newid ein hymagwedd tuag at ddatblygiad cynaliadwy eleni o dan Fframwaith Strategol 2013–2019. Daeth yr holl ymgeiswyr a gyflwynodd geisiadau am gyllid o fwy na £2filiwn o dan ein polisi ôl troed carbon, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gynnal asesiad ôl troed carbon o'r cynnig ar gyfer y prosiect yn ystod y cam datblygu. Daeth yr asesiadau hyn yn rhan annatod o'r broses arfarnu gyffredinol ar gyfer mwy o brosiectau yn ystod 2016–17 wrth iddynt gyrraedd ail rownd y cam ymgeisio.

Ers 2008, rydym wedi'i gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddweud wrthym sut y byddant yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn ymwneud â defnyddio adnoddau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, dŵr, deunyddiau adeiladu, gwastraff, pridd, caffael pren cynaliadwy, bioamrywiaeth a thrafnidiaeth ymwelwyr, ac rydym wedi cynnig arweiniad i helpu ymgeiswyr i gynllunio a dylunio eu prosiectau.

Un o'r canlyniadau a bwysolir ar gyfer grantiau dros £100,000 yn ein rhaglenni agored o dan Fframwaith Strategaeth 2013–2019 oedd "y bydd effeithiau amgylcheddol negyddol yn cael eu lleihau".

Yn y Fframwaith Ariannu Strategol, rydym yn cynnig canllaw ymarferol ar fabwysiadau mesurau sy'n gyfrifol yn amgylcheddol. Rydym wedi dechrau cydweithio gyda Fit for the Future, rhwydwaith cynaliadwyedd amgylcheddol sy'n cefnogi pobl i wneud dewisiadau da o ran integreiddio mesurau amgylcheddol i'w prosiectau. Gall prosiectau sy'n derbyn grantiau bach llai na £10,000 feddwl am gamau symlach, megis ymrwymo i leihau gwastraff a defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu neu fioddiraddiadwy. Rydym hefyd yn gofyn i bob prosiect, fel rhan o gynaliadwyedd amgylcheddol, ganolbwyntio ar wneud mwy ar gyfer natur, sy'n un o'n prif flaenoriaethau yn y Fframwaith Ariannu Strategol. Bydd disgwyl i brosiectau cyfalaf mawr fabwysiadu dull llawer mwy manwl, ac ystyried cynaliadwyedd mewn modd cyfannol ar draws ystod llawer ehangach o faterion.

## j) Amddifadedd economaidd a chymdeithasol

> "Dymunoldeb lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol a sicrhau bod gan bob ardal yng ngwledydd Prydain fynediad at yr arian a ddosberthir."

Mae dros draean (38%) o'r holl gyllid wedi'i ymrwymo yn y 25% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ym mhedair gwlad Prydain (yn seiliedig ar y mynegeion diweddaraf o amddifadedd lluosog ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).

O dan Fframwaith Strategol 2013–2019, anogodd y timau datblygu yn ein swyddfeydd lleol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban geisiadau o ansawdd o ardaloedd sydd wedi gweld llai o gynrychiolaeth yn ein hariannu hyd yma. O dan y fframwaith ariannu newydd, mae'r timau ardal a

gwledydd newydd yn datblygu strategaethau i gynyddu arian i 13 ardal benodol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Dewiswyd yr 13 ardal awdurdod lleol yn seiliedig ar wariant fesul pen o'r boblogaeth, a mynegeion amddifadedd safonol.

Fel mesur o ledaenu cyllid yn deg, rydym yn adolygu nifer yr awdurdodau lleol sydd wedi derbyn cryn dipyn yn llai na chyfartaledd gwledydd Prydain, o ran gwerth dyfarniadau grant y pen. Mae nifer yr awdurdodau lleol lle mae gwerth dyfarniadau grant y pen yn is na chwarter cyfartaledd gwledydd Prydain bellach yn 45 (12% o'r cyfanswm).

## k) Cydweithio

> "Dymunoldeb cydweithio gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, os yw hyn yn ffordd effeithiol o gyflawni strategaeth y Gronfa."

Parhaodd yr Adolygiad wedi'i Deilwra a'r Adolygiad Amgueddfeydd i greu cyd-destun pwysig ar gyfer gwaith y Gronfa yn 2018–19. Eleni, gweithiom mewn partneriaeth i ddatblygu a darparu gweithgarwch mewn nifer o feysydd polisi:

- Cronfa Effaith Treftadaeth – Rydym wedi datblygu partneriaeth newydd £7miliwn gyda'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, Historic England, Cadw a Historic Environment Scotland i gynnig cronfa fenthyciad buddsoddi cymdeithasol i elusennau, mentrau cymdeithasol a busnesau cymunedol ledled gwledydd Prydain ar gyfer mentrau a phrosiectau adeiladau hanesyddol.
- Sbarduno Parciau'r Dyfodol – Rydym wedi ymuno â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i alluogi wyth lle ar draws gwledydd Prydain i ddatblygu datrysiadau uchelgeisiol er mwyn diogelu a gwella dyfodol parciau cyhoeddus a gofodau gwyrdd er budd hirdymor y cyhoedd.
- Ailystyried parciau – Rydym wedi ymuno â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Nesta i fuddsoddi £1.5miliwn i gefnogi 11 prosiect parciau arloesol er mwyn datblygu'r modelau gweithredu mwyaf addawol ac arloesol ar gyfer parciau.
- Gofodau Gweithredu Treftadaeth y Stryd Fawr – Rydym wedi cytuno i greu partneriaeth â Historic England er mwyn ariannu, cynllunio a darparu rhaglen ddiwylliannol fel rhan o'r raglen ehangach £40miliwn a gyhoeddwyd yn y Gyllideb i adfywio strydoedd mawr.
- Y Gronfa Datblygu Diwylliannol – Rydym wedi gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr ac eraill i siapio'r gwaith o ddosbarthu £20miliwn i bum ardal.
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cyngor Celfyddydau Lloegr/Cronfa Dreftadaeth y Loteri – Rydym wedi cyflawni blwyddyn gyntaf ein cynllun gweithredu Mendoza ar y cyd, gan gynnwys protocol newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth i gefnogi ein penderfyniadau a datblygu protocol Casgliadau wrth Risg. Mae ein Prif Weithredwyr a'n Byrddau wedi cael gwybodaeth am gynlluniau strategol ei gilydd, a dechreuodd y gwaith o gysoni prosesau a chyfathrebu â'r sector amgueddfeydd ym mis Ebrill 2019.
- Diwylliant Digidol yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon – Ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Lloegr, rydym wedi cytuno i sicrhau bod sefydliadau a ariennir yn gwella wrth gasglu, defnyddio a rhannu data am gynulleidfaoedd, yn treialu defnydd o Fynegai Aeddfedrwydd Digidol ar gyfer y sector diwylliannol, ac yn creu Cod Diwylliant Digidol. Rydym wedi ymrwymo i gyllido ymgyrch £1miliwn i ddenu prosiectau o ansawdd er mwyn cynyddu capasiti digidol y sector treftadaeth yn 2019–2020.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Cyngor Celfyddydau Lloegr ac eraill i gyflawni cynigion yn y Papur Gwyn Diwylliant, megis Lle Arbennig. Cyhoeddwyd canlyniadau arolwg ar effaith y cynllun peilot cyllido torfol chwe mis yn ddiweddarach ym mis Awst 2018.

Rydym yn gweithio gyda'r llywodraeth, Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol a llawer o gyrff eraill i barhau â gweithgarwch i nodi Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr, parhaom i gyd-ariannu prif raglen ddiwylliannol gwledydd Prydain, 14–18 NOW. Rydym yn parhau i weithio ar y cyd â Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Mae ei gyllid wedi galluogi canolfannau ymgysylltu pum prifysgol i ddarparu cymorth ymchwil arbenigol i grwpiau cymunedol a sefydliadau diwylliannol sy'n ymgymryd â phrosiectau canmlwyddiant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'r pynciau'n amrywio o'r ffrynt cartref a phrofiadau menywod i ddatblygiadau meddygol a thechnolegol, a chyfraniad milwyr o'r Ymerodraeth Brydeinig at y rhyfel.

Rydym yn cyflwyno darn mawr o waith gyda theulu'r Loteri Genedlaethol, gan gynnwys holl ddosbarthwyr

y Loteri, Camelot ac Uned Hyrwyddiadau'r Loteri Genedlaethol, i ddatblygu brand y Loteri Genedlaethol a hyrwyddo achosion da trwy Un Loteri Genedlaethol.

Roedd y newid i'n henw o ganlyniad i'r gwaith hwn. Rydym wedi parhau i weithio gyda dosbarthwyr eraill y Loteri i sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cydlynu'n agos ac i ddiolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Gwnaethom barhau i weithio mewn partneriaeth â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i ddarparu ein rhaglen Parciau i Bobl yn Lloegr.

## l) Cydnabyddiaeth

> "Yr angen i gynnwys amod ym mhob grant i gydnabod cyllid y Loteri, gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri."

Rydym wedi rhoi mwy o bwysigrwydd ar fanteision codi ymwybyddiaeth o gyllid y Loteri, ac mae'n ofynnol i bob ymgeisydd gydnabod ein grantiau'n gyhoeddus am gyfnod y prosiect ac ar ôl ei gwblhau. Mae ein canllaw 'Sut i gydnabod eich grant' yn rhan o'n telerau grant safonol, ac eleni rydym wedi cynyddu ein pwyslais ar hyn trwy ofyn i ymgeiswyr ddweud wrthym, yn rhan o'u cais, sut maent yn bwriadu hyrwyddo cyfraniad y Loteri Genedlaethol at eu prosiect.

Ym mis Ionawr 2019, ail-frandiwyd y sefydliad fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gan ddefnyddio logo adnabyddus y bysedd wedi'u croesi, er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng chwarae ac achosion da y Loteri Genedlaethol. Bydd pob derbynnydd grant newydd yn cael deunyddiau cydnabyddiaeth sy'n defnyddio'r brand newydd.

## m) Cyllid partneriaeth

> "Yr angen i brosiectau gael elfen o gyllid partneriaeth, neu gyfraniad o fath arall o ffynonellau eraill, i'r graddau bod hyn yn rhesymol i'w gyflawni ar gyfer mathau gwahanol o ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol."

Roedd ein hymgynghoriad ar gyfer ein Fframwaith Ariannu Strategol yn gofyn am safbwyntiau ar p'un a ddylid newid y lefelau gofynnol yn ein fframwaith. O ganlyniad, rydym wedi'n cadw'n gofyniad isafswm o 5% mewn arian neu nwyddau ar gyfer grantiau o hyd at £1miliwn, a lleiafswm o 10% ar gyfer grantiau dros £1miliwn. Ar gyfer grantiau o hyd at £100,000, nid oes gofyniad lleiafswm ariannu partneriaeth.

## n) Penderfyniadau

> "Yr angen:
> a) i arian a ddosberthir gael ei gymhwyso i brosiectau at ddiben cyfyngedig i amser penodol yn unig; b) i sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol a chyngor arbenigol ganddynt i wneud penderfyniadau am bob cais; a c) i ymgeiswyr ddangos hyfywedd ariannol prosiectau."

Nid ydym wedi newid ein hymagwedd at hyn ar gyfer ein Fframwaith Strategol 2013–2019 na'r fframwaith strategol newydd.

a) Mae'r prosiectau rydym yn eu cefnogi yn rhai penodol ac yn gyfyngedig i amser. Rydym yn cyfyngu'n cymorth i uchafswm o bum mlynedd ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gweithgareddau.

b) Rydym yn ceisio gwybodaeth gan ymgeiswyr am y graddau y mae eu prosiectau'n cyflwyno achos cadarn dros fuddsoddi; y graddau byddant yn cyflawni canlyniadau i dreftadaeth, pobl a chymunedau; y graddau maent yn hyfyw ac yn gynaliadwy yn ariannol; a'r graddau y byddant yn darparu gwerth da am arian. Gall ein hasesiad gynnwys cyngor arbenigol ar agweddau allweddol ar y cais os bydd angen.

c) Rydym yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth i ni i ddangos hyfywedd ariannol eu prosiect, wedi'i dadansoddi yn ôl costau cyfalaf, gweithgarwch a chostau eraill, ac sy'n dangos pa gyfraniad maent yn cynnig ei wneud o'u hadnoddau eu hunain neu o grantiau neu roddion o ffynonellau eraill. Rydym yn gofyn am ragamcanion llif arian, ac, ar gyfer prosiectau mwy, rhagamcanion incwm a gwariant am 10 mlynedd, sy'n dangos sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu cynnal y prosiect yn yr hirdymor.

## o) Cynllunio a rheoli prosiectau

> "Lle ceisir cyllid cyfalaf, yr angen (a) am gynllun busnes clir sy'n dangos sut bydd unrhyw gostau rhedeg a chostau cynnal a chadw'n cael eu talu dros gyfnod rhesymol, a (b) i sicrhau bod yr arfarnu a'r rheoli ar gyfer prif brosiectau yn adlewyrchu Safonau Adolygiad Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth."

a) O dan Fframwaith Strategol 2013–2019, roedd y ffurflen gais ar gyfer ein rhaglen Grantiau

Treftadaeth yn parhau i ofyn i ymgeiswyr osod eu ceisiadau ail rownd mewn fformat cynllun busnes, gyda gwybodaeth ategol yn cael ei chynnwys mewn cynllun gweithgarwch, rhagolygon llif arian a thabl incwm a gwariant. Ar gyfer grantiau dros £2filiwn, roeddem yn gofyn am gynllun busnes prosiect. Roeddem yn gofyn i brosiectau cadwraeth gynnwys cynlluniau cadarn ar gyfer cynnal treftadaeth yn yr hirdymor, er mwyn sicrhau bod ganddynt ddyfodol hyfyw, ac i ddiogelu ein buddsoddiad trwy reolaeth hirdymor well. Ar gyfer prosiectau a oedd yn cynnwys gwerth dros £200,000 o waith cyfalaf, roeddem yn gofyn am gynllun rheoli a chynnal a chadw a oedd yn nodi manylion sut byddai'r ymgeisydd yn talu costau ychwanegol hyn ar ôl cwblhau ei brosiect, ac roeddem wedi cyhoeddi canllaw ar sut i gynhyrchu hyn.

b) Yn y Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024 newydd, rydym yn gofyn i bob prosiect mawr (dros £250,000) ddarparu cynllun busnes ar y cam datblygu, ac yna cynllun busnes wedi'i ddiweddaru erbyn y cam darparu. Dylai'r cynllun busnes fod ar gyfer y sefydliad yn hytrach na'r prosiect, sy'n adlewyrchu ein diddordeb cynyddol mewn gwytnwch sefydliadol.

c) O dan Fframwaith Strategol 2013–2019, roedd gofyn i bob ymgeisydd ddangos y bydd eu prosiect yn cael ei reoli'n dda, ac yn bodloni safonau perthnasol a ystyrir fel arfer da yn y maes y rhoddwyd y grant ar ei gyfer. Ar gyfer prosiectau cyfalaf, rydym yn cynnwys pwyntiau adolygu ffurfiol yn ein prosesau asesu a monitro (sy'n cyd-fynd â chamau Cynllun Gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain). Rydym yn defnyddio monitrau allanol ar gyfer pob prosiect mawr i sicrhau bod prosiectau'n cyflawni'r dibenion a gymeradwywyd yn unol â'r contract, y deallir ac y rheolir y risgiau i'r Gronfa, y cyflawnir arferion gorau ym mhob maes allweddol, a bod yr holl waith adrodd ariannol a rheoli yn gadarn ac yn dryloyw. Yn y fframwaith strategol newydd, nid yw'r gofynion ar gyfer cynlluniau rheoli, cynnal a chadw a chadwraeth yn gysylltiedig bellach â chais am grant – erbyn hyn maent yn seiliedig ar beth mae'r prosiect yn ei wneud.

# Cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â Chymru

Mae cyfarwyddyd polisi (b) yn pennu gofyniad bod Cronfa Dreftadaeth y Loteri (fel yr oedd; Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol bellach) yn ystyried "yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng ngweithgareddau'r Gronfa yng Nghymru, yn unol â'r arweiniad a nodir yng nghyhoeddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg*, ac a gaiff ei fonitro'n unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt."

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi ein hymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflwyno gwasanaethau, ac i sicrhau bod polisïau a mentrau'n bodloni'r safonau a nodir yn y cynllun. Mae hyn yn cwmpasu gweithredoedd gweinyddol ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus dwyieithog yng Nghymru, wyneb cyhoeddus y sefydliad, gan gynnwys hunaniaeth gorfforaethol, ffurflenni cais, nodiadau canllaw a'r wefan, gweithgarwch marchnata a'r wasg; asesu a monitro ceisiadau, staffio a recriwtio, ac ymarferion ymgynghori ac ymchwil. Rydym yn monitro ein perfformiad yn flynyddol drwy ein hymrwymiad i Gynllun Cydraddoldeb, ac rydym wedi cynhyrchu arweiniad i gynorthwyo ymgeiswyr yng Nghymru i ddatblygu ymagweddau dwyieithog: 'Ymgorffori'r Gymraeg yn eich prosiect'.

## Cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o dan Adran 26(1) a (2) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu pwerau o dan adran 26(2) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, fel y'u trosglwyddwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac ar ôl ymgynghori ag Ymddiriedolwyr CGDG ('y Gronfa') yn unol ag adran 26(5), yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol i'r Gronfa:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran benodol yn Neddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, fel y'i diwygiwyd.
2. Wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, bydd y Gronfa yn ystyried y materion canlynol wrth bennu'r unigolion y gallant ddyrannu grantiau neu fenthyciadau iddynt, at ba ddibenion y gallant ddyrannu grantiau neu fenthyciadau ar

eu cyfer, a'r broses a ddefnyddir i bennu pa daliadau i'w gwneud wrth ddosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1): grants or loans, and the process used to determine what payments to make in distributing any money under section 25(1):

a) Yr angen i ystyried buddiannau Cymru gyfan, a buddiannau gwahanol rannau o Gymru, gan roi ystyriaeth i amrywiol batrymau demograffig ac amddifadedd rhannau gwahanol o Gymru, a dymunoldeb annog cyrff gwasanaeth cyhoeddus i gydweithio lle bynnag y bydd yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl a threftadaeth.

b) Yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng ngweithgareddau'r Gronfa yng Nghymru, yn unol â'r arweiniad a nodir yng nghyhoeddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg*, ac a gaiff ei fonitro yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.

c) Yr angen i sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a chydweithio'n agos â phartneriaid priodol er budd cymunedau a threftadaeth ledled Cymru, lle bo hwn yn ddull effeithiol o gyflawni strategaeth y Gronfa.

d) Yr angen i annog pobl i gadw, gwarchod, cyflwyno, hyrwyddo a dehongli pob agwedd ar dreftadaeth Cymru.

e) Yr angen i annog cynaliadwyedd ariannol asedau treftadaeth Cymru.

f) Yr angen i roi cyfleoedd i bobl, yn arbennig pobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i ennill y sgiliau sy'n ofynnol i gadw a gwarchod treftadaeth Cymru.

g) Yr angen i annog defnyddio safonau proffesiynol priodol ym mhob prosiect.

h) Yr angen i roi cyfle i bobl o bob oedran a chefndir, yn arbennig plant a phobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i gael mynediad at dreftadaeth amrywiol Cymru, i ddysgu amdani, ei mwynhau, a'i hyrwyddo drwy hynny, lle y bo'n briodol.

* Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd: Materion yn ymwneud â'r Gymraeg, Mawrth 2007.

# Cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â'r Alban

## Cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o dan adran 26(2) fel y'u darllenir gydag adran 26A(2) (b) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993

Gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, mae Gweinidogion yr Alban, wrth arfer y pwerau a roddir o dan adran 26(2) fel y'u darllenir gydag adran 26A(2) (b) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993**, ac ar ôl ymgynghori gydag Ymddiriedolwyr CGDG (yr 'Ymddiriedolwyr'), yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol:

1. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol i'r Alban yn unig ac yn ymwneud ag unrhyw ddosbarthiad a wnaed gan yr Ymddiriedolwyr at ddiben nad yw'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl.

2. Wrth bennu'r unigolion y maent yn rhoi unrhyw arian iddynt, at ba ddibenion y maent yn rhoi unrhyw arian ar eu cyfer, a'r amodau ar gyfer rhoi unrhyw arian iddynt o dan adran 25(4) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 yn yr Alban, rhaid i'r Ymddiriedolwyr ystyried y blaenoriaethau canlynol a materion eraill:

   a) Yr angen i ystyried buddiannau'r Alban gyfan, a buddiannau gwahanol rannau o'r Alban, gan roi ystyriaeth amrywiol i batrymau demograffig ac amddifadedd rhannau gwahanol o'r Alban, a dymunoldeb annog cyrff gwasanaeth cyhoeddus i gydweithio lle bynnag y bydd yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl a threftadaeth.

   b) Yr angen i sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a chydweithio'n agos â phartneriaid priodol er budd cymunedau a threftadaeth ledled yr Alban, gan ddefnyddio'r egwyddorion canlynol:

   Ymgysylltu
   Dylai rhaglenni gael eu datblygu yn seiliedig ar ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid priodol.

   Gwyrddach
   Mae gan bobl wasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy.

Iachach
Mae pobl a chymunedau yn iachach.

Cryfach a mwy diogel
Mae cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Craffach
Mae pobl yn cael gwell cyfleoedd mewn bywyd.

Cydsafiad a chydlyniant
Sicrhau bod unigolion a chymunedau ledled yr Alban yn cael cyfle i gyfranogi a chyfrannu ac elwa er mwyn sicrhau Alban fwy llwyddiannus.

Cynaliadwyedd
Gwella amgylchedd yr Alban heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ar yr un pryd â lleihau effaith yr Alban ar yr amgylchedd byd-eang.

Tecach a mwy cyfoethog
Economi ffyniannus a chynaliadwy.

c) Yr angen i annog pobl i gadw, gwarchod, cyflwyno, hyrwyddo a dehongli pob agwedd ar dreftadaeth yr Alban, a mynediad iddi.

d) Yr angen i hyrwyddo a chefnogi arwyddocâd diwylliannol Gaeleg a Sgoteg ar draws yr Alban gyfan.

e) Yr angen i annog cynaliadwyedd ariannol asedau treftadaeth yr Alban, gan gynnwys y rhai sydd o bwysigrwydd cenedlaethol i bobl yr Alban.

f) Yr angen i roi cyfleoedd i bobl, yn arbennig pobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i ennill y sgiliau sy'n ofynnol i gadw a gwarchod treftadaeth yr Alban.

g) Yr angen i annog defnyddio safonau proffesiynol priodol mewn prosiectau.

h) Yr angen i roi cyfle i bobl o bob oedran a chefndir, yn arbennig plant a phobl ifanc ac aelodau difreintiedig cymdeithas, i gael mynediad at dreftadaeth amrywiol yr Alban, i ddysgu amdani, ei mwynhau, a'i hyrwyddo drwy hynny, lle y bo'n briodol.

i) Yr angen i annog prosiectau treftadaeth sy'n cynnal etifeddiaeth ddiwylliannol sy'n deillio o ddigwyddiadau rhyngwladol yn yr Alban.

j) Yr angen i roi gwybodaeth gyson i Weinidogion yr Alban am ddatblygiad polisïau, pennu blaenoriaethau a rhoi grantiau yn yr Alban.

**Trosglwyddwyd y swyddogaeth a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion yr Alban drwy Atodlen 1 i Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Trosglwyddo Swyddogaethau i Weinidogion yr Alban ac ati) 1999 (O.S. 1999/1750).

# Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

Mae'r tabl canlynol yn dangos y cynnydd ar brosiectau sy'n cynnwys £5miliwn neu fwy o arian Loteri.

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu |
|---|---|---|---|---|
| Aberdeen Art Gallery: Inspiring Art and Music | Yr Alban | Cyngor Dinas Aberdeen – Oriel Gelf ac Amgueddfeydd Aberdeen | 25,236,063 | 126,200 (datblygu) 9,997,500 (darparu) Medi 2014 |
| Acquisition of the Armada of Elizabeth 1 | Llundain | Yr Amgueddfa Forol Genedlaethol | 10,217,900 | 7,257,700 Medi 2016 |
| Alexandra Palace: Reclaiming the People's Palace | Llundain | Ymddiriedolaeth Elusennol Parc a Phalas Alexandra | 26,737,903 | 844,800 (datblygu) 18,850,000 (darparu) Mawrth 2015 |
| Aspire (Constable 'Salisbury Cathedral from the Meadows') | Llundain | Tate Prydain | 24,723,455 | 15,800,000 Ebrill 2013 |
| Auckland Castle Trust | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Ymddiriedolaeth Castell Auckland | 20,520,200 | 1,000,000 (datblygu) 11,400,000 (darparu) Awst 2016 |
| Bath Abbey Footprint | De-orllewin Lloegr | Cyngor Eglwys Blwyfol Abaty Caerfaddon | 19,441,846 | 389,000 (datblygu) 10,725,300 (darparu) Mawrth 2016 |
| BCLM: Forging Ahead – creating a world-class visitor attraction in the Black Country | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Amgueddfa Fyw y Black Country | 22,731,496 | 400,000 (datblygu) Ebrill 2017 9,800,00 (darparu) |
| Buxton Crescent & Spa | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Cyngor Sir Swydd Derby a Chyngor Dosbarth High Peak | 46,709,827 | 497,000 (datblygu) 23,853,000 (darparu) Gorffennaf 2002 |
| Courtauld Connects | Llundain | Sefydliad Celf Courtauld | 34,354,940 | 650,000 (datblygu) Ebrill 2016 8,850,000 (darparu) Mawrth 2018 |
| Creu Hanes yn Sain Ffagan | Cymru | Amgueddfa Genedlaethol Cymru | 24,477,415 | 450,000 (datblygu) 12,547,300 (darparu) Gorffennaf 2012 |

| % y grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2019 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Darparu 85 | Mae'r terfyn taliad 90% wedi'i gyrraedd. Mae'r gwaith paratoi ar gyfer gosod yr arddangosfeydd yn mynd rhagddo – ond mae rhai materion yn ymwneud â chontractau yn parhau. Disgwylir yr agoriad swyddogol yn hydref 2019. |
| Darparu 95 | Mae'r gwaith cadwraeth wedi'i gwblhau, ac mae'r portread yn ôl yn Nhŷ'r Frenhines. Penodwyd Curadur Allgymorth Cenedlaethol yn ystod hydref 2017 ac mae gweithgareddau'n mynd rhagddynt hyd at fis Ebrill 2020. |
| Darparu 94 | Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau i raddau helaeth. Ail-lansir y Llys Dwyreiniol a'r Theatr Fictoraidd ym mis Rhagfyr 2019. Mae'r prosiect wedi cael derbyniad da iawn gan y cyhoedd a'r wasg. Mae gweithgareddau'n mynd rhagddynt. Y cam nesaf yw darparu Hwb Dysgu wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Sackler (mae'r Ymddiriedolaeth wedi cadarnhau ymrwymiad i'r grant hwn). |
| Darparu 99 | Mae'r paentiad wedi cwblhau ei daith ac wedi dychwelyd i'r Tate. |
| Darparu 58 | Mae gwaith adfer y Castell yn mynd rhagddo. Mae rhywfaint o oedi yn y rhaglen, ac mae'r prif adeilad nawr wedi'i amserlennu ar gyfer mis Mai 2019. Yr oriel newydd Faith Gallery i agor ym mis Hydref 2019. |
| Darparu 20 | Mae'r gwaith cyfalaf nawr yn mynd rhagddo, ac yn datblygu'n dda, er gwaetha'r canfyddiadau archeolegol pwysig ac annisgwyl o dan lawr yr Abaty. Mae'r gweithgareddau hefyd yn cynyddu'n dda, ac mae PD newydd yn sicrhau bod y rhain yn aros yn gyson â'r rhaglen gyfalaf. |
| Datblygu 100 | Dyfarnwyd grant ym mis Mawrth 2019. Bydd y prosiect yn ehangu ac yn gwella profiad yr ymwelwyr, wrth greu datblygiad newydd wedi'i osod yn y 1940au i'r 1960au, gyda mynediad newydd i ymwelwyr. Roedd y cam datblygu yn llwyddiannus, gyda phartneriaid da ac arian cyfatebol, gan gynnwys Partneriaethau Cyflogaeth Lleol. |
| Darparu 90 | Dyfarnwyd cynnydd yn y grant darparu o £11,320,000 ym mis Tachwedd 2014. Mae'r prosiect nawr wedi'i ariannu'n llawn, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Cwblhawyd gwaith ymarferol Pump Rook ym mis Mehefin 2017, ac agorodd i'r cyhoedd fel Canolfan Wybodaeth i Dwristiaid y dref ym mis Mawrth 2019. Mae gwaith dodrefnu'r gwesty yn mynd rhagddo, ac mae wedi'i amserlennu i agor yn hydref 2019. |
| Darparu 0 | Dyfarnwyd grant darparu ym mis Ebrill 2018. Mae trafodaethau prydlesu gan dderbynnydd y grant wedi arwain at oedi – disgwylir caniatâd i gychwyn ar ddechrau mis Ebrill 2019. Mae derbynnydd y grant wedi parhau ag adleoli'r Sefydliad i Kings Cross – cwblhawyd ym mis Ionawr 2019. |
| Darparu 90 | Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau i safon uchel iawn. Fe'i hagorwyd i'r cyhoedd ar 18 Hydref 2018. Mae'r gweithgareddau sy'n weddill yn parhau. Mae niferoedd yr ymwelwyr a chynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithgarwch yn parhau i ragori ar y targedau. GED Hydref 2019 – yn debygol o gael ei ymestyn i ganiatáu ar gyfer gwerthusiad llawn. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu |
|---|---|---|---|---|
| Derby Silk Mill – Museum of Making | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Derby | 16,999,900 | 817,300 (datblygu) Ebrill 2015 8,570,400 (darparu) |
| Ditherington Flax Mill, Maltings International Heritage site at the heart of the community | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Historic England | 30,382,488 | 465,300 (datblygu) 20,717,500 (darparu) Gorffennaf 2013 |
| First Light at Jodrell Bank | Gogledd-orllewin Lloegr | Prifysgol Manceinion | 19,733,200 | 784,800 (datblygu) Ebrill 2015 11,362,400 (darparu) Mawrth 2018 |
| Rhaglen Ddiwylliannol Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf (14–18 NOW) | Traws-diriogaeth | Yr Amgueddfa Ryfel Ymerodrol | 50,009,614 | 10,000,000 Tachwedd 2013 |
| Hartlebury Castle | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Hartlebury | 7,239,665 | 413,700 (datblygu) 4,975,100 (darparu) Medi 2014 |
| Hastings Pier | De-ddwyrain Lloegr | Hastings Pier Charity Ltd | 14,248,352 | 357,400 (datblygu) 12,044,000 (darparu) Tachwedd 2012 |
| HMS Caroline, Belfast | Gogledd Iwerddon | Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol | 17,800,732 | 845,600 (datblygu) 14,240,500 (darparu) Medi 2014 |
| Hull: Yorkshire's Maritime City | Swydd Efrog a Glannau Humber | Cyngor Dinas Hull | 27,403,948 | 1,368,400 (datblygu) Ebrill 2017 14,999,900 (darparu) |

| % y grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2019 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Darparu<br>20 | Dyfarnwyd y grant ym mis Medi 2017. Mae cyllid y prosiect yn barod. Penodwyd contractwyr trwy'r Yswiriant Prosiect Integredig – dull caffael newydd gan y Llywodraeth. Mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys The Markory, amgueddfa symudol yn cynnal gwaith allgymorth ar draws y 'Vital Valley', fel rhan o Gynllun Llefydd Gwych Safle Treftadaeth y Byd Derwent Valley Mills. |
| Darparu<br>28 | Rhoddwyd caniatâd i ddechrau arni ym mis Ebrill 2017. Mae gwaith adfer a chadwraeth i'r brif felin wedi'i gwblhau; mae cam 2 y gwaith cyfalaf nawr yn mynd rhagddo. Mae tîm prosiect cryf ar waith, ac mae'r gwaith o ddatblygu'r safle ehangach a'r cynllun busnes yn datblygu'n dda. |
| Darparu<br>3 | Dechreuodd y gwaith darparu ym mis Ebrill 2018, ac mae'r gwaith nawr allan i dendro. Mae'r rhaglenni gwirfoddoli a gweithgarwch yn datblygu'n dda. Mae'r agoriad wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr 2021, a'r prosiect i'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2023. |
| Darparu<br>94 | Cynhaliwyd trydydd tymor, a thymor olaf, y 45 comisiwn artistig newydd eleni. Ers i raglen 2018 ddod i ben ar ganmlwyddiant Dydd y Cadoediad, mae'r ffocws wedi bod ar werthuso tymor 2018 a'r llyfr 14–18 NOW. Cyhoeddwyd y llyfr ym mis Mawrth 2019, a bydd y gwerthusiad yn barod ar gyfer eu cynhadledd 'Now the Future' ym mis Ebrill 2019. |
| Darparu<br>94 | Bu i'r Ymddiriedolaeth gaffael cyn Balas Esgobion Caerwrangon ar 27 Mawrth 2015. Rhoddwyd caniatâd i ddechrau arni ym mis Mai 2016. Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau. Agorodd Hartlebury i'r cyhoedd yn ffurfiol ym mis Mehefin 2018. Mae'r rhaglen weithgarwch yn mynd rhagddi ac yn datblygu'n dda. |
| Wedi'i gwblhau<br>100 | Agorodd y Pier gyda chanolfan ymwelwyr ac adeilad Pafiliwn ym mis Mai 2016, ac roedd nifer yr ymwelwyr, sef 400,000, yn fwy na'r disgwyl. Cafodd sylw da yn y wasg, a dyfarnwyd Gwobr Stirling RIBA iddo ym mis Hydref 2017. Ni lwyddodd Elusen Pier Hastings (derbynnydd y grant) i gael y cynllun busnes i weithio, ac aeth i ddwylo gweinyddwyr ym mis Rhagfyr 2017. Ariannodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol y weinyddiaeth fel bod y pier yn aros yn weithredol wrth i opsiynau eraill yn y dyfodol gael eu harchwilio. Ym mis Mehefin 2018, gwerthodd y gweinyddwyr y pier i berchennog preifat. Roedd y pier yn weithredol ond caeodd ar gyfer tymor y gaeaf, ac roedd rhywfaint o sylw negyddol yn y wasg am y perchennog newydd a mynediad. Mae'r perchennog wedi ail-agor y pier. Daeth y weinyddiaeth i ben ym mis Mai 2019. Nid oes gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol unrhyw reolaeth mewn contract dros ei weithrediaeth yn y dyfodol, ond rydym yn annog ymgysylltiad cadarnhaol rhwng y perchennog masnachol newydd, y gymuned leol, a Chyngor Bwrdeistref Hastings, er mwyn sicrhau bod y pier ar agor ac yn cael ei gynnal er budd Hastings. |
| Darparu<br>73 | Mae'r holl waith cyfalaf wedi'i gwblhau, a lansiwyd y Tŷ Pwmpio yn ffurfiol ar 18 Ebrill 2018. Enillodd Wobr Atyniad Ymwelwyr Mawr y Flwyddyn yng Ngwobrau Luxury Travel Guide 2017. Mae gweithgarwch yn parhau, gydag ymgysylltiad da gyda'r cyhoedd. Bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2021. |
| Datblygu<br>45 | Cynhaliwyd adolygiad canol-datblygiad ar 13 Rhagfyr 2018. Rhoddwyd adborth manwl, a threfnwyd cyfarfodydd cynnydd dilynol. Mae Cyngor Dinas Hull wedi bod yn ymatebol iawn i'n cyngor, ac mae'r adolygiad wedi'i gymeradwyo erbyn hyn. Cais ail rownd i ddod ym mis Mai 2019. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu |
|---|---|---|---|---|
| Inspired by Knole | De-ddwyrain Lloegr | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer Lleoedd o Ddiddordeb Hanesyddol neu Harddwch Naturiol – yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 24,181,947 | 7,750,000 Gorffennaf 2013 |
| Inspiring People: Transforming Our National Portrait Gallery | Llundain | Yr Oriel Bortreadau Genedlaethol | 36,200,817 | 900,000 (datblygu) Ebrill 2017 9,400,000 (darparu) |
| Kings and Scribes – The Birth of a Nation | De-ddwyrain Lloegr | Eglwys Gadeiriol Winchester | 14,693,759 | 475,500 (datblygu) 11,017,400 (darparu) Gorffennaf 2013 |
| Kresen Kernow: A new home for the stories of Cornwall | De-orllewin Lloegr | Cyngor Cernyw | 18,506,591 | 386,800 (datblygu) 11,786,500 (darparu) Gorffennaf 2015 |
| Lincoln Castle Revealed | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Cyngor Sir Swydd Lincoln | 19,982,405 | 227,640 (datblygu) 12,000,000 (darparu) Mawrth 2012 |
| Lincoln Cathedral Connected | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Eglwys Gadeiriol Lincoln | 16,111,266 | 909,700 (datblygu) 11,456,100 (darparu) Ionawr 2017 |
| Lion Salt Works | Gogledd-orllewin Lloegr | Awdurdod Lleol Gorllewin Swydd Gaer a Chaer | 6,962,250 | 5,290,000 (darparu) Mawrth 2008 |
| Medicine Galleries Project | Llundain | Yr Amgueddfa Wyddoniaeth | 20,949,628 | 400,000 (datblygu) 7,600,000 (darparu) Medi 2016 |
| National Army Museum, Building for the Future | Llundain | Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin | 23,250,000 | 350,000 (datblygu) 11,500,000 (darparu) Ebrill 2014 |

| % y grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2019 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Darparu<br>70 | Cynhaliwyd y digwyddiad lansio ffurfiol yn Knole ddydd Mercher 27 Chwefror. Mae rhywfaint o weithgarwch cadwraeth/gwirfoddoli angen ei gyflawni, a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn derfynol yn 2019. |
| Datblygu<br>70 | Mae'r cam datblygu wedi bod yn llwyddiannus, ac mae'n agos at gael ei gwblhau. Disgwylir cais rownd dau erbyn mis Ebrill 2019 i'w benderfynu gan y Bwrdd ym mis Medi 2019. |
| Darparu<br>78 | Mae'r prosiect yn agos at ei orffen yn llwyddiannus yn hwyrach yn 2019. Agorodd y Ganolfan Addysg yn 2014 ar ôl ei hadnewyddu, a'r Ganolfan Ddysgu newydd yn 2016. Mae gwaith disodli'r plwm ar do'r eglwys wedi'i gwblhau, ac mae'r gwaith ffenestri a'r gromgell uchel yn datblygu'n unol â'r amserlen. Bydd yr arddangosfa barhaol yn y Trifforiwm yn agor yng ngwanwyn 2019. Y Cynllun Gweithredu wedi'i weithredu'n llwyddiannus – mae rhagor o gyfleoedd gwirfoddoli a phrentisiaethau yn parhau. |
| Darparu<br>79 | Dyfarnwyd grant ym mis Gorffennaf 2015, a rhoddwyd caniatâd i ddechrau arni ym mis Medi 2015. Mae'r prif gontract bron wedi'i gwblhau ar y safle, ac mae gwaith dodrefnu'r adeilad yn mynd rhagddo. Mae'r elfennau ymgysylltu a gweithgareddau wedi'u cyflawni'n llwyddiannus iawn. Disgwylir cwblhau'r prosiect cyfalaf ac agor yr adeilad yng nghanol 2019. |
| Darparu<br>90 | Mae'r Castell wedi bod ar agor ers mis Ebrill 2015, ac mae'n parhau i ragori ar dargedau ymwelwyr. Roedd disgwyl i'r mân waith terfynol gael ei gyflawni ym mis Mawrth 2019, a disgwylir rhywfaint o ddad-ymrwymo pan fydd yr ymholiad terfynol yn cael ei gyflwyno. |
| Darparu<br>13 | Dyfarnwyd grant ym mis Ionawr 2017, ac mae cynnydd da yn cael ei wneud. Mae ymchwiliadau archeolegol a gwaith adfer ar y blaen gorllewinol yn mynd rhagddynt. Mae'r cwmni dylunio deongliadol wedi'i newid. |
| Darparu<br>100 | Cwblhawyd ym mis Hydref 2018. Roedd yr adroddiad terfynol yn hynod gadarnhaol, gyda niferoedd ymwelwyr yn uwch na'r targed, a'r incwm arlwyo a masnachu yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl. Mae tîm cryf o wirfoddolwyr ar waith, ynghyd â phartneriaeth effeithiol a chefnogol ddwy ffordd rhwng yr awdurdod lleol ac Ymddiriedolaeth Lion Saltworks. Mae'r nifer sylweddol o wobrau a gafwyd ym maes cadwraeth, dysgu a thwristiaeth yn adlewyrchu gwaith rheoli, a darparu gweithredol a'r partneriaethau cryf a ffurfiwyd yn ystod y prosiect. |
| Darparu<br>32 | Gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo. Bwriedir agor ym mis Tachwedd 2019. |
| Wedi'i gwblhau<br>100 | Wedi'i gwblhau. Mae gwaith ailddatblygu'r adeilad yn Chelsea wedi'i gwblhau, gan gynnwys ardal croesawu ymwelwyr, cyfeiriadu, arwyddion tywys, orielau newydd, caffi/bwyty mwy o faint, siop ac ystafell ddysgu. Ail-agorodd i'r cyhoedd ym mis Mawrth 2017. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu |
|---|---|---|---|---|
| Bywyd Newydd i'r Hen Goleg | Cymru | Prifysgol Aberystwyth (Yr Hen Goleg) | 22,711,598 | 849,500 (datblygu) Ebrill 2017 10,581,800 (darparu) |
| Pont Gludo Casnewydd – Atgyweirio, Adfer a Dehongli | Cymru | Cyngor Dinas Casnewydd | 13,206,900 | 1,052,800 (datblygu) 9,708,400 Ebrill 2018 |
| Norwich Castle: Gateway to Medieval England | Dwyrain Lloegr | Gwasanaeth Archeoleg ac Amgueddfeydd Norfolk | 13,174,200 | 462,400 (datblygu) Ebrill 2016 8,756,800 (darparu) |
| Plymouth History Centre: Plymouth's role in History and History's role in Plymouth | De-orllewin Lloegr | Cyngor Sir Plymouth | 33,326,900 | 940,300 (datblygu) 14,833,200 (darparu) Gorffennaf 2016 |
| Remaking Beamish | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Amgueddfa Beamish | 16,699,062 | 603,800 (datblygu) 10,891,200 (darparu) Medi 2016 |
| Restoration of Dreamland Margate | De-ddwyrain Lloegr | Ymddiriedolaeth Dreamland a Chyngor Dosbarth Thanet | 11,102,520 | 493,500 (datblygu) 5,800,000 (darparu) Tachwedd 2011 |
| Revealing, Celebrating and Exploring the Heritage of the Royal Academy of Arts | Llundain | Academi Frenhinol y Celfyddydau | 30,156,969 | 458,700 (datblygu) 12,274,500 (darparu) Medi 2013 |
| Revisioning Nottingham Castle – 1000 Years of History | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Cyngor Dinas Nottingham | 24,750,158 | 599,500 (datblygu) 13,883,400 (darparu) Tachweed 2016 |
| SeaMore: sharing the newest National Collection | De-ddwyrain Lloegr | Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol | 17,569,737 | 433,500 (datblygu) Ebrill 2016 13,421,200 (darparu) |
| Silverstone Heritage Experience and Collections and Research Centre | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Silverstone Heritage Ltd | 19,121,014 | 446,000 (datblygu) 8,664,500 (darparu) Tachwedd 2016 |
| Sir Anthony Van Dyck: Acquiring and Sharing His Last Self-Portrait | Llundain | Yr Oriel Bortreadau Genedlaethol | 10,343,536 | 6,343,500 Ebrill 2014 |

| % y grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2019 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Datblygu<br>78 | Rhoddwyd caniatâd i ddechrau arni ym mis Mehefin 2017. Roedd y gwaith wedi'i ohirio i ddechrau, ond mae bellach yn gweithredu'n unol â'r amserlen – adolygiad gofynnol o gwmpas/dyluniad er mwyn sicrhau defnydd mwy ymarferol o'r gofodau. Pasiodd yr Adolygiad Datblygu ym mis Tachwedd 2018. Amcangyfrifir y bydd cais rownd dau yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2019. |
| Datblygu<br>0 | Rhoddwyd caniatâd i ddechrau arni ar 27 Medi 2018. Tîm rheoli prosiect a monitro wedi'i benodi. Mae tendrau allan ar gyfer y timau dylunio a'r contractwyr ar gyfer y – cam cyn-adeiladu. |
| Darparu<br>0 | Dyfarnwyd grant ym mis Medi 2018. Rhoddwyd caniatâd i ddechrau arni ym mis Ionawr 2019. |
| Darparu<br>42 | Dyfarnwyd grant ym mis Gorffennaf 2016, a rhoddwyd caniatâd i ddechrau arni ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r prosiect yn datblygu'n dda a sicrhawyd cyllid ychwanegol gan y Cyngor, ac Achrediad ar gyfer y Swyddfa Gofnodion. Fe'i hailenwyd bellach yn 'The Box'. Mae'r gwaith cyfalaf yn agos at orffen, a bydd trosglwyddo'r gofodau arddangos i'w dodrefnu yn digwydd mewn rhaglen dreigl dros y misoedd nesaf. Disgwylir iddo agor ym mis Ebrill 2020. |
| Darparu<br>23 | Mae'r gwaith sifil ac isadeiledd wedi'i gwblhau i raddau helaeth. Mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. |
| Wedi'i gwblhau<br>100 | Cwblhawyd ym mis Awst 2018. Mae'r parc diddanu yn parhau i weithredu, a bydd yn ail-agor ar gyfer tymor 2019 – mae'n rhan allweddol o waith adfywio Margate. |
| Delivery<br>97 | Cwblhawyd y gwaith cyfalaf ym mis Ebrill 2018, ac ail-agorwyd yr Academi Frenhinol i'r cyhoedd ym mis Mai 2018. Mae'r gweithgarwch wedi datblygu'n dda, a disgwylir cwblhau'r gwaith ym mis Gorffennaf 2019. |
| Darparu<br>5 | Dyfarnwyd grant ym mis Tachwedd 2016. Mae'r gwaith archeolegol wedi'i gwblhau, ac mae gwaith adeiladu'r ganolfan ymwelwyr newydd ac atgyweirio'r to yn mynd rhagddo. Mae'r gwaith o recriwtio tîm dodrefnu deongliadol yn agos at ddod i ben. |
| Datblygu<br>100 | Roedd cais rownd dau yn aflwyddiannus ym mis Gorffennaf 2018. Mae Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol yn parhau i weithio ar gynlluniau ar gyfer Amgueddfa'r Môr-filwyr Brenhinol, a oedd yn un elfen allweddol o brosiect ehangach SeaMore. |
| Darparu<br>74 | Dyfarnwyd grant ym mis Tachwedd 2016. Mae'r gwaith cyfalaf, a ddechreuodd ym mis Mawrth 2018, yn agos at gael ei gwblhau, a disgwylir cynnal yr agoriad swyddogol ym mis Mai 2019. |
| Wedi'i gwblhau<br>100 | Wedi'i gwblhau. Caffaelwyd y paentiad, a chwblhawyd gweithgarwch y rhaglen ym mis Ebrill 2018. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu |
|---|---|---|---|---|
| Stroudwater Navigation Connected: canal, archives, wildlife regenerating cultural and natural heritage for everyone | De-orllewin Lloegr | Cyngor Dosbarth Stroud | 23,449,100 | 842,800 (datblygu) 9,799,000 Ebrill 2018 |
| Tees-Swale: naturally connected | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol North Pennines | 9,326,742 | 414,200 (datblygu) 6,137,300 Ebrill 2018 |
| The BPMA New Centre Project at Mount Pleasant | Llundain | Yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth Bost | 22,064,557 | 250,000 (datblygu) 5,229,300 (darparu) Rhagfyr 2015 |
| The British Museum World Conservation and Exhibitions Centre | Llundain | Yr Amgueddfa Brydeinig | 37,784,645 | 10,000,000 Ionawr 2012 |
| The Burrell | Yr Alban | Glasgow Life | 55,000,000 | 1,000,000 (datblygu) Mai 2015 14,000,000 (darparu) |
| The Canterbury Journey | De-ddwyrain Lloegr | Eglwys Gadeiriol Caergaint | 23,150,153 | 930,400 (datblygu) 12,849,500 (darparu) Medi 2016 |
| The Collections Discovery Centre at Dorset Museum | De-orllewin Lloegr | Cymdeithas Archeoleg a Bywyd Gwyllt Dorset | 15,409,625 | 483,900 (datblygu) Ebrill 2015 11,349,200 (darparu) Medi 2017 |
| "The Hold" A Suffolk Archives Service for the 21st Century | Dwyrain Lloegr | Cyngor Sir Norfolk | 20,667,604 | 538,100 (datblygu) Ebrill 2016 10,363,700 (darparu) Mawrth 2018 |
| The North's greatest 'Cathedral of Commerce': Rochdale Town Hall | Gogledd-orllewin Lloegr | Cyngor Bwrdeistref Rochdale | 14,620,178 | 688,700 (datblygu) 8,945,400 Ebrill 2018 |
| The Piece Hall – Halifax Heritage | Swydd Efrog a Glannau Humber | Cygnor Calderdale | 10,770,888 | 239,000 (datblygu) 7,000,000 (darparu) Gorffennaf 2012 |

| % y grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2019 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Datblygu<br>9 | Mae'r cyfnod datblygu'n mynd yn dda. Disgwylir cais rownd dau ym mis Tachwedd 2019. Mae hyn yn ddibynnol ar ddatblygiad digonol y Cynllun Gweithredu, a bod y gwaith caffael tir ar hyd y gamlas wedi cyrraedd cam digonol. |
| Datblygu<br>14 | Mae'r gwaith yn datblygu yn unol â'r rhaglen. Mae problem gydag arian cyfatebol grantiau amaeth-amgylchedd, mewn trafodaeth gyda DEFRA. |
| Darparu<br>98 | Mae'r prosiect wedi'i gwblhau, a disgwylir yr ymholiad olaf ddiwedd mis Mawrth 2019. Mae gweithrediadau'r dyfodol a chynllun busnes o dan adolygiad. |
| Wedi'i gwblhau<br>100 | Cwblhawyd ym mis Hydref 2018. |
| Datblygu<br>90 (Yr ymholiad terfynol wedi'i dderbyn)<br>Darparu<br>0 | Dechreuodd y gwaith adeiladu ar y safle ym mis Tachwedd 2018. Disgwylir cynigion ac amserlenni cadarn ar gyfer y gwaith i'r parc ehangach, ac mae ceisiadau cynllunio ar gyfer y gwaith ffordd a'r maes parcio yn mynd rhagddynt. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y ddau gontractiwr ar gyfer gwaith ar y prif arddangosfeydd (dodrefnu ac arddangosiadau). Mae'r gweithgarwch yn datblygu'n foddhaol, a darperir adroddiadau chwarterol. Dyddiad agoriadol targed yr adeilad yw mis Rhagfyr 2020, ond mae'n bosib y bydd yn cael ei ohirio tan wanwyn 2021, gyda gweithgareddau'n parhau tan fis Mawrth 2023. |
| Darparu<br>28 | Cynnydd da ar gyfalaf a gweithgareddau. Bydd y Ganolfan Groeso newydd yn agor yn 2019. Mae gwaith ar y to a thirweddu wedi datblygu'n helaeth, ac mae gwaith cynllunio arddangosfa a dehongli yn mynd rhagddynt. Mae gweithgareddau, gan gynnwys allgymorth cymunedol, gwirfoddoli, gwaith gydag ysgolion a mynediad gwell at gasgliadau'r gadeirlan, yn cael eu gweithredu, ac mae staff y prosiect wedi dechrau ar eu gwaith ac mae prentisiaethiaid wedi'u penodi. |
| Darparu<br>8 | Dyfarnwyd y grant ym mis Medi 2017. Mae'r rhaglen gyfalaf wedi dechrau erbyn hyn, ac mae gwaith dymchwel yn mynd rhagddo. Mae'r ymgyrch codi arian i dalu'r benthyciadau yn parhau i fod yn llwyddiannus. Mae'r cynllun gweithgarwch a gweithgareddau 'yn y cyfamser' tra bod yr amgueddfa ar gau wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac mae'r ymgysylltiad gydag ysgolion a chymunedau lleol wedi bod yn gryf iawn. |
| Darparu<br>11 | Dyfarnwyd grant ym mis Mawrth 2018. Mae gwaith adeiladu'r adeilad newydd yn mynd rhagddo, mae staff gweithgarwch wedi'u penodi ac maent yn dechrau ymgysylltu'n eang ar draws y sir. |
| Datblygu<br>0 | Rhoddwyd caniatâd i ddechrau arni ym mis Medi 2018. Mae cyfarwyddwyr y prosiect a'r tîm dylunio wedi'u penodi. Bydd cynllunydd busnes a dylunydd arddangosfeydd yn cael eu penodi ym mis Mawrth 2019. Mae'r gwaith cynllunio gweithgarwch yn cael ei ail-dendro. Mae arolygon yn mynd rhagddynt a/neu am gael eu comisiynu. Disgwylir yr ymholiad grant cyntaf ym mis Ebrill 2019. |
| Darparu<br>95 | Agorwyd yn ffurfiol ar 1 Awst 2017. Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda thros 2.5 miliwn o ymwelwyr yn y flwyddyn gyntaf o fod ar agor. Mae'r rhaglen weithgarwch yn cael ei darparu'n dda. Mae swm sylweddol o waith adfywio a buddsoddi ychwanegol wedi digwydd o gwmpas y Piece Hall ar sail buddsoddiad Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae gweithrediad yn y dyfodol a chynlluniau busnes yn cael eu hadolygu. |

## Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn

| Teitl y prosiect | Rhanbarth neu wlad | Ymgeisydd | Cyfanswm cost y prosiect (£) | Swm y grant (£)/ dyddiad dyfarnu |
|---|---|---|---|---|
| The Sill: Unspoilt Landscapes, Inspiring People | Gogledd-ddwyrain Lloeger | Awdurdod Parc Cenedlaethol Northumberland | 13,593,300 | 399,200 (datblygu) 7,748,000 (darparu) Ionawr 2015 |
| Unlocking the Severn for People and Wildlife | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd | 19,432,406 | 233,100 (datblygu) Ebrill 2016 10,577,200 (darparu) |
| V&A at Dundee | Yr Alban | Adran Datblygu'r Ddinas Cyngor Dinas Dundee | 84,358,156 | 200,000 (datblygu) 13,900,000 (darparu) Ionawr 2014 |
| We Are London – collections, galleries and people in a new museum at West Smithfield | Llundain | Amgueddfa Llundain | 46,315,774 | 402,700 (datblygu) 5,000,000 Mai 2018 |
| Windermere Steamboat Museum | Gogledd-orllewin Lloegr | Celfyddydau Lakeland | 17,506,514 | 494,000 (datblygu) 12,076,400 (darparu) Gorffennaf 2013 |

| % y grant a dalwyd hyd at 31 Mawrth 2019 | Adroddiad diweddaraf |
|---|---|
| Darparu<br>90 | Agorwyd yr adeilad ym mis Gorffennaf 2017. Cafwyd 150,000 o ymwelwyr eisoes. Mae'r rhaglen weithgarwch yn cael ei darparu ar hyn o bryd. Cedwir 10% olaf y grant tan i'r gweithgarwch gael ei gwblhau'n llawn. |
| Darparu<br>2 | Dyfarnwyd grant ym mis Gorffennaf 2018 – i ail-agor Afon Hafren a Thefeidiad i bob rhywogaeth bysgod er mwyn mudo, a dyma fydd y mwyaf o'i math yn Ewrop. Rhoddwyd caniatâd i ddechrau arni ym mis Tachwedd 2018. Rhoddwyd tîm rheoli prosiect cryf ar waith gan yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd. Mae pris contractiwr yn cael ei sicrhau ar gyfer y Gored gyntaf yn Diglis (Caerwrangon), a disgwylir y bydd y gwaith cyfalaf yn dechrau ym mis Ebrill 2019. Dechreuodd gwaith ar y ganolfan ymwelwyr yn Diglis Island ym mis Chwefror 2019, a bydd gwaith ar ardal chwarae Dyffryn Hafren ym mis Mehefin 2019. Mae'r prosiect yn datblygu'n dda hyd yma. |
| Darparu<br>77 | Mae'r prosiect a'r rhaglen ddysgu wedi'u cyflawni'n llawn, ac mae ymholiad terfynol ar gyfer y cyfnod cyflawni'n dod yn fuan. Mae gweithrediadau'r dyfodol a chynlluniau busnes o dan adolygiad, ac mae derbynnydd y grant mewn trafodaethau gyda Llywodraeth yr Alban. |
| Datblygu<br>15 | Cynhelir cyfarfodydd cynnydd yn rheolaidd. Rhoddir gwybod i ni'n rheolaidd am benderfyniadau dylunio a datblygiadau strategol. Mae'r cyfnod datblygu yn debygol o bara'r cyfnod llawn o ddwy flynedd. |
| Darparu<br>99 | Gwaith ymarferol wedi'i gwblhau – wedi'i ariannu'n rhannol gan fenthyciad Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Agorodd yr amgueddfa i'r cyhoedd ym mis Mawrth 2019, a derbyniodd adolygiadau cadarnhaol. Bydd Celfyddydau Lakeland yn parhau i adolygu'r cynlluniau ariannol a gweithredol. Dyfarnodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol grant Treftadaeth Gydnerth o £229,000 ym mis Medi 2018, er mwyn hwyluso'r trosglwyddiad i weithrediad llawn. Mae hyn yn datblygu'n dda, ac mae Rheolwr Prosiect Marchnata a Datblygu newydd ddechrau ar eu swydd. |

CCS0419037976
978-1-5286-1208-1